- yn mewnosod adran 375A newydd yn Neddf 1996 (darpariaeth ynglŷn â maes llafur cytunedig) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r maes llafur cytunedig adlewyrchu ystod o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol a ddelir ym Mhrydain Fawr. Fel gydag adran 62 o'r Bil, diffinnir y term drwy gyfeirio at A2P1;
- yn diwygio adran 390 o Ddeddf 1996 (cyfansoddiad Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig) gan gynnwys cyfeiriad at argyhoeddiadau athronyddol fel y'u diffinir uchod;
- yn diwygio adran 392 o Ddeddf 1996 (darpariaeth atodol ar gyfansoddiad Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig) gan gynnwys cyfeiriad at argyhoeddiadau athronyddol fel y'u diffinir uchod.
- yn diwygio Atodlen 31 i Ddeddf 1996 (darpariaeth mewn perthynas â'r math o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y mae'n rhaid ei darparu ym mhob categori o ysgol) gan gynnwys cyfeiriad at argyhoeddiadau athronyddol fel y'u diffinir uchod.

Noder hefyd adran 62(5) o'r Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol yn benodol bod yn rhaid i gyrrff llywodraethu arfer eu swyddogaethau gyda'r bwriad o sicrhau bod addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael ei darparu yn unol ag adran 62 o'r Bil.

#### *Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig:*

Er bod y Llywodraeth wedi dewis cadw Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig, mae'r Bil yn diwygio eu cyfansoddiad i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gynnwys grŵp o bersonau i gynrychioli'r cyfryw argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol yn ei Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig ag a ddylai gael eu cynrychioli ym marn yr awdurdod. Mae hyn yn adlewyrchu'r canllawiau cyfredol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru i awdurdodau lleol a Chynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig. Diwygiwyd y canllawiau hynny yn dilyn her gyfreithiol i Gyngor Bro Morgannwg yn 2017. Heriwyd Cyngor Bro Morgannwg drwy adolygiad barnwrol mewn perthynas â'i benderfyniad i wrthod penodi person heb greddoau crefyddol i Grŵp A o'i CYSAG. Heriwyd penderfyniad y Cyngor i wrthod aelodaeth 'llawn' (h.y. aelodaeth â hawl i gymryd rhan ym mhleidleisiau'r grŵp) CYSAG i gynrychiolydd Dyneiddiol ar y sail nad yw Dyneiddiaeth yn grefydd. O ganlyniad, penderfynodd y Cyngor i wneud y penderfyniad eto ac nid aeth yr achos yn ei flaen gerbron gwrandawriad llawn. Ysgrifennodd y Gweinidog Addysg at bob awdurdod lleol yn nodi'r canlynol:

a. “er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Hawliau Dynol 1998, dylid dehongli bod y darpariaethau yn ymwneud â chyfansoddiad CYSAG a CMLIC yn Neddf 1996 yn caniatáu penodi personau sy'n cynrychioli'r rhai â chredoau anghrefyddol yn yr un modd ag y maent yn caniatáu penodi personau sy'n cynrychioli'r rhai â chredoau crefyddol; (adran 390(4)(a) a pharagraff 4(2)(1) o Atodlen 31 i Ddeddf 1996). Fodd bynnag, ystyriwn fod yn rhaid i greddoau anghrefyddol a goleddir gan yr unigolyn i'w benodi fod yn gydweddol â chred grefyddol, megis dyneiddiaeth. Er mwyn bod yn “gydweddol”, ystyriwn fod yn rhaid i'r credoau anghrefyddol, yn unol â'r gyfraith achosion o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol 1998, gyrraedd y lefel angenrheidiol o ran grym, difrifoldeb, cydlyniant a phwysigrwydd i sicrhau diogelwch o dan Hawliau'r Confensiwn;

b. mae penodiad yn dibynnu ar farn yr awdurdod lleol perthnasol ynglŷn ag a fyddai cynrychiolydd o'r fath yn helpu i sicrhau bod y traddodiadau perthnasol yn ardal yr awdurdod lleol yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yng Ngrŵp A. Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am benderfynu ar benodiadau, gan ei fod yn y sefyllfa orau i asesu a oes gan CYSAG yr arbenigedd a'r profiad angenrheidiol i gyflawni ei swyddogaeth yn briodol.



c. Mae'r un egwyddor yn berthnasol i benodiadau i Gynadleddau Meysydd Llafur Cytûn (CMLIC)."

Ni chaiff Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig argymhell i'w hawdurdod lleol y dylid mabwysiadu maes llafur cytunedig oni bai ei fod yn bodloni gofynion y Bil, gan gynnwys, yn adran 62, fod yn rhaid i'r maes llafur cytunedig adlewyrchu ystod o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol a ddelir ym Mhrydain Fawr. Fel gydag adran 62 o'r Bil, diffinnir y term drwy gyfeirio at A2P1. Felly, oni bai bod y maes llafur cytunedig yn cynnwys argyhoeddiadau athronyddol fel y'u diffinnir gan A2P1, ni allai fabwysiadu'r maes llafur cytunedig a argymhellir.

Atodir copi o'r ohebiaeth hon er gwybodaeth ac er hwylustod.

### **Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**

O ran Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, mae'r Bil hefyd yn gwneud sawl darpariaeth sydd â'r nod o sicrhau cynnwys ac addysgu plwraliaethol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae'r rhain fel a ganlyn.

*Newid enw:*

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer newid yr enw presennol mewn deddfwriaeth o addysg rhyw i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Mae hyn yn dangos eangder y pwnc a'r cysyniadau y dylid eu cynnwys.

*Cod Statudol ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb:*

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod sy'n nodi dysgu craidd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Mae hyn yn golygu meysydd y mae'n rhaid i ysgolion a lleoliadau a ariennir nas cynhelir ymdrin â nhw wrth addysgu a dysgu'r elfen orfodol benodol hon. Bydd y rhain yn nodi'r materion y mae'n rhaid ymdrin â nhw a sut y dylid ymdrin â nhw. Mae cod statudol ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ffordd o weithredu eithriadol er mwyn adlewyrchu'r materion diwylliannol, moesol a moesegol pwysig sy'n rhan annatod o addysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, mewn cwricwlwm sy'n ceisio peidio â bod yn rhagnodol i raddau helaeth. Mae cyfraith achosion, a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn ei gwneud yn ofynnol i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb blwraliaethol fod ar gael i bob dysgwr<sup>1</sup>.

*Yn ddatblygiadol briodol:*

Bydd y Bil hefyd yn cynnwys darpariaeth benodol y bydd yr Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a ddarperir yn ddatblygiadol briodol.

### **C3.Pam nad yw'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol ddylunio ac addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gan ystyried y maes llafur y cytunwyd arno?**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod rôl Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig a'r Eglwys yng Nghymru fel darparwyr addysg yng Nghymru.

---

<sup>1</sup> Am gyfraith achosion berthnasol, gweler Dojan ac Eraill v Cais yr Almaen rhif 319/08.  
Tudalen y pecyn 74

Mae cyfraith achosion, a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, yn ei gwneud yn ofynnol i addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg blwraliaethol fod ar gael i bob dysgwr<sup>2</sup>.

Gallem ddarparu addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg blwraliaethol drwy un o ddwy ffordd. Byddai'r ddwy ohonynt yn sicrhau bod y canllawiau a'r fframwaith deddfwriaethol arfaethedig yn unol â'r hawliau a ddiogelir gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Y ffordd gyntaf fyddai gorfodi rhwymedigaeth newydd ar bob ysgol i addysgu Addysg Grefyddol mewn modd plwraliaethol. Byddai'r dull gweithredu hwn yn dileu pob cyfyngiad arall ac yn gorfodi pob ysgol i newid y ffordd y mae'n addysgu (gan dybio bod unrhyw newid yn angenrheidiol). Byddai hefyd yn cael blaenoriaeth dros unrhyw ddarpariaeth a bennir yn ei gweithred ymddiriedolaeth. Mae hyn yn debygol o effeithio ar allu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir â chymeriad crefyddol i addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â'u gweithredoedd ymddiriedolaeth neu eu henwad. Byddai maint yr effaith honno yn amrywio yn dibynnu ar y ddarpariaeth benodol yng ngweithred ymddiriedolaeth yr ysgol a dull addysgu presennol yr ysgol.

Nid yw'r Bil yn cynnwys y gofyniad hwn am y byddai goblygiadau sylweddol i ysgolion â chymeriad crefyddol.

Y ffordd arall yw'r hyn a geir yn y Bil ei hun sydd, yn ein barn ni, yn ymateb priodol i'r materion sy'n codi ac yn cydymffurfio â hawliau'r Confensiwn.

#### **C4.A fydd yn ofynnol i ysgolion sydd â chymeriad crefyddol ddylunio dau faes llafur; un enwadol a'r llall gan ystyried y maes llafur y cytunwyd arno? Os felly, sut y bydd ysgolion yn gallu cyflawni hyn yn ymarferol lle mae'n ofynnol iddynt addysgu'r ddau faes llafur?**

Bydd yn rhaid i ysgolion sydd â chymeriad crefyddol ddylunio dau faes llafur. Gan nad oes unrhyw hawl i dynnu plentyn yn ôl o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (nac yn wir Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb), mae angen i'r Bil sicrhau bod addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg blwraliaethol ar gael i'r plant hynny sy'n mynychu ysgol ffydd os bydd rhiant yn dymuno hynny. Dyna'r hyn y mae'r gyfraith gyfredol yn ei fynnu – mynediad at addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg blwraliaethol os nad oes hawl i dynnu'n ôl. Mae'n bosibl y bydd rhai plant sy'n mynychu ysgol ffydd gwirfoddol a gynorthwyir yn gwneud hynny am mai hon yw'r ysgol addas agosaf ac nid o reidwydd oherwydd darpariaeth addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol. Os felly, efallai y byddant am gael addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg blwraliaethol. Cyflawnir hynny drwy ganiatáu i rieni ofyn am faes llafur cytunedig Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i'w plant. Os gofynnir am hynny, mae'n rhaid i'r ysgol ei ddarparu. Mae hynny'n sicrhau bod maes llafur cytunedig Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg blwraliaethol ar gael i bob plentyn os dymunir hynny. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag ysgolion sydd â chymeriad crefyddol i ddeall nifer y dysgwyr sy'n gofyn am hyn wrth i ofynion y Bil Cwricwlwm ac Asesu ddechrau cael eu gweithredu, a bydd yn sicrhau bod y disgwyliad tebygol yn cael ei ystyried yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Bil. Rydym o'r farn bod hynny'n unol â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac yn eu gwarchod ar gyfer pob dysgwr. O ran sut y gallant ddarparu hynny'n ymarferol, rydym yn rhagweld mai niferoedd bach iawn o ddisgyblion fydd yn peidio â dilyn y maes llafur enwadol. Byddai angen i'r ysgol ystyried y ffordd orau o ddarparu hynny. Er enghraifft, gellid ei ddarparu mewn dosbarthiadau ychwanegol atodol neu ar wahân. Mae fy swyddogion yn gweithio gyda Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig a'r

---

<sup>2</sup> Am y gyfraith achosion berthnasol gweler (Folgerø v Norway; Lautsi v Italy (2008) 46 EHRR 47, paragraff 54); (Lautsi v Italy (2012) 54 EHRR 3, paragraff 59) ac achos Fox [2015] EWHC 3404 (Gwein).

Eglwys yng Nghymru i ystyried sut i asesu effaith gweithredu'r gofyniad hwn a mynd i'r afael â hi.

**C5.A oes perygl, o gofio bod y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i ddisgybl gael addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg anenwadol mewn ysgol wirfoddol a gynorthwyr pan fydd y rhiant yn gofyn am y ddarpariaeth honno, y gallai rhai ysgolion â chymeriad crefyddol dorri amodau eu gweithredoedd ymddiriedolaeth yn y pen draw pan fydd mwyafrif y rhieni yn gwneud cais o'r fath?**

Nac oes. Gallai'r ysgol gydymffurfio â'r gofyniad hwnnw mewn sawl ffordd. Gall yr ysgol ddarparu'r math hwn o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy ddarparu dosbarthiadau atodol ychwanegol i'r disgyblion hynny yn yr ysgol. Os nad oedd hynny'n briodol ym marn yr ysgol, yna gallai'r opsiynau gynnwys gwneud trefniadau i ddarpar dysgu ychwanegol mewn lleoliad arall neu wneud trefniadau i ddarparwyr allanol ddarparu dysgu ar safle'r ysgol. Byddai angen i'r ysgol nodi hynny'n glir, gan gynnwys yr hyn a fyddai'n cael ei ddarparu.

Rydym wedi gwranddo'n ofalus ar y pryderon a godwyd gan bartneriad a rhanddeiliaid ond ni ragwelwn y bydd nifer mawr o ddisgyblion yn dewis peidio â dilyn addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol. Yn ein barn ni, mae'n debygol, os yw rhieni wedi arfer yr hawl i dynnu eu plant yn ôl o addysg grefyddol o dan y ddeddfwriaeth gyfredol, y byddant hefyd yn eu tynnu'n ôl o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol. Rydym ar ddeall bod nifer y rhieni sy'n arfer yr hawl i dynnu eu plant yn ôl ar hyn o bryd mewn ysgolion sydd â chymeriad crefyddol yn fach iawn.

**C6.A allwch chi gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal ymgynghoriad pellach ar y canllawiau statudol i awdurdodau lleol ynghylch meysydd llafur cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a bod yr ymgynghoriad cyfredol (a ddaeth i ben ar 28 Gorffennaf 2020) yn gam rhagarweiniol i hyn? Pryd ydych chi'n rhagweld cynnal unrhyw ymgynghoriad ychwanegol ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg?**

Mae Fframwaith Ategol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, a fydd yn ganllawiau statudol, wedi cael ei lunio ar y cyd ag ymarferwyr ac arbenigwyr Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg dros y 12 mis diwethaf. Ei nod yw helpu Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig ac ysgolion i ddatblygu a gweithredu eu maes llafur cytunedig.

Gallaf gadarnhau y bydd ymgynghoriad ffurfiol ar y fframwaith statudol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar ddiwedd y flwyddyn. pan fyddwn yn croesawu ystyriaeth o'r Fframwaith gan bob ffydd a chefnidir.


Bwriedir cyhoeddi rhagor o ganllawiau i helpu ysgolion sydd â chymeriad crefyddol i ddylunio'r cwricwlwm. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod mewn trafodaethau â Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig a'r Eglwys yng Nghymru i ddatblygu'r canllawiau ar y cyd ac edrychaf ymlaen at weithio mewn partneriaeth â'r ddau gorff i ddatblygu'r rhain.

Bydd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig, mewn partneriaeth â thair Esgobaeth Gatholig Cymru a Llywodraeth Cymru, ar y cyd yn llunio dogfennau 'Canllawiau'r Cwricwlwm' ar gyfer ysgolion Catholig yng Nghymru a fydd yn:

- creu cysylltiadau rhwng Addysg Grefyddol enwadol Gatholig a'r Dyniaethau, gan helpu ysgolion Catholig yng Nghymru i roi sylw priodol i'r MDPH;
- creu cysylltiadau ehangach rhwng y meysydd llafur enwadol Catholig a chynnwys y Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill;

- cyfeirio at elfennau trawsbynciol y cwricwlwm, megis: Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, reading "Kirsty Williams AS". The signature is written in a cursive style with a large initial 'K' and 'W'.

**Kirsty Williams AS**  
Y Gweinidog Addysg



Cyfarwyddwyr Addysg Awdurdodau Lleol

3 Mai 2018

Annwyl Gydweithwyr

Ysgrifennaf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am drefniadau llywodraethu ac aelodaeth y Cyngorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol ("CYSAG") a Chynadleddau Meysydd Llafur Cytûn ("CMLIC").

Fel y gwyddoch, mae'r canllawiau perthnasol yn ymwneud ag aelodaeth CYSAG wedi'u nodi yng Nghylchlythyr 10/94 (a gyhoeddwyd gan yr hen Swyddfa Gymreig ym 1994). Nid yw'r cylchlythyr anstatudol hwn yn rhwymo mewn cyfraith nac yn awdurdodol, ond codwyd nifer o gwestiynau'n ddiweddar yn ymwneud ag aelodaeth Grŵp A CYSAG. Yn benodol, codwyd cwestiynau ynglŷn ag a ddylai personau â chredoau anghrefyddol (fel Dyneiddwyr) gael caniatâd i fod yn aelodau llawn o Grŵp A ar sail Deddf Hawliau Dynol 1998. Er gwytodaeth, mae manylion aelodaeth CYSAG i'w gweld yn Atodiad A.

Mae paragraff 103 yn datgan:

"Byddai cynnwys cynrychiolwyr systemau cred megis hiwmanistaeth, nad ydynt yn gyfystyr â chrefydd neu enwad crefyddol, ar bwyllgor A cynhadledd maes llafur cytûn neu grŵp A CYSAG yn groes i'r darpariaethau cyfreithiol y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 102."

Awdurdodau lleol a'r CYSAGau sy'n gyfrifol am benodi personau i CYSAG. Fodd bynnag, o ystyried cyngor cyfreithiol, rwyf o'r farn y gellir penodi cynrychiolwyr o systemau cred anghrefyddol i Grŵp A CYSAG neu CMLIC er mwyn sicrhau bod y CYSAG/CMLIC yn adlewyrchu credoau'r cymunedau a wasanaethant yn llawn, ac er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth bresennol.

Ym marn Llywodraeth Cymru:

- er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Hawliau Dynol 1998, dylid dehongli bod y darpariaethau yn ymwneud â chyfansoddiad CYSAG a CMLIC yn Neddf 1996 yn caniatáu penodi personau sy'n cynrychioli'r rhai â chredoau anghrefyddol yn yr un

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

modd ag y maent yn caniatáu penodi personau sy'n cynrychioli'r rhai â chredoau crefyddol; (adran 390(4)(a) a pharagraff 4(2)(1) o Atodlen 31 i Ddeddf 1996). Fodd bynnag, ystyriwn fod yn rhaid i gredoau anghrefyddol a goleddir gan yr unigolyn i'w benodi fod yn gydweddol â chred grefyddol, megis dyneiddiaeth. Er mwyn bod yn "gydweddol", ystyriwn fod yn rhaid i'r credoau anghrefyddol, yn unol â'r gyfraith achosion o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol 1998, gyrraedd y lefel angenrheidiol o ran grym, difrifoldeb, cydlyniant a phwysigrwydd i sicrhau diogelwch o dan Hawliau'r Confensiwn.

- mae penodiad yn dibynnu ar farn yr awdurdod lleol perthnasol ynglŷn ag a fyddai cynrychiolydd o'r fath yn helpu i sicrhau bod y traddodiadau perthnasol yn ardal yr awdurdod lleol yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yng Ngrŵp A. Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am benderfynu ar benodiadau, gan ei fod yn y sefyllfa orau i asesu a oes gan CYSAG yr arbenigedd a'r profiad angenrheidiol i gyflawni ei swyddogaeth yn briodol.

Mae'r un egwyddor yn berthnasol i benodiadau i Gynadleddau Meysydd Llafur Cytûn (CMLIC).

Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae'r canllaw a nodir yn y llythyr hwn yn disodli paragraff 103 o Gylchlythyr 10/04.

O safbwynt diweddarau Cylchlythyr 10/94 yn fwy cyffredinol, rwy'n ymwybodol bod meysydd eraill sy'n destun dadl yn y ddogfen sydd angen mynd i'r afael â nhw. Gan fod rhai materion yn gymhleth, rydym yn parhau i'w hystyried ac felly bydd adolygiad o'r canllawiau yn cael ei ystyried yng nghyd-destun y gwaith sy'n cael ei wneud ar y cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru.

Gobeithio bod y llythyr hwn yn egluro'r materion hyn.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

## Atodiad A

Mae swyddogaethau CYSAG wedi'u nodi yn adran 375 o Ddeddf Addysg 1996 ("Deddf 1996"). Yn gyffredinol, y swyddogaethau yw cynghori awdurdod lleol ar faterion yn ymwneud ag addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae adran 390 o Ddeddf 1996 yn pennu cyfansoddiad CYSAG fel a ganlyn:

- a) *a group of persons to represent Christian denominations and other religions and denominations as in the opinion of the authority appropriately reflect the principal religious traditions in the area. The number of persons appointed should reflect broadly the proportionate strength of the particular denomination or religion in the area ("Group A");*
- b) *a group of persons representing associations that represent teachers; and*
- c) *a group of persons to represent the authority.*

Yn ogystal, gall CYSAG gynnwys aelodau cyfetholedig. Dylai'r cyfryw aelodau gael eu penodi ar y telerau y gellir eu pennu gan y rhai sy'n cyfethol yr unigolyn hwnnw h.y. y CYSAG ei hun (adran 392(5) o Ddeddf 1996). Ni all aelodau cyfetholedig gymryd rhan mewn pleidlais grŵp.

Senedd Cymru  
**Y Pwyllgor Cyllid**

Welsh Parliament  
**Finance Committee**

Cadeirydd, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cadeirydd, Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, Cadeirydd, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Cadeirydd, Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cadeirydd, Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

22 Gorffennaf 2020

### **Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22:**

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau

Ymhellach at ddadl y Pwyllgor Cyllid ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 ar **15 Gorffennaf 2020**, rwy'n ysgrifennu at holl Gadeiryddion y pwyllgorau pwnc i rannu ein syniadau ac i annog eich pwyllgorau i drafod sut y gallwch gyfrannu at gyflawni'r gwaith craffu mwyaf cydlynol ac effeithiol ar gynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru.

#### **Y prif feysydd craffu ar y gyllideb**

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cytuno i barhau â'r dull a ddefnyddiwyd yn y gorffennol, sy'n ymwneud â'r pedair egwyddor ar gyfer craffu ariannol, sef: fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phroses. Yr egwyddorion yw:



- **Fforddiadwyedd** - edrych ar y darlun mawr o ran cyfanswm y refeniw a gwariant, ac a oes cydbwysedd priodol;
- **Blaenoriaethu** - a yw'r dyraniadau wedi'u rhannu rhwng sectorau/rhaglenni gwahanol mewn ffordd gydlynol y gellir ei chyfiawnhau;
- **Gwerth am arian** - Yn y bôn, a yw cyrff cyhoeddus yn gwario eu dyraniadau yn dda - darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (h.y. canlyniadau); a
- **Phrosesau'r gyllideb** - a ydynt yn effeithiol ac yn hygyrch ac a oes integreiddio rhwng cynllunio corfforaethol a chynllunio gwasanaethau, a rheoli perfformiad a rheoli ariannol.



**Senedd Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 [SeneddCyllid@senedd.cymru](mailto:SeneddCyllid@senedd.cymru)  
 0300 200 6565

**Welsh Parliament**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 [SeneddFinance@senedd.wales](mailto:SeneddFinance@senedd.wales)  
 0300 200 6565



Ysgrifennais atoch ar **1 Mehefin 2020**, i roi gwybod i chi, o ystyried y cyfyngiadau cymdeithasol ar hyn o bryd, na fyddem yn cynnal ein digwyddiad blynyddol i randdeiliaid. Yn lle hynny, cynhaliodd y Pwyllgor waith ymgysylltu ar-lein gan ddefnyddio arolygon barn a chwestiynau ar Twitter yn gofyn i'r cyhoedd awgrymu meysydd y dylid eu blaenoriaethu. **Mae crynodeb o'r ymatebion ar gael.** Er bod yr ymarferiad ymgysylltu yn gyfyngedig o ran cwmpas eleni, gan fod y sampl yn hunan-ddewis ac nid yn seiliedig ar sampl gynrychioliadol o'r boblogaeth, rhoddodd gipolwg diddorol ar safbwyntiau ac amlygwyd y rhain yn ystod y ddadl ar flaenoriaethau gwariant ar **15 Gorffennaf 2020**. Rwy'n falch iawn o gadarnhau bod y Pwyllgor Busnes a'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd wedi cytuno y dylid cynnal dadl o'r math hwn bob blwyddyn ac rwy'n ddiolchgar i'r Aelodau a gyfrannodd at y ddadl.

Yn sicr, bydd yr adferiad o ganlyniad i bandemig Covid-19, a diwedd cyfnod pontio Brexit yn effeithio ar Gyllideb Ddrafft 2021-22. Yn ogystal â hynny, yn dilyn ein gwaith ymgysylltu a'r cyfraniadau a wnaed yn ystod y ddadl ar flaenoriaethau, rydym wedi nodi nifer o feysydd yr hoffem weld y gwaith craffu yn canolbwyntio arnynt, sef:

- *Sut y dylid targedu adnoddau i gefnogi adferiad economaidd a pha sectorau yn benodol y mae angen eu blaenoriaethu.*
- *I ba raddau y dylid blaenoriaethu lliniaru newid yn yr hinsawdd wrth gefnogi adferiad economaidd.*
- *Polisiau Llywodraeth Cymru i leihau tlodi ac anghydraddoldeb rhwng y rhywiau.*
- *Y dull gweithredu o ran gwariant ataliol, a sut y cynrychiolir hyn wrth ddyrannu adnoddau (Gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lliniaru'r galw am wasanaethau yn y dyfodol, drwy ymyrryd yn gynnar);*
- *Cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, arloesi a gwednewid gwasanaethau;*
- *Sut y mae tystiolaeth yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru o ran pennu blaenoriaethau a dyrannu'r gyllideb;*
- *Sut y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau trethu a benthyca.*
- *Cefnogaeth i fusnesau, twf economaidd ac amaethyddiaeth ar ôl i'r cyfnod pontio Ewropeaidd ddod i ben.*
- *Beth yw'r cyfleoedd allweddol i fuddsoddiad y Llywodraeth gefnogi 'ailgodi'n gryfach' (h.y. cefnogi economi a gwasanaethau cyhoeddus sy'n cyflawni'n well yn erbyn y nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).*

Rydym yn eich annog i ganolbwyntio ar rai o'r meysydd hyn yn eich gwaith craffu ar y gyllideb.

### **Amserlen**

Mae Llywodraeth Cymru fel arfer yn cyhoeddi ei chyllideb ddrafft ym mis Hydref. Fodd bynnag, caiff ei hoedi eleni gan nad oes gan Lywodraeth Cymru arwydd o gyfanswm y cyllid sydd ar gael nes bod Llywodraeth y DU yn cyhoeddi Cyllideb neu Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant. Mae'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd **wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes** ac er mwyn cydymffurfio â Rheol Sefydlog 20, nododd y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r cyllidebau drafft amlinellol a



manwl gyda'i gilydd ar 8 Rhagfyr 2020, a'r Gyllideb derfynol ar 2 Mawrth 2021. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog y bydd yn darparu amserlen bendant cyn gynted ag y bo modd ar ôl i Lywodraeth y DU wneud cyhoeddiad ynghylch ei Chyllideb.

### **Ymgynghoriad ar y gyllideb ddrafft**

Yn seiliedig ar yr amserlen a gynigiwyd gan y Gweinidog, mae'r Pwyllgor Cyllid yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ychydig yn hwyrach eleni ym mis Medi/Hydref. Yn ôl yr arfer, byddwn yn cynnal ymgynghoriad ar ran yr holl bwyllgorau a bydd yr ymatebion yn cael eu rhannu â chi yn yr hydref er mwyn eich helpu i graffu ar y gyllideb ddrafft. Fel bob amser, byddem yn gwerthfawrogi eich cymorth i hyrwyddo ein hymgyngoriad drwy eich dulliau cyfathrebu eich hun er mwyn annog ac ymgysylltu â chynulleidfa ehangach.

Fel y gwyddoch, newidiodd y darpariaethau o ran adrodd gan bwyllgorau polisi yn 2017, ac rydych bellach yn gallu adrodd yn eich rhinwedd eich hunan (os dymunwch), a gall eich adroddiadau gael eu defnyddio fel dogfen ategol i'r ddadl ar y gyllideb ddrafft.

Os oes gennych gwestiynau am unrhyw agwedd ar broses y gyllideb ddrafft, mae croeso i chi gysylltu â mi neu Glerc y Pwyllgor Cyllid, Bethan Davies, ar 0300 200 6372, neu [seneddcyllid@senedd.cymru](mailto:seneddcyllid@senedd.cymru),

Yn gywir



Llyr Gruffydd AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



# Eitem 6.6

Y 15 Ionawr 2020 - Papur i'w nodi 6

Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

Welsh Parliament

**Children, Young People and Education Committee**

Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg

Dyddiad | Date: 22 Gorffennaf 2020

Pwnc | Subject: **Dadl ar Adroddiad Blynyddol Estyn ar gyfer 2018-19.**


Annwyl Kirsty,

Diolch i chi am eich [llythyr dyddiedig 13 Gorffennaf 2020](#), ynghylch cynnal dadl ar Adroddiad Blynyddol Estyn ar gyfer 2018-19.

Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'ch barn ar y mater hwn, sef y byddai'n fwy priodol gosod adroddiad blynyddol 2018-19 gerbron y Senedd i'w nodi, a hynny yng ngoleuni'r oedi rhwng cyhoeddi'r adroddiad a'r dyddiad posibl yn ystod tymor yr hydref pan ellir cynnal dadl arno yn y Cyfarfod Llawn.

Nodwn y ffaith eich bod yn disgwyl y bydd Adroddiad Blynyddol Estyn ar gyfer 2019-20 yn cael ei gyhoeddi ar 9 Rhagfyr, a'r ffaith y byddwch yn arwain dadl ar yr adroddiad hwnnw yn gynnar yn 2021. Yn ystod y ddadl honno, byddem yn falch o gael y cyfle i gyfeirio at bwyntiau sy'n codi o'n gwaith craffu ar adroddiad Estyn ar gyfer 2018-19, os ydynt yn berthnasol bryd hynny.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AS**

**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.



**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 [SeneddPPIA@senedd.cymru](mailto:SeneddPPIA@senedd.cymru)

 0300 200 6565

**Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 [SeneddCYPE@senedd.wales](mailto:SeneddCYPE@senedd.wales)

 0300 200 6565

Senedd Cymru  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Welsh Parliament  
Children, Young People and Education Committee

Alun Jones, Prif Weithredwr Dros Dro, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Dyddiad | Date: 22 Gorffennaf 2020

Pwnc | Subject: Covid-19: Unedau cleifion mewnol gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc


Annwyl Alun,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 15 Gorffennaf 2020, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y trefniadau sydd bellach ar waith i ganiatáu i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ymweld â chyfleusterau cleifion mewnol a'u harchwilio, ac am gynlluniau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar gyfer ymateb i unrhyw gamau i lacio neu dynhau'r cyfyngiadau symud yn y dyfodol.

Gwnaethom drafod eich ymateb yn ein cyfarfod ar 20 Gorffennaf. Rydym yn croesawu'r wybodaeth a ddarparwyd gennych, ac rydym yn dymuno cael diweddariadau rheolaidd gennych ynghylch y ffyrdd newydd o weithio yr ydych wrthi'n datblygu, gan gynnwys canlyniadau'r ymarfer gwerthuso a gynhaliwyd ar y dull dan sylw er mwyn sicrhau bod y ffyrdd newydd hyn yn briodol ac yn cyflawni eu nodau a'u hamcanion.

Hoffwn dderbyn eich cynnig i gynnal cyfarfod er mwyn trafod y gwaith dilynol ar argymhellion yr adolygiad thematig ieuentid. Byddem yn ddiolchgar pe gallech gysylltu â'r tîm clericio i drefnu amser addas ar ôl i chi gyhoeddi eich canfyddiadau.

Yn gywir,





Lynne Neagle AS  
Cadeirydd



Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 SeneddPPIA@senedd.cymru  
 0300 200 6565

Welsh Parliament  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 SeneddCYPE@senedd.wales  
 0300 200 6565



Senedd Cymru

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Welsh Parliament

Children, Young People and Education Committee

Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg

Dyddiad | Date: 22 Gorffennaf 2020

Pwnc | Subject: **Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)** – gwybodaeth ariannol

Annwyl Kirsty,

Ar **20 Gorffennaf 2020**, gwnaethom gymryd tystiolaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a'r Consortia Addysg Rhanbarthol at ddibenion llywio ein gwaith craffu ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) yng Nghyfnod 1.

Yn ystod y sesiwn gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, dywedodd cynrychiolwyr llywodraeth leol wrthym y byddent yn anfon y wybodaeth ariannol ddiweddaraf atoch er mwyn llywio'r asesiad effaith rheoleiddiol ar y Bil. Gwnaethant egluro y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno erbyn dechrau mis Medi 2020, ac y byddai'n cynnwys—ymhlith pethau eraill—asesiad o effaith COVID-19 ar gostau sy'n gysylltiedig â'r Bil, ynghyd â brasamcanion o gostau ar gyfer y ddwy flynedd ariannol nesaf.

Rydym yn ymwybodol, fel mater o drefn, y bydd fersiwn ddiwygiedig neu fersiynau diwygiedig o'r Memorandwm Esboniadol yn cael eu cyhoeddi yn ystod taith y Bil drwy'r Senedd. Fodd bynnag, o ystyried y cyd-destun cyfredol, sy'n un newidiol, byddem yn gwerthfawrogi diweddariadau rheolaidd ynghylch y wybodaeth ariannol sydd ar gael i chi, ac ynghylch eich dealltwriaeth o oblygiadau ariannol y Bil.

Er gwybodaeth, rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, o ystyried y gwaith sydd ar y gweill gan y Pwyllgor hwnnw ar oblygiadau ariannol y Bil.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AS****Cadeirydd**

copi at: Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 SeneddPPIA@senedd.cymru 0300 200 6565**Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 SeneddCYPE@senedd.wales 0300 200 6565

**Kirsty Williams AS/MS**  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Lynne Neagle AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

5 Awst 2020

Annwyl Lynne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Gorffennaf 2020 yn gofyn am ragor o wybodaeth ariannol yn dilyn fy ymddangosiad diweddar gerbron y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg mewn perthynas â Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).

I gadarnhau, mae CLILC, CCAC a'r Consortia Rhanbarthol wedi cael gwahoddiad i ddarparu rhagor o wybodaeth ariannol ar effaith y Bil Cwricwlwm ac Asesu i ddiweddarau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA). Dyma ailgychwyn y gwaith a ddechreuodd yn gynharach eleni, ac a ohiriwyd mewn rhai achosion wrth i randdeiliaid ymateb ar frys i effaith Covid-19. Fodd bynnag, mae'n werth nodi i Uwch Swyddog Cyfrifol y Bil a Rheolwr y Bil gyfarfod â'r Consortia Rhanbarthol a bod yr RIA yn adlewyrchu eu barn ar y pryd. Bydd y gwahoddiad pellach hwn i gyfrannu at yr RIA yn darparu cyfle i'r Consortia Rhanbarthol ystyried yr wybodaeth honno yng ngoleuni effaith barhaus Covid-19 a'r canllawiau pellach a gyhoeddwyd i ategu'r gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm.

Bydd yr RIA yn cael ei ddiweddarau ar ddiwedd Cyfnod 2 er mwyn adlewyrchu'r wybodaeth ychwanegol sy'n dod i law. Cyn hyn, byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cyllid wrth i ni gyfarfod yn yr hydref.

Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, cysylltwch â mi.

Yn gywir,

**Kirsty Williams AS/MS**  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 88**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Senedd Cymru  
**Y Pwyllgor Deisebau**

—  
Welsh Parliament  
**Petitions Committee**

Lynne Neagle AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Senedd Cymru  
Tŷ Hywel  
CF99 1SN

24 Gorffennaf 2020

Annwyl Lynne

**Deiseb P-05-972 Dylid darparu o leiaf bedair awr y dydd o addysg fyw i bob disgybl tra bod ysgolion ar gau oherwydd COVID-19**

Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi cael y ddeiseb uchod, a ystyriwyd gennym am y tro cyntaf yn ein cyfarfod ar 7 Gorffennaf, ochr yn ochr ag ymateb gan y Gweinidog Addysg a sylwadau pellach gan y deisebydd.

Gan fod trafodaethau parhaus ynglŷn ag effaith pandemig COVID-19 ar blant a phobl ifanc yng Nghymru, gan gynnwys mewn perthynas ag addysg, cytunwyd i ysgrifennu atoch i rannu'r ddeiseb hon â'ch Pwyllgor. Yn benodol, roeddem am dynnu eich sylw at y pwyntiau ychwanegol a wnaed gan y deisebydd mewn perthynas ag unrhyw benderfyniadau eraill i gau ysgolion neu gyflwyno dysgu cyfunol yn y dyfodol.

Mae rhagor o wybodaeth am y ddeiseb, gan gynnwys gohebiaeth gysylltiedig, ar gael ar ein gwefan yn: <https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=28719>.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â thîm clericio'r Pwyllgor drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost isod.



Yn gywir





Janet Finch-Saunders AS  
Cadair



**Senedd Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 SeneddDeisebau@senedd.cymru  
 0300 200 6565

**Welsh Parliament**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 SeneddPetitions@senedd.wales  
 0300 200 6565



Amgaeedig: Gohebiaeth gan y deisebydd at y Pwyllgor Deisebau dyddiedig  
23.06.20



**Senedd Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 [SeneddDeisebau@senedd.cymru](mailto:SeneddDeisebau@senedd.cymru)

 0300 200 6565

**Welsh Parliament**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 [SeneddPetitions@senedd.wales](mailto:SeneddPetitions@senedd.wales)

 0300 200 6565

## **P-05-972 To provide a minimum of 4 hours a day of live teaching during COVID closures for all school children – Petitioner to Committee, 23.06.20**

Please see my responses in red with regards to the letter from the Minister of Education -

We are aware that some schools have the capability to deliver live streamed lessons safely to their learners and as such we have worked with stakeholders across the Education sector to agree guidance to reflect this, subject to certain conditions. This is available at <https://hwb.gov.wales/distance-learning/developing-approaches-to-support-distancelearning/> - The lack of consistency across all schools in Wales to provide an equal delivery of continued lessons is against equality policy. "some schools" is not all schools and creates a picture of a post code lottery of educational provision both in terms of equality and the right to education as outlined in the human rights act.

The safeguarding of children remains our priority but schools have the option to use live streaming of lessons if it is considered appropriate. In doing so schools should closely adhere to their safeguarding policies and refer to the Welsh Government's 'Live-streaming safeguarding principles and practice for education practitioners' guidance document' at <https://hwb.gov.wales/zones/online-safety/live-streaming-safeguarding-principles-andpractice-for-education-practitioners/> and any relevant local authority guidance. There is inconsistent messaging and adoption of this guidance from LA's. Private schools are harnessing and have harnessed live lessons since the early pandemic and will do so should the need for "blended learning" continue into the new academic year. We see the lack of this decree being centrally agreed a matter for equality (please send the Welsh government report into equality in education for my information, again creating a "post code" lottery for those unable to access private schooling and is also a contravention of human rights for the children of Wales. WG simply cannot "pass the buck" to the LA's in a matter of such great importance especially when most LA@s are struggling financially with budget deficits.

Welsh Government do not prescribe the amount of live streaming of lessons that will be delivered as individual schools have the responsibility for the use of live streaming of lessons according to their capability to do so and local arrangements for interaction with their learners. Any arrangements for the use of live streaming of lessons will remain the responsibility of individual schools in conjunction with their Local Authorities and as such they will need to confirm the agreed position with their Local Authority. This answer from the minister is wholly unacceptable and to push the provision of live lessons out to the LA is a case for lack of equality of education provision for Welsh school children. Welsh government need to decide policy which ensures an equal provision of standard of education for children who are in state provision in line with private. To not do so is both a human rights issue and abuse of equal rights for children.

It is unacceptable for WG to push this matter onto the already struggling LA's to create a post code lottery of pot luck of what our children's education looks like as we move through 2020.

I await your response

Kirsty Williams AS/MS  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref

Lynne Neagle AS  
Y Cadeirydd  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Senedd Cymru

30 Gorffennaf 2020

Annwyl Lynne,

Ysgrifennaf atoch yn dilyn fy mhresenoldeb yng nghyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 7 Gorffennaf ar gyfer y sesiwn dystiolaeth Covid-19.

Yn y cyfarfod, cytunais i â'm swyddogion i rannu'r canlynol gyda'r Pwyllgor:

- yr adolygiad o ddysgu cyfunol a wnaed gan y consortia addysg rhanbarthol a manylion y camau a gymerwyd o ganlyniad iddo;
- y papur a gyhoeddwyd ar y cyd ag Estyn a'r consortia addysg rhanbarthol yn rhoi rhagor o fanylion am y cyngor i ysgolion ar ddysgu cyfunol.

Cafodd y Canllawiau Dysgu Cyfunol (a gyhoeddwyd ym Mehefin 2020) a'r Modelau Dysgu Cyfunol (a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2020) eu cynhyrchu ar y cyd rhwng y consortia ac Estyn, fel rhan o un o ffrydiau gwaith prosiect Parhad Dysgu Llywodraeth Cymru. Ategwyd y canllawiau hyn gan adolygiad a gynhaliwyd gan y consortia rhanbarthol, sef 'Crynodeb Cenedlaethol o Ddysgu o Bell' - dogfen gan y consortia rhanbarthol yw hon ac felly nid yw ar gael i'r cyhoedd.

Pan luniwyd y canllawiau cychwynnol, roedd yr ysgolion yn gweithredu modelau dysgu o bell. Roedd y canllawiau'n seiliedig ar adolygiad o gyhoeddiadau rhyngwladol ar ddulliau dysgu cyfunol, a rhestrir nifer ohonynt yn y canllawiau. Cynlluniwyd y canllawiau i gefnogi'r broses o ddychwelyd i'r ysgol o 29 Mehefin, pan ddechreuodd ysgolion weithredu dysgu cyfunol. Roedd y modelau dysgu cyfunol yn rhoi mwy o fanylion ac enghreifftiau o sut y gallai'r canllawiau gael eu cymhwyso ar gyfer grwpiau oedran gwahanol. Cafodd hyn ei lywio'n rhannol gan y trafodaethau a gafodd arolygwyr a chynghorwyr herio gyda phenaethiaid am eu cynlluniau i ailagor ysgolion yn rhannol. Ond roedd yn seiliedig gan mwyaf ar dystiolaeth o'r hyn oedd wedi gweithio mewn manau eraill, gan fod y gwaith hwn yn ei gamau profi cynnar yng Nghymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400


Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 92**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, reading "Kirsty Williams". The signature is written in a cursive style with a large initial 'K' and 'W'.

**Kirsty Williams AS/MS**  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education

Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg

Dyddiad | Date: 03 Awst 2020

Pwnc | Subject: **Effaith Covid-19 ar blant a phobl ifanc, gan gynnwys myfyrwyr mewn addysg bellach ac uwch**


Annwyl Kirsty,

Diolch am fynychu'r pwyllgor ar **7 Gorffennaf** i drafod effaith COVID-19 ar addysg, ac am ymateb i'n dadl yn y Cyfarfod Llawn ar **15 Gorffennaf** ar effaith y pandemig ar blant a phobl ifanc.

Yn unol ag ymagwedd gytûn y Pwyllgor tuag at ei waith craffu ar COVID-19, mae Atodiad A i'r llythyr hwn yn tynnu sylw at bwyntiau rydym yn gofyn am fanylion a/neu sicrwydd pellach arnynt ar hyn o bryd yn ystod y pandemig. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr o'r materion rydym yn eu hystyried yn bwysig; yn hytrach, ein bwriad yw rhoi adborth i Lywodraeth Cymru, a hynny ar gyflymder, ar y meysydd y credwn sydd angen mwy o sylw, a darparu goruchwyliaeth effeithiol ac amserol o'r materion sy'n dod i'r amlwg. Mae Atodiad B yn cynnwys cwestiynau na chawsant eu gofyn, oherwydd cyfyngiadau amser, yn ystod y sesiwn ar 7 Gorffennaf.

Dros doriad yr haf ac i mewn i dymor yr hydref, gofynnwn am ddiweddariadau rheolaidd ar unrhyw ddatblygiadau yn ymateb Llywodraeth Cymru i'r argyfwng iechyd cyhoeddus fel y maent yn ymwneud â phlant a phobl ifanc. Fel Pwyllgor, rydym wedi ymrwymo i gadw llygad barcud ar gynnydd a phenderfyniadau yn y maes hwn. Lle bo angen—ac ochr yn ochr â'n craffu parhaus ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)—byddwn yn ceisio tystiolaeth bellach gan y cyhoedd, rhanddeiliaid, cyrff cyhoeddus a Llywodraeth Cymru ynghylch effaith barhaus COVID-19 ar ein plant a'n pobl ifanc.

Cofion cynnes,



**Lynne Neagle AS**  
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.



**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 SeneddPPIA@senedd.cymru

 0300 200 6565

**Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 SeneddCYPE@senedd.wales

 0300 200 6565

## ATODIAD A – Materion yn codi o'r sesiwn ar 7 Gorffennaf

### Dull hawliau plant

Credwn y dylai hawliau plant fod yn flaenllaw ym meddwl Llywodraeth Cymru wrth wneud penderfyniadau yn ystod pandemig COVID-19. Yn ddiweddar, ymrwymodd y Prif Weinidog i ystyried y ffordd orau o gyflwyno asesiadau o effeithiau posibl cadw neu lacio cyfyngiadau ar gydraddoldebau a hawliau plant a chyflawni dyletswyddau statudol eraill. Rydym yn bwriadu monitro hyn yn agos.

Dylai hawl plentyn i addysg a'i hawl i chwarae o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fod wrth wraidd yr holl benderfyniadau sy'n ymwneud ag ysgolion a darpariaeth addysg ehangach yn ystod yr argyfwng iechyd cyhoeddus hwn. Rydym yn cydnabod bod angen cydbwysu hyn ochr yn ochr ag ystyried anghenion iechyd y cyhoedd, capasiti'r sector addysg, ac iechyd, diogelwch a llesiant corfforol ac emosiynol plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Credwn, wrth ddatblygu ei hymateb i'r pandemig, y byddai mwy o dystiolaeth o'r ystyriaeth systematig o hawliau plant o fewn y Llywodraeth wedi bod yn fuddiol. **Ar gyfer penderfyniadau yn y dyfodol sy'n ymwneud â rheoli COVID-19—yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â darparu addysg statudol a gwasanaethau plant—gofynnwn am amlinelliad mwy cyhoeddus a thryloyw o'r ffordd y mae hawliau plant wedi cael eu hystyried a'u rhoi ar waith yn benodol ac yn drylwyr.**

### Ysgolion yng Nghymru

Yn dilyn ein sesiwn ar 7 Gorffennaf fe wnaethoch gyhoeddi eich bwriad, yn seiliedig ar gyngor gwyddonol ac yn amodol ar ostyngiad parhaus yng nghyfraddau'r haint yn y gymuned, i ganiatáu i bob plentyn ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi. Yn ystod ein dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Gorffennaf, croesawodd y Pwyllgor y penderfyniad hwn.

Ymhellach i'ch cyhoeddiad, byddem yn croesawu **manyllion pellach am y ffactorau yr ydych chi'n rhagweld y byddwch yn eu hystyried os bydd yn rhaid ichi benderfynu a ddylai ysgolion leihau gweithrediadau neu gau eto yn y dyfodol, oherwydd unrhyw gynnydd ym mhresenoldeb y firws yn y gymuned. Byddem yn arbennig o ddiolchgar pe gallech wneud y canlynol:**

- cadarnhau a fyddai'r **pum egwyddor** y gwnaethoch eu gosod allan ym mis Ebrill, a'r **fframwaith penderfyniad** a gyhoeddwyd gennych ym mis Mai, yn dal i fod yn berthnasol;
- amlinellu sut mae'r dogfennau hyn wedi newid, os o gwbl, yng ngoleuni **dysgu am y firws** hyd yma (e.e. i ba raddau mae'r casgliad nad oes llawer o drosglwyddo'r firws gan blant<sup>1</sup> yn cael ei adlewyrchu?)
- darparu manyllion am y **cynlluniau wrth gefn** rydych yn eu rhoi ar waith pe bai sefyllfa COVID-19 yn dirywio a bod angen i ysgolion leihau gweithrediadau neu gau eto. Os oes

---

<sup>1</sup> Adroddiad y Grŵp Cyngori Technegol, para 3-5



angen parhaus am ddysgu cyfunol, pa wersi a ddysgwyd o'r pedwar mis diwethaf a sut y byddwch yn sicrhau y bydd dysgu cyfunol yn cael ei gyflwyno'n effeithiol ac yn gyson, gan fynd i'r afael â'r effeithiau anghyfartal ar wahanol ddysgwyr rydym wedi tynnu sylw atynt mewn gohebiaeth flaenorol?

### **Mewn perthynas â'r cwricwlwm, byddem hefyd yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau:**

- a fydd y datgymhwysiad dros dro o ofynion y cwricwlwm yn cael ei godi wrth i ysgolion ailddechrau ym mis Medi; ac
- os nad yw'r datgymhwysiad yn cael ei godi ym mis Medi, beth yw'r rhesymeg dros ei gadw a pha mor hir rydych yn rhagweld y bydd yn angenrheidiol.

### **Addysg heblaw yn yr ysgol**

Yn ystod ein sesiwn ar 7 Gorffennaf gwnaethom ofyn beth sy'n cael ei wneud i sicrhau bod disgyblion sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol yn deall beth sy'n digwydd nawr a sut y bydd eu hanghenion yn cael eu diwallu, a sut mae hyn yn cael ei gyfleu i blant a'u rhieni. Fe wnaethoch ymateb drwy ddweud:

---

"[...] we will have to have an equitable return to schools in September, regardless of the setting in which education is delivered, including our mainstream schools, our special schools, and those students that receive education in education other than at school. And we will look to be able to provide specific guidance to those providers, and to communicate that with both parents and children."<sup>2</sup>

---

### **Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r canlynol:**

- sicrwydd y bydd buddiannau disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn cael eu hystyried yn llawn yn y ffordd y mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn gweithredu penderfyniadau ynghylch mis Medi;
- manylion pellach am pryd y bydd y canllawiau penodol y cyfeiriasoch atynt yn ein sesiwn ar 7 Gorffennaf ar gael a sut y byddant yn mynd i'r afael â buddiannau disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol.

### **Profi, Olrhain, Amddiffyn**

Rydych chi a'r Pwyllgor wedi pwysleisio pwysigrwydd y strategaeth Profi, Olrhain, Amddiffyn i ailddechrau gweithgarwch ysgolion.

### **Byddem yn croesawu manylion pellach am:**

---

<sup>2</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 45], 7 Gorffennaf 2020



- y trafodaethau rydych yn eu cael gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch rôl hanfodol y strategaeth Profi, Orlhain, Amddiffyn;
- unrhyw sicrwydd a gawsoch gan y Gweinidog a'i swyddogion y bydd y nod<sup>3</sup> o olrhain tua 80% o gysylltiadau, y bydd o leiaf 35% ohonynt yn cael eu holrhain o fewn 24 awr, yn cael ei gyrraedd o fewn amgylchedd ysgol.

### Addysg uwch ac addysg bellach

Yn ystod ein sesiwn ar 7 Gorffennaf a'n dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Gorffennaf, gwnaethom dynnu sylw at y pryderon a godwyd gyda ni gan y sectorau addysg uwch ac addysg bellach ynghylch effaith COVID-19 ar eu gwaith a'u myfyrwyr.

Ar **22 Gorffennaf** gwnaethoch gyhoeddi dros £50 miliwn o arian ychwanegol ar gyfer prifysgolion a cholegau, gyda £27 miliwn yn cael ei ddarparu i sefydliadau addysg uwch, a £23 miliwn i gefnogi myfyrwyr mewn colegau addysg bellach a chweched dosbarth.

### Rydym yn croesawu'r cyhoeddiad hwn, a byddem yn ddiolchgar o dderbyn rhagor o wybodaeth am y canlynol:

- i ba raddau y mae'r arian a roddir i AU ac AB yn y drefn honno fel rhan o'r cyhoeddiad hwn yn bodloni'n llawn (neu fel arall) y ceisiadau a wnaethoch o fewn Llywodraeth Cymru am arian ychwanegol ar gyfer y sectorau;
- yr ystyriaeth rydych wedi'i rhoi i fater caledi myfyrwyr, yn enwedig yn ystod gwyliau'r haf hwn, a syniad inni pam nad yw'n ymddangos bod unrhyw arian wedi'i glustnodi neu ei neilltuo at y diben hwn;
- y mesurau rydych yn disgwyl gweld y £15 miliwn<sup>4</sup> sydd wedi'i ddyrannu i golegau addysg bellach a'r chweched dosbarth yn cael ei wario arnynt;
- y meini prawf y byddai angen eu bodloni i sbarduno cymorth ariannol pellach posibl yn yr hydref<sup>5</sup>; a

<sup>3</sup> Grŵp Cyngori Technegol, [Cyngor y Grŵp Cyngori Technegol ar ddyrchwelyd i'r ysgol – Cynigiwyd gan yr is-grŵp plant ac ysgolion](#), 7 Gorffennaf 2020, tudalen 2.

<sup>4</sup> Mae [datganiad](#) y Gweinidog ar 22 Gorffennaf yn amlinellu, o'r £23 miliwn a ddyrannwyd i addysg bellach, y bydd "15 miliwn yn cael ei ddarparu i ddysgwyr sy'n dechrau ar gwrs Safon Uwch neu alwedigaethol mewn coleg AB neu chweched dosbarth, i wneud iawn am eu hamser o'u lleoliad addysg yn gynharach eleni ac i helpu gyda'u pontio i ddysgu ôl-16. Bydd y cyllid yn cael ei ddarparu i ddysgwyr llawn amser sydd rhwng 16 ac 19 oed, ac mae'n cynrychioli cynnydd o 5 y cant i'r cyllid ar gyfer pob myfyrwr".

<sup>5</sup> Mae [datganiad](#) y Gweinidog ar 22 Gorffennaf yn amlinellu "Byddwn [Llywodraeth Cymru] yn ystyried y sefyllfa eto yn yr hydref, er mwyn parhau â'n cefnogaeth i'r adferiad economaidd a chymdeithasol yn dilyn COVID-19".





- p'un a oes gennych unrhyw geisiadau ariannu pellach (AU/AB neu fel arall) wedi'u cyflwyno i broses ariannu COVID-19 Llywodraeth Cymru, a/neu a ydych yn disgwyl gwneud mwy.



## ATODIAD B - Cwestiynau heb eu gofyn o'r sesiwn ar 7 Gorffennaf, ar gyfer ymateb ysgrifenedig

### Cwestiynau a gyflwynwyd yn uniongyrchol gan blant a phobl ifanc

- A fyddai'r Gweinidog yn gallu sicrhau y bydd cefnogaeth ar gael y tu hwnt i'r gefnogaeth gyfredol sydd wedi'i thargedu'n benodol at bobl ifanc duon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn dilyn diwrnod canlyniadau TGAU a Safon Uwch i leihau'r risg y byddant yn dod yn NEET (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) ac osgoi eu gweld yn mynd ar ei hôl hi ymhellach?
- A allwch ddweud wrthym pa gymorth sydd ar gael i reoli fy iechyd meddwl ac nid dim ond ystadegau ar nifer y marwolaethau?

### Cefnogaeth i blant sy'n agored i niwed a disgyblion eraill sy'n grwpiau blaenoriaeth

- A allech grynhoi sut mae addysgu a dysgu ar gyfer plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn parhau o dan y model 'dysgu cyfunol' cyfredol? I ba raddau y mae risg real iawn y gallai'r disgyblion hyn gael eu heffeithio'n arbennig o niweidiol a beth yw sefyllfa gymharol ysgolion arbennig?

### Dyfarnu cymwysterau

- A ydych yn gwbl hyderus na fydd y model safoni sy'n cael ei ddatblygu gan Gymwysterau Cymru a CBAC yn rhoi grwpiau penodol o ddysgwyr dan anfantais, er enghraifft y rhai mewn ysgolion â chyfraddau cyrhaeddiad is blaenorol, oherwydd defnydd y model o ganlyniadau blaenorol canolfannau?
- A yw'n foddhaol na fydd ymgeiswyr yn gallu apelio yn erbyn y graddau a gyflwynwyd gan eu hysgol neu goleg ac na fyddant chwaith yn gallu apelio eu hunain yn erbyn y ffordd y mae CBAC yn defnyddio'r data hwn? A allai hyn amharu ar eu hawliau dynol o ystyried na chawsant gyfle i arddangos eu gallu o dan amodau arholiad llawn, yn wahanol i garfannau blaenorol?

### Addysg a hyfforddiant ôl-16

- Ai'r penderfyniad i ohirio'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil fu'r golled fwyaf sylweddol i raglen eich adran o ganlyniad i'r angen i ymateb i'r pandemig? I ba raddau y cafodd y penderfyniad hwn ei yrru gan wrthwynebiadau o fewn y sector yn hytrach na Llywodraeth Cymru?
- A ydych chi wedi ystyried gostwng yr uchafswm ffi y gall prifysgolion ei godi, neu a ydych wedi ystyried opsiynau eraill ar gyfer sut i ddigolledu myfyrwyr neu addasu'r costau iddynt i adlewyrchu'r tebygolrwydd o gael profiad dysgu ac addysgu gwahanol iawn yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf?



- A oes unrhyw opsiynau eraill y dylai Prifysgolion Cymru fod yn eu hystyried yn hyn o beth?
- I ba raddau ydych chi'n fodlon bod darparwyr yn bodloni canllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, a gofynion cyfraith defnyddwyr?
- Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael gyda Gweinidogion cyfatebol yn y DU ynghylch rheoli rhifau myfyrwyr sy'n hanu o Loegr? Beth yw effaith hyn yng Nghymru yn ôl eich asesiad?
- Pa mor fodlon ydych chi fod y sector AB yn ymateb i anghenion myfyrwyr sy'n agored i niwed ac anodd eu cyrraedd? Sut ydych yn ymateb i bryderon rhai rhanddeiliaid nad yw myfyrwyr AB wedi derbyn yr un gefnogaeth ag ysgolion a'u disgyblion yn hyn o beth?
- A ydych yn fodlon â'r trefniadau sydd ar waith i ddyfarnu cymwysterau galwedigaethol ôl-16? A fu diffyg brys i ddatrys y materion hynny o gymharu â'r cyhoeddiadau am gymwysterau academiaidd?



CYPE(5)-20-20 - Papur i'w nodi 13

Kirsty Williams AS/MS  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/KW/2542/20  
Lynne Neagle AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Senedd Cymru

24 Awst 2020

Annwyl Lynne,

Diolch am eich gohebiaeth ddyddiedig 3 Awst yn gofyn am ragor o wybodaeth ar faterion o fewn fy mhortffolio yn dilyn fy ymddangosiad gerbron eich Pwyllgor fis diwethaf. Yn sgil yr amrywiaeth o faterion a restrwyd, rwyf wedi ymateb dan y penawdau canlynol er hwylustod i chi.

## Hawliau plant

Rydym wedi ymgymryd â nifer o weithgareddau i sicrhau bod Hawliau Plant a Phobl Ifanc, fel y nodwyd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), yn parhau i fod wrth galon holl benderfyniadau Llywodraeth Cymru a thrwy gydol yr argyfwng Covid-19 hwn.

Rydym wedi bod yn ymwybodol o anawsterau wrth ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ynghylch penderfyniadau sydd wedi effeithio arnynt drwy gydol y pandemig. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, ni oedd y Llywodraeth gyntaf yn y DU i ofyn i blant a phobl ifanc am eu profiadau yn ystod pandemig Covid-19. Mae plant a phobl ifanc wedi rhoi eu barn i ni am amrywiol faterion gan gynnwys:

- eu hiechyd a'u lles meddyliol
- eu haddysg a'u dysgu
- effaith y cyfnod clo ar agweddau cymdeithasol eu bywydau; chwarae yn ystod y cyfnod clo a manteision y cyfnod clo.

Ymatebodd 23,700 o blant a phobl ifanc i'r arolwg '[Coronafeirws a fi](#)', a gafodd ei gyflawni ar ein rhan gan Gomisiynydd Plant Cymru mewn partneriaeth â Plant yng Nghymru a'r Senedd leuenctid. Bu plant a phobl ifanc hefyd yn rhan o'r broses o gyd-gynhyrchu'r arolwg.

Mae'r arolwg eisoes wedi darparu cyfoeth o ddata am yr hyn sy'n bwysig i blant a phobl ifanc, ac mae'n parhau i fod yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth i dimau polisi penodol o fewn Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio canlyniadau'r arolwg i

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

sicrhau bod hawliau a barn plant yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau. Roedd pob cwestiwn yn yr arolwg yn gysylltiedig ag Erthyglau penodol yn y CCUHP. Cyhoeddwyd y canfyddiadau cychwynnol ar 8 Mehefin 2020. Bydd swyddfa'r Comisiynydd Plant yn darparu rhagor o sesiynau briffio ar themâu penodol ym mis Medi.

Rydym wedi ystyried yn ofalus sut rydym yn cyfathrebu'n uniongyrchol yn ystod y pandemig. Rwyf wedi parhau i drafod gyda phlant a phobl ifanc drwy gynnal sesiynau holi ac ateb #HoliKirsty ar y cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â chynnal cynhadledd i'r wasg benodol ar 24 Mehefin. Mae'r Prif Weinidog hefyd wedi bod yn trafod gyda'r Senedd leuencid yn ogystal â negeseuon rheolaidd gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn ystod y pandemig rydym wedi rhoi mwy o gyfle i Gomisiynydd Plant Cymru siarad â Gweinidogion a swyddogion. Mae'r Comisiynydd wedi bod yn cyfarfod â'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn wythnosol ac wedi cyfarfod yn rheolaidd gydag uwch swyddogion ar draws Llywodraeth Cymru.

Mae Comisiynydd Plant Cymru hefyd wedi cynnig cymorth ei thîm i roi cyngor ar Asesiadau Effaith Integredig ac Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant. Rhannwyd y cynnig hwn o gymorth ar draws y sefydliad, ac mae ei swyddfa wedi helpu gyda nifer o Asesiadau Effaith Integredig ac Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant drwy gydol y pandemig.

## Ysgolion Cymru

Fel rhan o'n Canllawiau Gweithredol ar gyfer ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref ymlaen, amlinellwyd y ffactorau sydd wedi newid ers dechrau'r cyfnod clo a'r angen cynyddol i sicrhau bod modd i blant a phobl ifanc gael mynediad at addysg. Rydym yn gwybod bod cyffredinrwydd Covid-19 yn is, mae ein system Profi, Orlhain, Diogelu ar waith, ac rydym wedi dweud yn glir pa fesurau sydd angen eu gosod yn eu lle i greu amgylchedd ddiogel mewn ysgolion. Rydym hefyd yn gwybod bod y risg i blant fynd yn ddifrifol wael yn sgil COVID-19 yn isel iawn. Ar 9 Gorffennaf, cyhoeddais y byddai pob dysgwr yn dychwelyd i'r ysgol yn nhymor yr hydref; roedd y penderfyniad hwn yn ystyried gwaith Grŵp Cyngori Technegol Cymru a oedd yn argymhell y dylai ysgolion "gynllunio i agor ym mis Medi gyda 100% o'r disgyblion yn gorfforol bresennol ar safleoedd ysgolion, cyn belled â bod lefelau COVID-19 yn parhau i ostwng yn gyson yn y gymuned."

Mae Adran 8 o'n Canllawiau Gweithredol yn rhoi cyngor ar reoli achosion wedi'u cadarnhau o COVID-19 ymysg cymuned yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys dolen at Nodyn Cyngor Gweithredol ar Iechyd y Cyhoedd a baratowyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer Llywodraeth Cymru ynghylch ymchwilio a rheoli clystyrau ac achosion o COVID-19 mewn lleoliadau addysg a gofal plant. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i adolygu'r cyngor hwn; cafodd ei ddiweddarau ddiwethaf ar 30 Gorffennaf, a disgwylir ei adolygu nesaf ar 26 Awst. Rydym hefyd wedi dweud yn glir yn ein Canllawiau Gweithredol y bydd angen i bob ysgol gynllunio ar gyfer y posibilrwydd o gyfyngiadau ar symudiadau yn lleol, a sut y byddant yn sicrhau bod addysg yn parhau o fewn fframwaith ehangach o gyfyngiadau lleol.

Wrth i ni symud ymlaen at fis Medi, byddwn yn datgan yn glir ein bod yn disgwyl i ysgolion wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau parhad dysgu os bydd unrhyw darfu yn y dyfodol. Bydd disgwyl iddynt osod yn eu cynlluniau beth yw hawliau dysgwyr o ran oriau cyswllt a chymorth, nodi pa mor aml y bydd sesiynau dysgu ac addysgu yn cael eu cynnal, ac am ba hyd, a dweud faint o amser y disgwylir i ddisgyblion ei dreulio yn astudio'n annibynnol. Wrth ochr hyn, bydd disgwyl iddynt amlinellu'r cwricwlwm fydd ar gael i ddysgwyr sy'n cymryd rhan yn y rhaglen *Recrwtio, Adfer a Chodi Safonau* a'r cwricwlwm cyffredinol sydd ar gael i'r holl ddysgwyr os bydd amharu ar weithrediad arferol.

Ym mis Mai, fe gofiwch i ni gyhoeddi Fframwaith Penderfyniadau er mwyn helpu i gynyddu gweithrediadau ysgolion a lleoliadau gofal plant. Roedd y fframwaith hwnnw yn gosod ein profion a'r materion yr ydym yn eu hystyried. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ddatblygu rhywbeth tebyg ar gyfer yr hyn fydd yn digwydd os bydd angen cyfyngu ar weithrediadau; eto bydd hyn yn dweud yn glir bod rhaid i ysgolion a lleoliadau gael cynlluniau eu hunain yn eu lle i'w galluogi i ymateb os bydd achosion yn codi neu gyfyngiadau ar symud (boed hynny'n lleol neu'n genedlaethol). Bydd y Fframwaith hefyd yn dweud yn glir ei bod yn bwysig cadw ysgolion a lleoliadau ar agor, ac fe fydd yn cydnabod na fydd un dull gweithredu unigol yn addas i bawb. Gan ystyried y cyngor meddygol a gwyddonol, a chydbwyso hyn gyda'r angen i ystyried y niwed i'n plant a'n pobl ifanc o beidio â bod yn yr ysgol, rwy'n credu'n gryf y dylai unrhyw gyfyngiadau symud ar leoliadau addysg gael eu hystyried fel y cam olaf un.

Bydd y gwaith hwn yn adeiladu ar Gynllun Rheoli'r Coronafeirws Cymru a gyhoeddwyd ar 18 Awst, sy'n nodi'r systemau presennol sydd wedi'u llunio i atal lledaeniad y feirws, yn ogystal â'r systemau newydd rydym wedi'u gosod i ymateb yn sydyn i achosion newydd ar lefel leol.

### **Cwricwlwm**

Ym mis Gorffennaf cyhoeddais [ganllawiau](#) ar ddysgu mewn ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref i roi cyfres gyffredin o flaenoriaethau ar gyfer dysgu i ysgolion a phartneriaid, waeth beth fo lefel y gweithrediadau mewn ymateb i COVID-19. Roedd y canllawiau hyn yn amlinellu cynlluniau i gyhoeddi penderfyniad terfynol cyn diwedd cyfnod Toriad yr Haf, ac felly caiff canllawiau atodol eu rhoi i ysgolion a lleoliadau cyn dechrau tymor yr hydref er mwyn rhoi mwy o eglurder ynghylch pa ystyriaethau sy'n angenrheidiol a pha gamau y dylid eu cymryd.

### **Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS)**

Mae EOTAS yn rhan integredig o'r continwmm o ddarpariaeth addysg a gynigir yng Nghymru. Rwyf wedi ymrwmo o hyd i greu system addysg wirioneddol gynhwysol yng Nghymru ac i sicrhau bod pob dysgwr yn cael cymorth i gael addysg ragorol. Rwy'n falch ein bod yn gallu cynnig darpariaeth addysgol amgen y gellir ei theilwra i ddiwallu anghenion ein dysgwyr, i feithrin ac annog hunanhyder ac i sicrhau bod y dysgwyr hyn yn cael pob cyfle i gyflawni eu potensial.

Rwy'n cydnabod yr anawsterau sylweddol sy'n wynebu awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau wrth ddarparu gwasanaethau a chyflawni eu dyletswyddau statudol ar gyfer dysgwyr EOTAS yn ystod y cyfnod clo.

Mae natur y ddarpariaeth EOTAS yn amrywiol ac mae'n cynnwys addysg academaidd a galwedigaethol. I'r dysgwyr EOTAS hynny sy'n ymwneud ag addysg alwedigaethol, mae'n bosibl bod parhad dysgu yn ystod y cyfnod clo wedi bod yn gyfyngedig. O ganlyniad, mae'n debygol bod mwy o amharu sylweddol wedi bod ar addysg rhai dysgwyr EOTAS na'u cyfoedion.

Ym mis Medi, pan fydd lleoliadau'n dychwelyd i weithredu'n llawn, rwy'n disgwyl i awdurdodau lleol weithio gyda darparwyr i roi blaenoriaeth i sicrhau bod cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith i bob dysgwr EOTAS ailddechrau eu haddysg.

Ar 17 Awst, cyhoeddwyd [Canllawiau ar gyfer cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed a dan anfantais](#). Mae'r canllawiau hyn yn ategu'r Canllawiau Gweithredol ar gyfer Ysgolion a Lleoliadau o Dymor yr Hydref a'r Canllawiau ar Ddysgu mewn Ysgolion a Lleoliadau o Dymor yr Hydref

ac yn rhoi cyngor penodol i ddysgwyr agored i niwed a dysgwyr difreintiedig, gan gynnwys dysgwyr EOTAS.

Mae'r canllawiau'n ymdrin ag amrywiaeth o sefyllfaoedd ac yn nodi disgwyliadau ar gyfer awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau. Yn ogystal â disgwyliadau ynghylch cynllunio ar gyfer ailgydio dysgwyr sy'n agored i niwed a dysgwyr difreintiedig yn eu haddysg o fis Medi ymlaen, mae'r canllawiau'n dweud yn glir y dylid gwneud cynlluniau wrth gefn i baratoi ar gyfer tarfu pellach posibl ar addysg pe bai ton arall o'r feirws yn y dyfodol. Bydd hyn yn arbennig o bwysig i ddysgwyr EOTAS sy'n ymwneud â dysgu galwedigaethol, nad oes modd ei addasu yn hawdd o bosib i fodolau dysgu o bell neu fodolau dysgu cyfunol.

Mae'r canllawiau'n dweud yn glir y dylai cynlluniau a chymorth fod yn seiliedig ar anghenion dysgwyr unigol, gan ystyried yr effaith y mae cau ysgolion a lleoliadau wedi'i chael ar les dysgwyr a dysgu ehangach dysgwyr. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am bryder, materion iechyd meddwl ac ymddygiad heriol, a all fod yn arbennig o berthnasol yng nghydestun cefnogi dysgwyr EOTAS i ail-integreiddio ac ailgydio yn eu dysgu.

### **Profi, Orlhain, Diogelu**

Drwy gydol y pandemig rwyf wedi cael trafodaethau rheolaidd gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am amrywiaeth o faterion sy'n gysylltiedig â gweithrediad ysgolion a'r mesurau y mae angen eu rhoi ar waith i leihau'r risg o drosglwyddo. Mae hyn wedi cynnwys yr angen am system Profi, Orlhain, Diogelu effeithiol i helpu ysgolion i ddychwelyd mor ddiogel â phosibl. Rydym yn hyderus bod y system Profi, Orlhain, Diogelu yn gweithio ar lefel effeithiol. Mae ein swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau i chwarae rhan hollbwysig yn ein system o reolaethau er mwyn helpu i atal trosglwyddo yn y gymuned ehangach ac o fewn ysgolion.

Cyhoeddir data ar berfformiad olrhain cysylltiadau bob wythnos. Mae'r data diweddaraf yn dangos, rhwng 9 Awst a 15 Awst, o blith yr 100 achos positif a oedd yn gymwys i'w holrhain, cysylltwyd â 93 (93%) a gofynnwyd iddynt roi manylion am eu cysylltiadau diweddar. O blith y 292 o gysylltiadau agos a oedd yn gymwys i'w holrhain, llwyddwyd i gysylltu â 258 (88%) a'u cynghori'n briodol neu ddatrys eu hachos fel arall. Ers 21 Mehefin, o blith y 1,101 o achosion positif a oedd yn gymwys i'w holrhain, llwyddwyd i gael gysylltu â 993 (90%) a gofynnwyd iddynt roi manylion am eu cysylltiadau diweddar. O blith y 3,176 o gysylltiadau agos a oedd yn gymwys i'w holrhain, llwyddwyd i gysylltu â 2,868 (90%) a'u cynghori'n briodol neu ddatrys eu hachos fel arall.

Cyn bo hir, byddwn yn darparu gwybodaeth fanylach am yr amser a gymerir i olrhain cysylltiadau. Gellir gweld data ar berfformiad olrhain cysylltiadau yma <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-8-awst-2020>

Ym mis Gorffennaf cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ganllawiau i Fyrddau Iechyd Lleol a Chyfarwyddwyr Addysg ar sut y dylid ymdrin ag achosion positif o Covid-19 mewn perthynas ag ysgolion, gan gynnwys drwy ddefnyddio profion cyflym yn ôl yr angen i sicrhau ymateb cyflym ac effeithiol i fynd i'r afael ag unrhyw glystyrau neu ddigwyddiadau posibl. Ceir copïau o'r canllawiau hyn yn **Atodiad 1 a 2**.

## Addysg Uwch

Rwy'n cydnabod bod unrhyw amcanestyniadau am sefyllfa ariannol prifysgolion yn y flwyddyn academaidd nesaf wedi bod yn destun ansicrwydd enfawr hyd yma. Mae'r cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd ar gyfer addysg uwch yn adlewyrchu barn gweinidogion gan ystyried cyfyngiadau cyllidebol Llywodraeth Cymru ac anghenion uniongyrchol y sector cyn i'r cylch recriwtio myfyrwyr ddod i ben. Fel yr ydym wedi dweud o'r blaen, byddwn yn ystyried y sefyllfa a'r anghenion eto yn yr hydref, er mwyn parhau â'n cefnogaeth i'r adferiad economaidd a chymdeithasol yn dilyn COVID-19.

Er mwyn helpu gyda mater caledi myfyrwyr, bydd CCAUC yn ymgynghori â'r sector i benderfynu sut i ddyrannu'r cyllid ychwanegol ar draws sefydliadau addysg uwch, gan ystyried y cymorth y mae sefydliadau unigol eisoes yn ei ddarparu. Bydd hyn yn sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddsbarthu lle mae ei angen fwyaf.

Mae gan bob prifysgol yng Nghymru gronfeydd caledi ar waith ar gyfer myfyrwyr sydd mewn trafferthion ariannol a bydd gwybodaeth am gymorth i fyfyrwyr, gan gynnwys myfyrwyr rhan-amser, myfyrwyr rhyngwladol, gofalwyr, myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio wrth eu teuluoedd, myfyrwyr sydd wedi bod mewn gofal ac ati, yn cael ei ddarparu ar eu gwefannau a'u hyrwyddo drwy amrywiaeth o sianelau. Sefydlir cronfeydd caledi ar gyfer myfyrwyr israddedig a TAR llawn amser gan ddefnyddio incwm ffioedd dysgu.

Bob blwyddyn, mae pob prifysgol yn rhagweld mewn Cynlluniau Ffioedd a Mynediad faint o'r incwm ffioedd dysgu y byddant yn ei fuddsoddi mewn cronfeydd caledi. Dim ond un elfen yw cronfeydd caledi o'r cymorth ariannol, gan gynnwys gwybodaeth a chynghor ariannol, y mae sefydliadau'n ei ddarparu i fyfyrwyr. Mae prifysgolion yn cyhoeddi cyfanswm eu buddsoddiad mewn cymorth i fyfyrwyr yn y cynllun Ffioedd a Mynediad. Mae cynlluniau Ffioedd a Mynediad yn ymwneud ag incwm ffioedd llawn amser a myfyrwyr llawn-amser yn unig. Gall sefydliadau a reoleiddir hefyd weinyddu cymorth ychwanegol i fyfyrwyr drwy ddulliau eraill.

O ran ystyried cymorth ariannol pellach yn yr hydref, byddwn yn edrych ar anghenion y sector addysg uwch ochr yn ochr â'r pwysau o gyfeiriadau niferus ar gyllideb Llywodraeth Cymru. Byddwn yn gweithredu'n hyblyg yn hytrach na gosod meini prawf cadarn gyfer ystyried cyllid pellach, a byddwn yn gwneud hynny ar ôl cydweithio'n agos â CCAUC ac arweinwyr y sector i ddeall y sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r sector wrth iddo ddatblygu.

Er mwyn cynorthwyo sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yn ystod y pandemig, yn ogystal â'r Gronfa Fuddsoddi ac Adfer gwerth £27m, ddarparwyd £4.5m arall i CCAUC i gefnogi cyflogadwyedd a datblygu sgiliau: £3m i gefnogi'r gwaith o ddarparu Prentisiaethau Gradd yng Nghymru ac £1.5m i ddarparu cymorth ychwanegol i Go Wales, sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr sydd wedi graddio yn ystod y pandemig.



## Addysg Bellach

Yn ddiweddar, cyhoeddais nifer o fesurau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod dysgwyr ôl-16 yn cael y parhad dysgu gorau posibl yn dilyn y tarfu a achoswyd gan y pandemig Covid-19. Mae'r arian ychwanegol hwn ar gael i sicrhau yr eir i'r afael â'r pwysau uniongyrchol a wynebir gan sefydliadau addysg bellach ac mae'n cynnwys:

- Dros £15 miliwn o 'gyllid dal i fyny' yn cael ei ddarparu ar gyfer dysgwyr sy'n dechrau neu'n parhau â'u cwrs Safon Uwch neu alwedigaethol mewn coleg Addysg Bellach neu chweched dosbarth.
- Hyd at £5m i gefnogi dysgwyr galwedigaethol i ddychwelyd i'r coleg i'w helpu i ennill eu cymwysterau trwydded i ymarfer, heb orfod ail-eistedd y flwyddyn gyfan.
- 3.2m yn ychwanegol i ddarparu offer digidol fel gliniaduron ar gyfer dysgwyr Ôl-16. Mae o leiaf £2.15 miliwn o'r cyllid hwn wedi'i glustnodi ar gyfer Addysg Bellach.
- £466k ychwanegol i gefnogi myfyrwyr sydd wedi bod yn ymgymryd â rhaglenni Sgiliau Byw'n Annibynnol, i'w galluogi i gwblhau eu cyfnod pontio o'r coleg i gyflogaeth ac annibyniaeth.
- £480k ychwanegol i ganiatáu £40k ychwanegol fesul coleg, rhwng mis Medi 2020 a mis Mawrth 2021, i ehangu capasiti'r ganolfan gyflogaeth.
- £3.5m yn ychwanegol ar gyfer darpariaeth y Cyfrif Dysgu Personol
- Cyllid ychwanegol o hyd at £1.7m i gynnig dewisiadau amgen i Brydau Ysgol am Ddim i ddysgwyr Addysg Bellach.
- £3.5m yn ychwanegol i gyfrannu at gostau uwch glanhau.

Mae fy swyddogion yn ymwybodol o gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag ad-drefnu campysau ar ôl mabwysiadu canllawiau Llywodraeth Cymru, y nifer uwch na'r arfer o fyfyrwyr a gafodd eu recriwtio ar gyfer mis Medi, yn ogystal â chostau sy'n gysylltiedig â dysgu digidol a dysgu cyfunol. Unwaith y bydd y manylion yn hysbys, bydd cais pellach am gyllid yn dilyn. Bydd y ceisiadau hyn yn y lle cyntaf ar gyfer cost ail-ffurfweddu campysau ac yna cais diweddarach am gostau hysbys eraill.

## Disgyblion BAME

Nod y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yw lleihau nifer y bobl ifanc 11 i 25 oed nad ydynt yn ymwneud ag addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Mae'r Fframwaith yn darparu trefn systematig i awdurdodau lleol nodi'r rhai y mae angen cymorth arnynt, sefydlu pa gymorth a allai fod ar gael ac olrhain cynnydd pobl ifanc wrth iddynt drosglwyddo o'r ysgol i addysg barhaus, hyfforddiant seiliedig ar waith neu gyflogaeth.

Mae'r Fframwaith wedi'i anelu at **bob** person ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio oddi wrth addysg, cyflogi hyfforddiant, nid yw wedi'i anelu at garfan benodol. Mae [Hynt Disgyblion o Ysgolion yng Nghymru 2019](#) Gyrfa Cymru, sy'n dangos cyrchfannau'r rhai sy'n gadael yr ysgol ar gyfer blynyddoedd 11, 12 a 13, yn dangos bod cyfran y bobl ifanc a oedd

yn NEET yn uwch ar gyfer y rhai o gefndiroedd gwyn o gymharu ag unigolion o gefndir lleiafrifoedd ethnig<sup>1</sup>.

Mae nodi pobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau rhag ymgysylltu yn caniatáu i'r cymorth priodol gael ei roi ar waith yn gynnar; adnabod cynnar yw un o elfennau allweddol y Fframwaith. Fel rhan o'r broses hon, mae cydgysylltwyr ymgysylltu a datblygu awdurdodau lleol yn cynnal cyfarfodydd amlasiantaethol ôl-16 mewn ysgolion i nodi'r disgyblion hynny sydd fwyaf tebygol o ymddieithrio. Felly bydd ganddynt syniad da pa bobl ifanc sydd angen cymorth cyn diwedd blwyddyn 11. Yna gall y cydgysylltwyr nodi anghenion cymorth penodol pobl ifanc, er mwyn trefnu cymorth priodol.

Bob blwyddyn mae rhai o'r rhai sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 11 â statws anhysbys h.y. nid ydynt yn hysbys i Gyrfa Cymru felly nid yw'n hysbys a oes ganddynt gynlluniau ar gyfer addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, neu os ydynt mewn perygl o fod yn NEET. Mae Gyrfa Cymru yn trosglwyddo manylion y bobl ifanc 'anhysbys' i'r cydgysylltwyr ym mis Gorffennaf. Yna, mae'r cydgysylltwyr, gan weithio gyda'r gwasanaeth ieuencid, yn ceisio cysylltu â'r bobl hynny i gael gwybod am eu cynlluniau. Gall hyn olygu cynnal ymweliadau cartref i siarad â phobl ifanc.

Ar ôl cysylltu â'r bobl ifanc 'anhysbys' a chadarnhau eu statws (p'un a ydynt mewn Addysg Bellach, Cyflogaeth neu Hyfforddiant neu'n NEET) gellir eu dyrannu yn erbyn model pum haen Gyrfa Cymru, sy'n nodi pa gymorth unigol sydd ei angen arnynt i sicrhau cyrchfan gadarnhaol.

I'r rhai sydd fwyaf tebygol o ymddieithrio, penodir gweithwyr arweiniol i sicrhau nad yw pobl ifanc yn cael eu gwthio yn ôl ac ymlaen rhwng gwasanaethau neu'n cael eu colli yn y system, gan eu helpu i nodi a goresgyn unrhyw rwystrau rhag symud ymlaen sy'n cael eu nodi. Bydd gan weithwyr arweiniol berthynas uniongyrchol â'r person ifanc, gan fod yn bwynt cyswllt a chymorth cyson wrth iddynt symud ymlaen a'u helpu i adeiladu a datblygu'r gwydnwch hirdymor sydd ei angen arnynt i lwyddo mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. I bobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau sylweddol neu luosog ac sydd angen cymorth personol dwys, daw'r gweithiwr arweiniol o'r gwasanaeth ieuencid yn gyffredinol.

Mae'r [Strategaeth Gwaith Ieuencid](#) (2019) yn nodi dyheadau lefel uchel i sicrhau bod pob person ifanc ledled Cymru yn ffynnu a bod gwaith ieuencid yn hygyrch ac yn gynhwysol i bob person ifanc. Wrth wneud hynny, mae hefyd yn cydnabod bod yn rhaid inni ddileu'r rhwystrau rhag ymgysylltu a chyfranogi, yn enwedig i'r bobl ifanc hynny a allai fod â phrofiad o unigedd, ymyleiddio, ecsbloetio neu wahaniaethu gan gynnwys rhai â nodweddion gwarchoddedig. Mae'r Bwrdd Gwaith Ieuencid Dros Dro wedi ceisio barn pobl ifanc o bob rhan o Gymru ac o amrywiaeth eang o gefndiroedd, gan gynnwys y rhai â chefnidir BAME, drwy drafodaethau gyda [Thîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuencid Cymru \(EYST\)](#). At hynny, yn ddiweddar bu EYST yn [olygydd gwadd ar gyfer rhifyn o'r Bwletin Gwaith Ieuencid](#), a dynnodd sylw at bryderon penodol, gan gynnwys materion yn ymwneud â Black Lives Matter ar adeg pandemig byd-eang.

Rwy'n cydnabod bod y pandemig wedi cyflwyno heriau newydd o ran atal pobl ifanc rhag dod yn NEET. Er enghraifft, mae anawsterau ymarferol o ran cynnal ymweliadau cartref i

<sup>1</sup> Hynt Disgyblion o Ysgolion yng Nghymru 2019 – Pobl nad ydynt mewn Addysg, Hyfforddiant na Chyflogaeth

Blwyddyn ysgol	Cefndir gwyn	Cefndir lleiafrifoedd ethnig
11	1.8% neu 442 o unigolion	1.2% neu 24 o unigolion
12	0.8% neu 89 o unigolion	0.5% neu 6 unigolyn
13	2.6% neu 249 o unigolion	2% neu 17 o unigolion

gynnig cymorth i bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio, mae pryderon am effaith y cyfnod clo ar iechyd meddwl a chymhelliant pobl ifanc ac am effaith economaidd y pandemig, yn benodol ar gyfleoedd cyflogaeth pobl ifanc. Mae'r Llywodraeth wedi bod yn cysylltu'n helaeth â chydlynwyr ymgysylltu a datblygu awdurdodau lleol, sy'n cydlynu ac yn trefnu cymorth o dan y Fframwaith, i drafod pryderon a rhannu arferion da.

Rwyf hefyd yn bwriadu diweddarau'r Fframwaith i ganolbwyntio o'r newydd ar leihau nifer y bobl ifanc sy'n dod yn NEET. Bydd y gwaith o adnewyddu'r Fframwaith yn cael ei lywio gan ddatblygiadau sy'n deillio o'r ymateb i Covid 19. Mae'r datblygiadau hyn ar lefel polisi (y [Cynllun cadernid ar gyfer y Sector Ôl-16: coronafeirws](#), y cynnydd yng ngweithrediad ysgolion, datblygu'r cynllun cyflogadwyedd ac adfer sgiliau, y cynnig iechyd meddwl) ac ar lawr gwlad (newidiadau i arferion gwaith sy'n deillio o'r ymateb i'r pandemig).

### **Iechyd Meddwl Pobl Ifanc**

Roeddwn yn falch bod y Llywodraeth wedi gallu cyhoeddi [ymgyngoriad ar Sefydlu dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd a lles meddyliol](#) ar 8 Gorffennaf, a fydd yn cau ar 31 Medi 2020. Mae'r canllawiau hyn yn cefnogi ein hymateb COVID-19 drwy sicrhau bod ysgolion yn cydnabod ac yn ystyried pwysigrwydd nid yn unig lles dysgwyr, ond hefyd lles cymuned ehangach yr ysgol. Er mwyn rhoi cyfle i bobl ifanc helpu i lunio'r canllawiau, cyhoeddwyd fersiwn arbennig o'r ddogfen ymgynghori a'r cwestiynau i bobl ifanc.

Mae'r gwaith hwn yn rhan o'r dull ysgol gyfan o gefnogi lles emosiynol plant a phobl ifanc ac mae £5 miliwn wedi'i ddyrannu yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 i'w ddatblygu. Mae'n cynnwys £1.25 miliwn i awdurdodau lleol ymestyn a gwella gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion gan ganolbwyntio ar dargedu rhestrau aros cyfredol, cynyddu capasiti a datblygu ffyrdd newydd o weithio i ateb y galw COVID-19. Hefyd mae'n cynnwys £1.5 miliwn i helpu awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau i hyfforddi athrawon a staff ysgol eraill ynghylch eu lles eu hunain a lles dysgwyr; darparu ymyriadau cyffredinol wedi'u targedu i ddysgwyr a gweithredu ymyriadau sy'n briodol i oedran ar gyfer plant iau (islaw Blwyddyn 6) mewn ysgolion cynradd.

Wrth gwrs, mae'n hanfodol bod iechyd meddwl athrawon hefyd yn cael ei gefnogi yn ystod y cyfnod anodd hwn a dyna pam yr ydym wedi dyrannu £450,000 yn y flwyddyn bresennol i gefnogi eu lles, gan gydnabod mai dim ond mewn amgylchedd lle mae pawb yn cymryd rhan y gellir dysgu'n effeithiol. Bydd rhagor o fanylion am y pecyn ariannu hwn ar gael cyn bo hir.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau addysg uwch i ddatblygu amrywiaeth o adnoddau dysgu proffesiynol i athrawon er mwyn helpu i roi ein canllawiau dull ysgol gyfan ar waith - darparwyd £85,000 yn 2019-20 ar gyfer y gwaith hwn, sy'n cynnwys modiwlau hyfforddi ar ddatblygiad plant, iechyd meddwl a niwroamrywiaeth. Roeddent i fod i gael eu cwblhau'n gynharach eleni, ond mae oedi wedi bod o ganlyniad i COVID-19 ac rydym bellach yn anelu at eu cael ar gael o fis Medi/Hydref.

Yn nhymor yr hydref, bydd ysgolion a lleoliadau yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o gefnogi lles ein plant a'n pobl ifanc. Bydd angen amser, cymorth a dealltwriaeth ar ddysgwyr i ddatblygu ymddygiadau newydd; gall cyfleoedd priodol i chwarae, cymdeithasu a meithrin cydberthnasau gefnogi hyn. I gydnabod yr heriau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i ddatblygu ystod o adnoddau i gefnogi ysgolion a lleoliadau i roi lles dysgwyr a staff wrth wraidd popeth a wnânt wrth iddynt addysgu yng nghyd-destun effeithiau parhaus COVID-19. Mae'r adnoddau cyntaf yn y [gyfres](#) hon bellach wedi'u cyhoeddi:

- [Addysgu ymddygiad diogel o ran COVID-19: Strategaethau ar gyfer llunio trefniadau newydd](#)
- [Rôl y cynorthwydd addysgu: cefnogi lles dysgwyr mewn ymateb i COVID-19](#)

Bydd mwy ar gael dros y misoedd nesaf, pob un yn canolbwyntio ar wahanol agweddau ar feithrin dull ysgol gyfan cyfeillgar a chynhwysol o ymdrin ag iechyd meddwl a lles emosiynol yng nghyd-destun COVID-19.

Mae prosiectau peilot mewngymorth CAMHS, sy'n darparu gwasanaeth ymgynghori, cysylltu, cynghori a hyfforddiant i ysgolion gan staff CAMHS, wedi'u hystyngwys tan fis Gorffennaf 2021, gan gydnabod effaith hirdymor COVID-19 ar iechyd emosiynol a meddyliol, ac yn cyd-daro â gwerthusiad terfynol y cynlluniau peilot.

Ym mis Mehefin, cyhoeddwyd diweddariad o'r [Pecyn cymorth gweithredu cwnsela mewn ysgolion ac yn y gymuned](#) ynghyd â [Chwestiynau Cyffredin](#) sy'n cynnwys y cyngor diweddaraf i gwrselwyr ar ddarparu gwasanaethau cwnsela wyneb yn wyneb ac ar-lein yn ystod pandemig COVID-19. Mae'r rhain yn darparu adnodd gwerthfawr ar yr arferion gorau o ran darparu'r gwasanaeth a hyrwyddo cysondeb o ran darpariaeth a mynediad cyfartal i bobl ifanc.

Ar wefan Hwb, mae [Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl Pobl Ifanc](#) a gynhyrchais yn ddiweddar, sy'n cysylltu pobl ifanc 11 i 25 oed â gwefannau, apiau, llinellau cymorth a mwy i feithrin gwydnwch a'u cefnogi drwy bandemig y coronafeirws a thu hwnt.

## **Cymorth ADY**

Gydag ysgolion a lleoliadau'n dychwelyd i weithredu'n llawn o fis Medi ymlaen, rwy'n disgwyl y bydd y dysgu a'r cymorth ehangach i ddysgwyr ADY yn adlewyrchu'r trefniadau cyn y cyfnod clo. Mae'r Canllawiau ar gyfer cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed ac sydd o dan anfantais yn rhoi gwybodaeth, cyngor a disgwyliadau manwl ar gefnogi dysgwyr ag AAA yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf. Fel yr amlinellwyd uchod, mae'r canllawiau'n ymdrin ag amrywiaeth o sefyllfaoedd, o weithredu'n llawn i gyfyngiadau cenedlaethol neu leol ar symud.

Ar gyfer trefniadau cynllunio o fis Medi ymlaen, mae'r canllawiau'n cwmpasu ystod eang o faterion gweithredol a dysgu a fydd yn berthnasol i roi cymorth effeithiol i ddysgwyr ag AAA. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, ymgysylltu â rhieni/gofalwyr a dysgwyr, pontio, cadw pellter cymdeithasol, defnyddio cyfarpar diogelu personol a threfniadau sy'n ymwneud â staff peripatetig. Yn unol â'r [Canllawiau ar Ddysgu mewn Ysgolion a Lleoliadau o Dymor yr Hydref](#), mae'r canllawiau ar gyfer cefnogi dysgwyr agored i niwed a difreintiedig yn dweud yn glir bod lles yn rhagofyniad ar gyfer dysgu. Mae'n mynd ymlaen i gynnwys adran fanwl ar ystyriaethau penodol ar gyfer dysgwyr AAA.

Yn ogystal â darparu cyngor a disgwyliadau cynhwysfawr ar drefniadau o fis Medi ymlaen, mae'r canllawiau ar gyfer cefnogi dysgwyr agored i niwed ac o dan anfantais hefyd yn glir iawn ynghylch pwysigrwydd cynllunio wrth gefn ar gyfer cyfyngiadau cenedlaethol neu leol pellach ar symudiadau. Y bwriad yw sicrhau cyn lleied â phosib o darfu ar addysg dysgwyr agored i niwed ac o dan anfantais pe bai rhagor o achosion o gau ysgolion a lleoliadau mewn ymateb i'r pandemig. Mae'r canllawiau'n cynnwys adran ar sicrhau parhad dysgu ac mae'n tynnu sylw at amrywiaeth o lenyddiaeth ac adnoddau i helpu awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau i wneud hyn.

## **Cymwysterau**

Cyhoeddais ddatganiad ar 17 Awst i ddweud y byddai graddau Safon Uwch, UG, TGAU, Tystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru yn cael eu dyfarnu ar sail Asesiadau Canolfannau, felly ni ddefnyddiwyd y model safoni.

Gan weithio gyda Cymwysterau Cymru a CBAC, ceisiwyd cael dull a oedd yn deg ac yn tymheru unrhyw wahaniaethau yn y safonau a ddefnyddiwyd mewn dyfarniadau gan ysgolion. Ond yn sgil penderfyniadau mewn manau eraill, daeth yn decach dyfarnu graddau Asesiadau Canolfannau i fyfyrwyr, er gwaethaf cryfderau'r system yng Nghymru.

Gwnaed pob dyfarniad yng Nghymru ar sail asesiad athrawon. I'r bobl ifanc hynny y cynhyrchodd ein system raddau uwch ar eu cyfer na'r rhai a ragwelwyd gan athrawon, bydd y graddau uwch yn sefyll. Bydd y polisi a gyhoeddais ynghylch gosod gradd Safon UG fel isafswm hefyd yn sefyll ac ni fydd unrhyw ddysgwyr yn cael gradd Safon Uwch eleni sy'n is na'i radd Safon UG.

Nid yw cynnal safonau yn fater newydd ar gyfer 2020, mae'n nodwedd o ddyfarnu cymwysterau bob blwyddyn yng Nghymru, ac ar draws y DU. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod y penderfyniad anodd hwn wedi bod yn angenrheidiol ar gyfer cynnal hyder yn ein cymwysterau a bod yn deg â myfyrwyr. Mae'r rhain wedi bod yn amgylchiadau eithriadol, a maes o law byddaf yn gwneud datganiad pellach ar adolygiad annibynnol o ddigwyddiadau ar ôl canslo arholiadau eleni.

## **Y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil**

Mae'r heriau y mae'r sector yn eu hwynebu o ganlyniad i'r pandemig yn golygu nad oedd gan y Prif Weinidog a mi ddewis ond blaenoriaethu deddfwriaeth arall o fewn y rhaglen. Er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), rydym wedi'i gyhoeddi ar [ffurf drafft](#) gan ganiatáu i randdeiliaid a'r cyhoedd ei ystyried.

Mae'r bil drafft yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd tan 4 Rhagfyr. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd pellach i ni barhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn perthynas â darpariaethau o fewn y bil ac, yn bwysig iawn, yr effaith a'r heriau sydd o flaen y sector o ganlyniad i'r pandemig.

Mae'r heriau a grëwyd ar gyfer ein heconomi a'r sector addysg o ganlyniad i Covid-19 yn golygu ei bod yn bwysicach nag erioed defnyddio dull mwy strategol, cydlynol ac effeithlon o oruchwylio addysg drydyddol, dan nawdd un Comisiwn sydd â chylch gwaith clir i adeiladu system sy'n gweithio i bobl Cymru ac economi Cymru.

## **Ffioedd Dysgu**

Nid oes gennyf amheuaeth y bydd y profiad addysg uwch yn wahanol iawn i lawer o fyfyrwyr yn ystod y flwyddyn academaidd sydd i ddod. Serch hynny, rydym wedi gweithio'n agos gyda'r sector i ddatblygu canllawiau a fydd, gobeithio, yn eu galluogi i ddarparu profiad prifysgol rhagorol sydd hefyd yn iach ac yn ddiogel. Ni allwn ddisgwyl yn realistig i brifysgolion ostwng eu ffioedd pan fydd costau'r ddarpariaeth hon yn aros yr un fath, ac mewn rhai achosion yn codi, a byddai gwneud hynny, beth bynnag, ond yn fanteisiol i raddedigion sy'n ennill cyflog uwch ymhell ar ôl iddynt adael y brifysgol oherwydd natur ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr.

## **Niferoedd Myfyrwyr**

Ysgrifennais at y [Gweinidog Gwladol ar gyfer Prifysgolion](#) ar 29 Mai yn mynegi fy mhryder eithriadol ynghylch bwriad Llywodraeth y DU i gyflwyno rheolaethau dros dro ar nifer y myfyrwyr mewn ymateb i'r pandemig COVID-19. Fy mhrif bryderon oedd na fyddai'r cynigion yn fanteisiol i'r DU yn gyfan; y byddent yn gosod rheolaethau ar sefydliadau yng Nghymru yn hytrach na gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau ateb sy'n gydnaws â datganoli; ac y byddent yn torri ar draws cynigion CCAUC ar gyfer datblygu cyfyngiadau ar dderbyniadau mewn partneriaeth â sector addysg uwch Cymru.

Ar 1 Mehefin, cyhoeddodd Llywodraeth y DU drefniadau rheoli nifer myfyrwyr ar gyfer prifysgolion Lloegr a myfyrwyr sy'n hano o Loegr. Mae'r polisi hwn yn symud oddi wrth ddull cyffredin ar draws y DU gyfan o ymdrin â chyfyngiadau ar dderbyniadau addysg uwch. Mynegais fy siom ynglŷn â'r canlyniad hwn i'r Gweinidog Gwladol ar gyfer Prifysgolion. Trafodais fy mhryderon ynghylch dull Llywodraeth y DU o weithredu gyda Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon hefyd.

Ar 17 Awst cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg fod Llywodraeth y DU yn bwriadu dileu ei rheolaethau dros dro ar nifer y myfyrwyr a gyflwynwyd ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

### **Cymorth i Fyfyrwyr Addysg Bellach**

Rwy'n hynod fodlon bod darparwyr wedi gwneud pob ymdrech yn ystod y cyfnod hwn i ymateb i anghenion myfyrwyr sy'n agored i niwed ac yn anodd eu cyrraedd. Ymysg y pethau penodol y mae darparwyr wedi'u gwneud, a nodwyd gan Estyn, mae:

- Cyfyngu ar nifer a hyd y sesiynau ar-lein a drefnwyd er mwyn atal 'blinder digidol' i ddysgwyr a staff;
- Darlithwyr yn ffilmio ac yn lanlwytho enghreifftiau i ddangos i ddysgwyr sut i wneud pethau penodol (e.e. paratoi prydau bwyd penodol neu gneifio defaid);
- Colegau yn rhoi benthyg offer, gan gynnwys llechi, Chromebooks a gliniaduron, ac wedi rhoi cymorth ariannol arall i ariannu neu ddarparu band eang, data symudol neu dongle Wi-Fi i'r dysgwyr hynny sydd angen cymorth arnynt fwyaf i liniaru tloidi digidol;
- Staff wedi cynnig ystod eang o ymyriadau cymorth i ddysgwyr gan gynnwys galwadau ffôn, negeseuon testun neu e-bost; ac mewn rhai achosion, mae staff wedi ymweld â dysgwyr gartref lle nad yw colegau wedi gallu cysylltu drwy ddulliau eraill;
- Mae enghreifftiau o fentrau penodol i gefnogi dysgwyr agored i niwed yn cynnwys danfon bwyd neu dalebau, taliadau tloidi mislif, darparu offer TG neu gymorth i helpu i gael gafael ar Wi-Fi neu ddata symudol.

Rwyf wedi cyhoeddi cyllid o £3.2m i helpu i brynu offer TGCh a chysylltedd ar gyfer dysgwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yn 2020-21.

Mae darparwyr hefyd wedi bod yn ymwybodol iawn o effaith hyn ar eu staff yn ogystal â'u dysgwyr ac wedi sicrhau eu bod wedi darparu neu gyfeirio staff at gymorth priodol ac wedi caniatáu i staff weithio'n hyblyg yn ôl y gofyn.

Mae colegau'n parhau i fonitro a chysylltu'n rheolaidd â dysgwyr sy'n agored i niwed, yn enwedig y rhai y nodwyd eu bod yn flaenoriaeth uchel. Nid wyf yn credu bod llai o gymorth wedi'i ddarparu ar gyfer dysgwyr agored i niwed mewn addysg ôl-16 na'r ddarpariaeth gyfatebol a gynigiwyd mewn ysgolion.

## **Cymhwyster Galwedigaethol Ôl-16**

Mae fy swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda Cymwysterau Cymru ynghylch cymwysterau galwedigaethol.

Mae OfQual wedi cynghori Sefydliadau Dyfarnu i ddilyn yr egwyddor o ddefnyddio Graddau Aseu Canolfannau lle nad yw asesiadau yn ystod y flwyddyn wedi darparu digon o dystiolaeth i gymhwyso gradd. Amcangyfrifir bod hyn yn effeithio ar lai nag 1% o fyfyrwyr. Mae angen cynghori unrhyw fyfyrwr sy'n ansicr ynghylch sut y dyfarnwyd ei radd derfynol i apelio.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth ichi. Os bydd angen eglurhad pellach arnoch, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams', written in a cursive style.

**Kirsty Williams AS/MS**  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education

Vaughan Gething AC/AM  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

Kirsty Williams AC/AM  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Lynne Neagle AC  
Cadeirydd  
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

21 August 2020

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Gorffennaf 2020 yn gofyn am wybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir i gefnogi iechyd corfforol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn sgil effeithiau COVID-19.

Nawr yn fwy nag erioed, gellir gweld pwysigrwydd cefnogi iechyd meddwl a lles emosiynol ein plant a'n pobl ifanc. Mae'r pandemig a'r cyfyngiadau symud o ganlyniad iddo wedi effeithio arnom i gyd, ond yn enwedig ar ein plant a'n pobl ifanc sydd wedi gorfod mynd am fisoedd heb weld ffrindiau ac aelodau agos o'r teulu; sydd wedi gweld y ffordd y cânt eu haddysgu yn newid y tu hwnt i bob deall; ac sydd, yn achos rhai, wedi gorfod ymdopi â phrofedigaeth anwyliaid.

Drwy'r cyfnod heriol hwn, rydym wedi parhau i flaenoriaethu iechyd corfforol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Wedi ein llywio gan waith ymgysylltu â phlant a phobl ifanc eu hunain ynghyd ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, rydym wedi ceisio darparu cymorth a chanllawiau yn ystod y cyfyngiadau symud, ac wrth i'r cyfyngiadau a achoswyd gan bandemig COVID-19 gael eu llacio. Ein nod yw diwallu anghenion iechyd corfforol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc mewn modd amserol ac effeithiol, yn unol â'n dull ysgol gyfan, ond rydym yn cydnabod bod mwy o le i wella profiadau a deilliannau bob amser.

Yn Atodiad 1, rydym wedi darparu ymateb i bob un o'r pwyntiau a godwyd yn eich llythyr. Edrychwn ymlaen at weithio gyda defnyddwyr gwasanaethau, rhanddeiliaid a'r Pwyllgor i gyflawni gwelliannau pellach i gefnogi plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.




Yr eiddoch yn gywir,



**Vaughan Gething AC/AM**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau  
Cymdeithasol

Minister for Health and Social Services



**Kirsty Williams AC/AM**

Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education

## 1. Cau ysgolion

**(i) Rhaid i lesiant plant fod wrth wraidd penderfyniadau sy'n ymwneud ag ysgolion, ac rydym yn annog Llywodraeth Cymru a'r sector i weithio gyda'i gilydd i addasu a bod yn feiddgar ac yn arloesol yn wyneb y pandemig byd-eang hwn.**

Rydym wedi cyhoeddi canllawiau dysgu<sup>1</sup> ar gyfer yr hydref i nodi disgwyliadau clir i ysgolion am y blaenoriaethau dysgu. Diben y canllawiau hyn yw rhoi set gyffredin o flaenoriaethau dysgu i ysgolion a phartneriaid cefnogol, waeth beth fydd lefel y gweithrediadau mewn ymateb i COVID-19. Bydd angen i ysgolion baratoi ar gyfer amrywiaeth o senarios ac mae'r canllawiau hyn yn nodi pa flaenoriaethau dysgu ddylai fod yn gyson drwyddi draw – un dull gweithredu sy'n ddigon hyblyg i ymateb i amodau sy'n newid.

I grynhoi, wrth gynllunio eu dull gweithredu ar gyfer dysgu yn ystod tymor yr hydref, dylai ysgolion a lleoliadau ystyried y canlynol:

- iechyd a lles: dylai dysgu gefnogi lles meddyliol, emosiynol, corfforol a chymdeithasol dysgwyr, yn ogystal â chydabod pwysigrwydd dysgu a chwarae yn yr awyr agored
- diben: dylai fod diben clir i'r dysgu, gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i ddysgwyr nawr ac yn y tymor hwy
- llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol: dylai dysgwyr gael cyfleoedd i feithrin a chymhwyso'r sgiliau hyn ar draws y cwricwlwm
- profiadau dysgu eang a chytbwys: dylai dysgwyr gael profiadau dysgu sy'n rhychwantu cwricwlwm eang sy'n cynnwys cyfleoedd i feithrin dealltwriaeth eang ac amrywiaeth o wybodaeth a sgiliau
- cynnydd ac asesu: dylai dysgwyr wneud cynnydd ystyrion drwy'r cyfnod hwn. Dylid cynllunio dysgu mewn ffordd sy'n cefnogi dyfnder a chymhlethdod cynyddol dysgu dros amser. Rydym yn annog y defnydd o asesiadau er mwyn helpu dysgwyr i symud i'r camau nesaf yn eu dysgu
- partneriaeth gyda rhieni, gofalmwr a dysgwyr: dylai ysgolion ddatblygu dealltwriaeth ac iaith gyffredin gyda rhieni, gofalmwr a dysgwyr; gall hyn helpu i ategu a chefnogi profiadau dysgu.

**(ii) Credwn, o fis Medi, y bydd yn rhaid i blant ledled Cymru gael cyswllt cyson o ansawdd uchel â'u hathrawon, a bod yn rhaid rhoi pob cyfle posibl i holl blant Cymru fwrw ymlaen â'u haddysg. Bydd hyn hefyd yn galluogi ysgolion i chwarae eu rhan hanfodol yn yr ymagwedd system gyfan at ategu iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc.**

Mae'r canllawiau dysgu hyn yn nodi y bydd yn rhaid i ysgolion a lleoliadau roi ystyriaeth ofalus i'r ffordd y caiff amser ei ddefnyddio yn yr ysgol neu'r lleoliad. Bydd amser cyswllt yn werthfawr iawn. Dylai ymarferwyr ystyried y cydbwysedd a'r gydberthynas rhwng yr amser dysgu yn yr ysgol a dysgu mewn mannau eraill, gan ddefnyddio amser cyswllt yn ofalus ac yn effeithiol er mwyn nodi'r ffyrdd y gall amser gartref neu mewn mannau eraill ategu'r broses o greu cysylltiadau ac atgyfnerthu'r dysgu. Dylent ystyried amrywiaeth eang o ddulliau addysgegol sy'n gwneud defnydd effeithiol o ddysgu yn yr ysgol a thu allan iddi er mwyn grymuso dysgwyr.

---

<sup>1</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-07/canllawiau-ar-ddysgu-mewn-ysgolion-a-lleoliadau-o-dymor-yr-hydref.pdf>

Ar 17 Awst, gwnaethom gyhoeddi Diogelu Addysg: Canllawiau gweithredol i ysgolion a lleoliadau addysg<sup>2</sup>. Mae'n ategu canllawiau a geir yn y canllawiau gweithredol a dysgu sy'n rhoi cynngor penodol i ddysgwyr agored i niwed a dan anfantais.

Yn ystod yr argyfwng, daeth yn glir bod nifer o ddysgwyr wedi dioddef effeithiau negyddol o ran eu cynnydd wrth ddysgu, gyda rhai ohonynt yn dioddef yn ddifrifol. Mae tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau dibynadwy, gan gynnwys rhai sy'n canolbwyntio ar Gymru, yn awgrymu bod yr argyfwng wedi effeithio ar y rhan fwyaf o ddysgwyr, neu bob un ohonynt, gan effeithio fwyaf ar y rhai mwyaf agored i niwed.

Ein hymateb i'r sefyllfa hon yw dyrannu adnoddau ariannol ar gyfer creu capasiti newydd yn y system. Bydd y buddsoddiad yn werth bron £29 miliwn rhwng mis Medi 2020 a mis Awst 2021, a bydd yn ddigon i gynyddu capasiti gydag oddeutu 600 o athrawon a 300 o gynorthwyr addysgu ychwanegol. Yn ogystal â hyn, byddwn yn defnyddio ein buddsoddiad presennol mewn Dysgu Proffesiynol, seilwaith digidol, cysylltedd, dyfeisiau a chynnwys i gyfoethogi'r profiadau a ddarperir gan ysgolion a lleoliadau i ddysgwyr.

Diwygio'r cwricwlwm yw ein blaenoriaeth ganolog ar gyfer addysg yng Nghymru o hyd. Mae'n hanfodol bod ein holl waith gyda'r system addysg yng nghyd-destun COVID-19 yn cyd-fynd ag arferion gorau rhyngwladol, sydd hefyd yn sail i'n cynigion diwygio'r cwricwlwm. Dros y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol fel rhan o gwricwlwm eang a chytbwys;
- datblygu sgiliau dysgu annibynnol; a hefyd
- cefnogi ac ymgysylltu drwy hyfforddi.

Bydd y ffocws hwn yn arbennig o berthnasol i'r carfanau â blaenoriaeth. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Cymwysterau Cymru i sicrhau bod ein dull gweithredu o ran y cwricwlwm a'r dysgu yn hyrwyddo ac yn cyd-fynd â hygyrdd a dilysrwydd cyfres arholiadau 2021.

**(iii) Credwn y dylid cyhoeddi'r canllawiau hyn [fframwaith dull gweithredu ysgol gyfan] ar gyfer ymgynghori fel mater o flaenoriaeth, er mwyn sicrhau y gall cymorth ar gyfer iechyd emosiynol a meddyliol ein plant fod yn nodwedd ganolog o'u haddysg.**

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol mai ein bwriad oedd dechrau'r ymgynghoriad ffurfiol ym mis Mawrth, a bod llawer o waith cyn-ymgynghori gyda rhanddeiliaid eisoes wedi'i gynnal er mwyn cefnogi hyn. Amharodd y pandemig ar ein cynlluniau ac roedd yn synhwyrol eu gohirio tra bod ysgolion yn cefnogi dysgwyr yn ystod y cyfyngiadau symud. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod bod ein dull gweithredu ysgol gyfan yn rhan o gefnogi llesiant dysgwyr a staff y mae'r pandemig presennol yn effeithio arnynt, a'i effeithiau hirdymor, sy'n debygol o bara'n llawer hirach nag effaith ffisegol gychwynnol COVID-19. O ganlyniad, bydd y Pwyllgor yn ymwybodol ein bod wedi cychwyn yr ymgynghoriad ar 8 Gorffennaf<sup>3</sup>. Bydd yr ymgynghoriad yn para tan 30 Medi.

## 2. Cydnabod amrywiaeth materion llesiant ac iechyd meddwl

<sup>2</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-08/canllawiau-gyfer-cefnogi-dysgwyr-agored-niwed-dan-anfantais.pdf>

<sup>3</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-07/dogfen-ymgynghori-canllawiau-fframwaith-drafft-ar-ymwreiddio-dull-ysgol-gyfan.pdf>

**(i) Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gawsom fod angen cael cydbwysedd pwysig rhwng cydnabod a chynorthwyo yn ystod achosion o broblemau iechyd meddwl a pheidio â throi ymatebion naturiol i bandemig brawychus yn gyflyrau meddygol... Yn ein barn ni, mae hyn yn dangos ymhellach bwysigrwydd ein hargymhellion yn adroddiad Cadernid Meddwl sy'n ymwneud â darparu cydnerthedd emosiynol a chymorth ymyriadau cynnar, a mynd i'r afael â'r bylchau mewn gwasanaethau i'r plant a'r bobl ifanc hynny nad ydynt yn gymwys ar gyfer gwasanaethau CAMHS ond na allant ddod o hyd i gymorth therapiwtig neu gymorth 'lefel is' addas – y garfan a elwir yn 'ganol coll'. Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i weithredu ein hargymhellion yn Cadernid Meddwl fel mater o flaenoriaeth**

Rydym yn cytuno, a dyna pam rydym yn parhau i flaenoriaethu gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-weinidogol ar Ddull Gweithredu Ysgol Gyfan at Lesiant ac yn mynd ati nawr i ymgynghori ar ein cynigion. Fel y nodwyd uchod, yn ogystal â mynd i'r afael ag argymhellion adroddiad Cadernid Meddwl, bydd hyn yn chwarae rôl bwysig wrth fynd i'r afael ag effeithiau byrdymor, tymor canolig a hirdymor pandemig COVID-19.

Rydym hefyd yn cefnogi ein cynigion â £5 miliwn, o'r cyllidebau Addysg ac Iechyd, yn y flwyddyn gyfredol i frwr ymlaen â gweithgarwch i ddatblygu dulliau gweithredu ysgol gyfan ledled Cymru. Bydd hyn yn diwallu anghenion dysgwyr, a'r gymuned ysgol ehangach, ac yn cydnabod y cysylltiad rhwng llesiant myfyrwyr ac athrawon. Mae hyn yn cynnwys:

- £1,250,000 o gyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cwnsela yn y gymuned ac mewn ysgolion, gan gynnwys cefnogi'r gwasanaethau a ddarperir i gleientiaid yn ystod y cyfyngiadau symud.
- £465,000 i ymestyn cymorth llesiant sy'n briodol i oedran i blant o dan Blwyddyn 6.
- £450,000 i ddarparu hyfforddiant staff ar iechyd meddwl a llesiant.
- £600,000 i ddarparu ymyriadau iechyd meddwl a llesiant cyffredinol, sydd wedi'u targedu mewn ysgolion.
- £450,000 i ddarparu cymorth llesiant ar gyfer gweithlu'r ysgol.
- Bron i £1 miliwn i barhau â gwaith ein cynlluniau peilot mewngymorth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc mewn ysgolion.

Rydym hefyd wedi creu pecyn adnoddau ar Hwb sy'n hyrwyddo amrywiaeth o adnoddau digidol sydd wedi'u dylunio'n benodol i gefnogi pobl ifanc â'u hiechyd meddwl a'u llesiant emosiynol eu hunain. Mae'r Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl i Bobl Ifanc<sup>4</sup> yn cysylltu pobl ifanc, 11 i 25 oed, ag amrywiaeth eang o adnoddau ar-lein a all eu cefnogi drwy bandemig COVID-19 a thu hwnt. Ym mhob un o'r chwe adran, mae hyd at ddeg o wefannau hunangymorth, apiau, llinellau cymorth a mwy sy'n cefnogi iechyd meddwl a llesiant.

Yn ystod tymor yr hydref, bydd angen rhoi amser, cymorth a dealltwriaeth i ddysgwyr er mwyn iddynt ddatblygu ymddygiadau newydd; gall cael cyfleoedd priodol i chwarae, cymdeithasu a meithrin cydberthnasau gefnogi hyn. Gan gydnabod yr heriau hyn, rydym wedi gweithio'n agos gyda sefydliadau addysg uwch i ddatblygu amrywiaeth o adnoddau dysgu proffesiynol i gefnogi ysgolion a lleoliadau i roi llesiant dysgwyr a staff wrth wraidd popeth y maent yn ei wneud wrth iddynt addysgu yng nghyd-destun effeithiau parhaus COVID-19. Mae'r cyntaf yn y gyfres o adnoddau wedi'u cyhoeddi erbyn hyn<sup>5</sup>.

<sup>4</sup> <https://hwb.gov.wales/repository/discovery/resource/e53adf44-76cb-4635-b6c2-62116bb63a9a/cy>

<sup>5</sup> <https://hwb.gov.wales/playlists/view/5e4722f8-5980-4970-bdf0-43d7990796e9/cy/1?options=CNIQ39k7rbEp4zsz8OdGxip83XDxyAM%252BxyuNqUgoOrvEtXGXwma9Q0UtNK7LrNnQ6bYw53adgkcTL6FXxVsVHOOFICANNqBCqXUn8j4rA%252FHKuyCg49jGbtVn9p1V1ZR%252FzAiXP%252BmKsqDVlpl%252BEPnrW8KugPebc7M59OWX6qL3KISkAdv7JfwDYbeF2XRTs%252F1sWNCtAW7rkUKf5PeHlp2kWg%253D%253D> a <https://hwb.gov.wales/playlists/view/7fa16952-91be-4679-a2e9-aaebc5834695/cy/1?options=CNIQ39k7rbEp4zsz8OdGxip83XDxyAM%252BxyuNqUgoOrvEtXGXwma9Q0UtNK7LrNnQ6bYw53adgkcTL6FXxVsVHOOFICANNqBCqXUn8j4rA%252FHKuyCg49jGbtVn9p1V1ZR%252FIll>

Rydym wrthi hefyd yn chwilio am strategaethau gyda phartneriaid o fewn a'r tu allan i leoliadau addysg i ddarparu ar gyfer pobl ifanc sydd angen cymorth lefel is.

Drwy gydol pandemig COVID-19, arhosodd gwasanaethau iechyd meddwl ar agor a bu modd iddynt gefnogi plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai ag anghenion haen 0 ac 1. Mae pob bwrdd iechyd wedi rhoi sicrwydd i Lywodraeth Cymru am hyn. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi camu i mewn i gyllido gwasanaethau cymorth sydd o dan bwysau o ganlyniad i COVID-19, er enghraifft y Llinell Gymorth Trechu Anhwylderau Bwyta, sy'n rhoi gwybodaeth a chynghor i bobl sy'n byw gydag anhwylderau bwyta a'u teuluoedd.

Mae'r Llif Gwaith Help Cynnar a Chymorth Gwell Gyda'n Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yn adeiladu ar waith y Dull Gweithredu Ysgol Gyfan drwy ddatblygu fframwaith, sy'n cefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, ac yn cyflwyno cynigion ar gyfer arfer gorau a datblygu gwasanaethau. Mae'r gwaith ar y maes hwn wedi parhau yn ystod y pandemig.

### 3. Data

**(i) Rydym yn awyddus i sicrhau bod darlun clir a thryloyw o nifer y plant a phobl ifanc sy'n cyrchu gwasanaethau i ategu eu hiechyd corfforol a meddyliol ar gael i'r cyhoedd. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y data hyn ar gael mewn modd amserol a hygyrch, er mwyn sicrhau y gellir craffu'n llawn ar effaith y pandemig a'r mesurau i'w reoli.**

Mae data ar blant sy'n defnyddio gofal sylfaenol yn cael eu cadw ar systemau TG meddygon teulu, ac yn yr un modd, mae gwybodaeth ar gael ar nifer y plant sy'n mynd i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys. Bydd swyddogion yn gweithio gyda'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant i nodi dangosydd canlyniadau defnyddiol i blant sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ailddechrau cyhoeddi data perfformiad rheolaidd cyn diwedd 2020. Bydd hyn yn cynnwys data Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol, wedi'u rhannu i ddangos pobl ifanc dan 18 oed am y tro cyntaf.

### 4. Seilwaith digidol

**Nid yw'n glir i ni pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fonitro faint o blant sydd heb fynediad ar hyn o bryd at y seilwaith digidol sy'n angenrheidiol i gael mynediad at eu gwasanaethau addysg, iechyd a chymorth. Byddem yn croesawu manylion pellach am y trefniadau monitro hyn, a'r camau sy'n cael eu cymryd i fesur faint o blant sy'n elwa ar y buddsoddiad a wnaed.**

Yn gyffredinol, gwyddom fod cyfran fawr o bobl ledled Cymru nad ydynt yn hyderus yn ddigidol – naill ai pobl nad ydynt yn defnyddio'r rhyngwryd yn bersonol neu nad oes ganddynt y sgiliau digidol sylfaenol i ddefnyddio gwasanaethau a gwybodaeth hanfodol. Mae'n rhaid i ni sicrhau na chânt eu gadael ar ôl mewn cymdeithas, yn enwedig wrth i ni ddod allan o'r pandemig hwn ac ystyried polisi yn y dyfodol. Bydd ein polisi yn y dyfodol wedi'i adeiladu ar yr angen cydnabyddedig i gefnogi pawb i feithrin y cymhelliant, yr hyder a'r sgiliau i wneud penderfyniadau hyddysg a dewis sut i gyfranogi yn ein byd cynyddol ddigidol, a manteisio i'r eithaf arno. Bydd cynhwysiant digidol wrth wraidd popeth a wnawn.

Mae ein llwyfan dysgu ar-lein arloesol, Hwb, yn parhau i chwarae rôl hanfodol wrth gefnogi darpariaeth addysg yn ystod y cyfnod heriol hwn, gyda 2.5 miliwn o fewngofnodiadau y mis yn ystod y tri mis diwethaf, sef cynnydd o 131% ar y flwyddyn flaenorol. Bu cyfartaledd hefyd o 9.1 miliwn o ymweliadau â thudalennau yn ystod yr un cyfnod, sef cynnydd o 152% ar y flwyddyn flaenorol. Mae mwy na 99% o ysgolion yn mynd ati'n rhagweithiol i ddefnyddio'r llwyfan.

Er mwyn cefnogi dysgwyr sydd wedi'u heithrio'n ddigidol mewn ysgolion a gynhelir, mae'r Gweinidog Addysg wedi ymrwmo hyd at £3 miliwn. Ar sail y galw a nodwyd gan ysgolion ac awdurdodau lleol, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu 10,848 o ddyfeisiau MiFi a 9,717 o drwyddedau meddalwedd i'w defnyddio ledled Cymru. Yn seiliedig ar adborth gan awdurdodau lleol, drwy eu trefniadau eu hunain neu drwy ein cymorth a ddarparwyd yn genedlaethol, deallwn fod darpariaeth ar gyfer dysgwyr sydd wedi'u heithrio'n ddigidol bellach ar waith. Os nad yw rhiant/gofalwr wedi gwneud cais am y ddarpariaeth hon, mae angen iddynt gysylltu â'u hysgol leol er mwyn gallu gwneud y ddarpariaeth hon.

Yn ehangach, mae ein rhaglen Cyflymu Cymru, a ddarparodd fynediad at fand eang cyflym iawn i fwy na 733,000 o eiddo, wedi bod yn fuddsoddiad hanfodol wrth gefnogi Cymru yn ystod y pandemig a thu hwnt wrth i ni ganolbwyntio ar adfer. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, o dan ein trefniant presennol ag Openreach, y bydd nifer yr eiddo a fydd yn elwa ar fynediad at fand eang ffeibr llawn yn cynyddu o 26,000 i 39,000.

Mae cynllun Allwedd Band Eang Cymru (ABC) Llywodraeth Cymru yn darparu grantiau i gyllido costau gosod cysylltiadau band eang newydd i gartrefi a busnesau yng Nghymru (nid yw'n cynnwys costau rhentu misol). Gan ragdybio y bydd cynnydd mewn ceisiadau i'r cynllun, rydym wedi symleiddio'r broses gwneud cais er mwyn sicrhau mynediad cyflym at gysylltedd gwell.

Mae'n bosibl y bydd cymorth hefyd ar gael i gysylltu band eang a all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit drwy raglen Cysylltedd Gigabeit Gwledig Llywodraeth y DU. Yn ddiweddar, rydym wedi cyhoeddi elfen atodol Cymru i'r cynllun, sy'n dyblu'r swm sydd ar gael i gartrefi a busnesau i £3,000 a £7,000 yn y drefn honno. Rydym hefyd yn buddsoddi mewn ffyrdd newydd ac arloesol o gysylltu cymunedau cyfan, gan weithio gyda llywodraeth leol a mentrau cymdeithasol drwy ein Cronfa Band Eang Lleol £10 miliwn.

**(ii) Mewn llawer o amgylchiadau, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd meddwl, mae rhyngweithio wyneb yn wyneb yn parhau i fod yn rhan hanfodol o gymorth. Rhaid i blant a phobl ifanc fod wrth wraidd gwaith dylunio gwasanaethau, a rhaid cydnabod bod anghenion a hoffterau unigolion yn amrywio - nid oes un ateb yn addas i bawb. Rydym yn gofyn am sicrwydd bod cynlluniau ar waith ar gyfer dychwelyd yn ddiogel at wasanaethau wyneb yn wyneb lle mai hynny yw'r dewis mwyaf priodol, a bod egwyddorion clir ar waith i asesu lle gallai parhad cymorth digidol o bell fod yn fuddiol.**

Rydym yn cydnabod bod posibilrwydd y bydd tarfu ar addysgu mewn ysgolion ar lefel leol yn y dyfodol oherwydd effaith y pandemig. Rydym yn glir bod angen i ysgolion ac Awdurdodau Lleol sicrhau bod cynlluniau ar waith i ymateb i'r tarfu hwn yn seiliedig ar senarios lleol, ac y dylai'r rhain gynnwys effaith ar unigolion a grwpiau, cau ysgolion am gyfnod, neu gau grŵp o ysgolion fel clwstwr lleol, neu'r holl ysgolion uwchradd sy'n gwasanaethu cymuned

Ddechrau mis Medi, byddwn yn nodi ein disgwyliad clir bod ysgolion yn gwneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod dysgu yn parhau yn ystod cyfnodau o darfu yn y dyfodol. Bydd disgwyl i ysgolion nodi yn eu cynlluniau hawl disgyblion i gyswllt a chymorth, amllder a

pharhad sesiynau addysgu a dysgu, a'r amser y mae disgwyl i ddisgyblion ei dreulio yn astudio'n annibynnol

Bydd disgwyl i ysgolion nodi'r cwricwlwm a fydd ar gael i ddysgwyr sy'n ymwneud â rhaglen *Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau* a'r cwricwlwm cyffredinol a fydd ar gael i bob dysgwr rhag ofn y caiff gweithrediad arferol ei darfu.

Bydd Awdurdodau Lleol a chonsortia rhanbarthol yn craffu ar gynlluniau ysgolion, a chânt eu monitro fel rhan o waith Estyn yn y flwyddyn i ddod.

Rydym yn ymwybodol bod y consortia rhanbarthol wedi gwneud gwaith sylweddol i lunio canllawiau, a sicrhau bod Dysgu Proffesiynol ar gael i ysgolion i gefnogi eu dull o ddysgu cyfunol ac o bell, a bod Hwb bellach yn cynnwys adnoddau sylweddol i'w defnyddio gan ysgolion wrth ddatblygu eu cynlluniau.

Mewn perthynas â llesiant dysgwyr, ar ddechrau'r pandemig, gwnaethom ymateb yn gyflym i gyhoeddi adnoddau ychwanegol gwerth £1.25 miliwn ar gyfer ein gwasanaeth cwnsela ysgolion, gyda phwyslais ar gynnal darpariaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth presennol a newydd yn ystod y cyfyngiadau symud. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i gwrselwyr feithrin sgiliau newydd er mwyn darparu gwasanaethau ar-lein a buddsoddiad yn y seilwaith (trwyddedau meddalwedd ac ati) i'w galluogi i weithio'n effeithiol. Gwnaethom sylweddoli hefyd ei bod yn debygol y byddai cynnydd mawr byrdymor yn y galw pan fyddai plant yn dychwelyd i'r ysgol, a goblygiadau hirdymor i'w llesiant seicolegol. O'r wybodaeth a ddarparwyd i ni gan awdurdodau lleol, bu ein busddsoddiad yn fodd inni ddarparu 14,550 o sesiynau cwnsela ychwanegol hyd at ddiwedd mis Mawrth, gydag amcangyfrif o 3,120 o blant a phobl ifanc ychwanegol yn gallu cael gafael ar y cymorth hanfodol y mae'r gwasanaeth hwn yn ei ddarparu.

## **5. Gallu gweithwyr iechyd proffesiynol i gynorthwyo plant a phobl ifanc**

**(i) Rydym yn pryderu, fodd bynnag, er bod anghenion iechyd corfforol y boblogaeth o reidrwydd yn flaenoriaeth yng nghyngorau cynnar y pandemig hwn, bod gwasanaethau i ategu iechyd meddwl a llesiant plant wedi bod yn agored i'r risg o ddad-flaenoriaeth.**

Mae sicrhau bod plant a phobl ifanc â phroblemau iechyd emosiynol a llesiant (y rhai a oedd yn bodoli a'r rhai o ganlyniad i bandemig COVID-19) yn cael mynediad at gymorth a thriniaeth mewn modd amserol a phriodol wedi parhau'n flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru ac mae'n un o ofynion hanfodol y CCUHP.

Pennodd Llywodraeth Cymru bod pob gwasanaeth iechyd meddwl i bobl o bob oed yn 'hanfodol' yn ystod y pandemig. Yn ymarferol, er bod gwasanaethau wedi'u heffeithio a bod modelau gwasanaeth wedi gorfod addasu, rydym wedi parhau i ddisgwyl ymateb diogel a chynaliadwy i blant a phobl ifanc yr oedd angen cymorth gwasanaethau iechyd meddwl arnynt.

Er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc wedi cael y cymorth roedd ei angen arnynt drwy gydol y pandemig, mae gwasanaethau wedi symud yn gyflymach i ddefnyddio dulliau anhraddodiadol. Gall hyn fod ar draws y GIG (e.e. fideogynadledda Attend Anywhere), arloesi lleol (e.e. adnoddau Seicoleg Cymunedol Gwent a Gwasanaeth Ymlyniad Gwent), ac wedi'i arwain gan Lywodraeth Cymru (e.e. Pecyn Adnoddau Iechyd Meddwl Pobl Ifanc).

**Gan gydnabod y posibilrwydd real iawn o ail don o'r coronafeirws, mae angen i Lywodraeth Cymru bennu'r camau clir y bydd yn eu cymryd i sicrhau bod gwasanaethau**

## **iechyd meddwl plant yn cael eu hamddiffyn er mwyn osgoi'r canlyniadau hirdymor hir a fyddai'n dilyn yn sgil diffyg cymorth arbenigol.**

Pe bai ail don, byddai modd manteisio'n gyflym ar y mecanweithiau a roddwyd ar waith hyd yma. Gan adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o fisoedd cyntaf COVID-19 a'r arferion da a rannwyd, byddwn yn teilwra ein hymateb i ateb heriau unrhyw ail don bosibl fel bod y gofal yn parhau yn y modd mwyaf diogel posibl. Bydd hyn yn cynnwys proses adrodd wedi'i haddasu fel bod data blaenoriaeth yn cael eu casglu heb effeithio ar amser clinigol, gyda dewisiadau amgen i gyswllt wyneb yn wyneb a chyfarfodydd wythnosol rhwng Cyfarwyddwyr Meddygol CAMHS a Llywodraeth Cymru.

Mae ein mecanweithiau presennol yn darparu craidd gadarn o strategaethau profedig wedi'i chefnogi gan arbenigedd glinigol y gellir ei hatodi gan fesurau ychwanegol yn unol â'r hyn y mae'r sefyllfa'n galw amdano. Bydd gwasanaethau'n elwa ar fod yn gyfarwydd â dull a adnewyddwyd yn ogystal â hyblygrwydd, gan barhau i ddarparu cymorth o ansawdd uchel o dan amgylchiadau heriol.

**(iii) Roedd gennym ddiddordeb arbennig o ddysgu am y camau a gymerwyd mewn rhai ardaloedd i alluogi rhieni i gyfeirio at gyfleusterau pwynt mynediad unigol ar gyfer CAMHS. Byddem yn croesawu rhagor o fanylion gan Lywodraeth Cymru ynghylch lle mae'r modelau hyn ar waith, ac rydym o'r farn y dylid eu gwerthuso ac y dylid ystyried eu defnyddio ym mhob ardal bwrdd iechyd.**

Mae pob un o Fyrddau Iechyd Cymru wedi bod yn gweithredu pwyntiau mynediad unigol yn ystod COVID-19 er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau a sicrhau y gall pobl ifanc gael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Mae'r holl wasanaethau CAMHS arbenigol hefyd wrthi'n gweithio tuag at roi CAPA (dull Dewis a Phartneriaeth) ar waith fel pwynt mynediad unigol, er bod pob bwrdd iechyd ar wahanol gam o'r broses o'i weithredu wrth i ystyriaethau lleol gael eu hystyried yn ystod y broses gyflwyno. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda byrddau iechyd i sicrhau y caiff pwyntiau mynediad unigol eu hystyried a'u defnyddio fel strategaeth allweddol ar gyfer gwella gwasanaethau wrth i CAMHS symud tuag at gynllunio adferiad ar ôl COVID-19.

**(iv) Gofynnwn am fanylion pellach gan Lywodraeth Cymru ynghylch:**

- **y camau y mae wedi eu cymryd i fonitro'r cymorth gofal mewn argyfwng sydd wedi bod ar gael i blant a phobl ifanc ers cyflwyno'r cyfyngiadau symud;**
- **y trefniadau sydd ganddi ar waith i sicrhau bod cymorth gofal mewn argyfwng i blant a phobl ifanc ar gael i bob plentyn a pherson ifanc sydd ei angen wrth i'r pandemig ddatblygu.**

Gwnaeth Llywodraeth Cymru ymgynnull Grŵp Digwyddiadau Iechyd Meddwl ar ddechrau'r pandemig ac mae'n cydgysylltu'r broses o flaenoriaethu a sicrhau parhad gofal mewn argyfwng. Cyfarfu holl swyddogion arweiniol Clinigol CAMHS o bob bwrdd iechyd hefyd bob wythnos, gan rannu arferion gorau, gwybodaeth a rhoi gwybod am broblemau posibl wrth iddynt ddatblygu. Roedd y ddau grŵp yn canolbwyntio ar barhad gwasanaethau allweddol gan gynnwys gwasanaethau argyfwng, yn ogystal â datblygu mecanweithiau ar gyfer addasu gwasanaethau a'r cyd-destun gofal sy'n esblygu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £2 miliwn hyd yma ar gyfer capasiti cleifion mewnol iechyd meddwl ychwanegol i gefnogi byrddau iechyd yn ôl yr angen.



Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cael gwybod am y gwaith ychwanegol a wnaed gan Uned Cyflawni'r GIG i ymchwilio i hunanladdiad ymhlith pobl ifanc ac achosion tebygol o hunanladdiad yn ystod y pandemig.

Dywedodd pob bwrdd iechyd eu bod wedi cynnal y gallu i ymateb i anghenion iechyd meddwl plant a phobl ifanc ac rydym yn hydreus y bydd gofal argyfwng effeithiol, o ansawdd uchel yn parhau i fod ar gael.

## **6. Effaith ar grwpiau penodol o blant a phobl ifanc**

**Rydym yn cydnabod bod y coronafeirws wedi effeithio ar bob plentyn ac unigolyn ifanc, ond rydym yn arbennig o bryderus am ei effaith ar grwpiau penodol, gan gynnwys plant du a lleiafrifoedd ethnig, plant sy'n cysgodi a phlant difreintiedig. Mae ein llythyrau blaenorol hefyd wedi cyfeirio at effaith y pandemig ar blant ag anghenion dysgu ychwanegol, a'r rhai mewn addysg heblaw yn yr ysgol. Byddem yn croesawu sicrwydd pellach gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut mae'r grwpiau penodol hyn – ac unrhyw rai eraill sy'n cael eu hystyried yn arbennig o agored i niwed o ganlyniad i fesurau i reoli'r pandemig – yn cael eu nodi a'u cynorthwyo'n benodol o ran eu hiechyd corfforol a meddyliol.**

Mae awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau, ynghyd ag ymarferwyr ac asiantaethau partner, wedi dangos cadernid ac ystwythder wrth addasu'r gwasanaethau maent yn eu darparu i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd sy'n wynebu rhwystrau i'w dysgu yn ystod y cyfnod digynsail hwn. Yn yr un modd, mae llawer o rieni/gofalwyr a theuluoedd ledled Cymru wedi gorfod addasu'n gyflym a chydbwyso ffyrdd newydd o weithio wrth ddarparu gofal, cymorth ac addysg i'w plant.

Rydym yn cydnabod bod COVID-19 yn debygol o fod wedi effeithio ar blant agored i niwed a dan anfantais yn fwy na'u cymheiriaid. O'r dechrau, mae anghenion dysgwyr agored i niwed a dan anfantais wedi bod yn thema drawsbynciol yn ein gwaith, gan gynnwys yn y Cynllun Parhad Dysgu, a gafodd ei roi ar waith yn ystod y cyfyngiadau symud. Diben nodi pobl agored i niwed a dan anfantais fel maes penodol o waith yw sicrhau bod darpariaeth addysgol a chymorth i'r dysgwyr hyn yn gynhwysol a'u bod yn cael eu trin yn gyfartal â'u cymheiriaid.

Fel y nodwyd yn gynharach yn y ddogfen hon, rydym wedi cyhoeddi canllawiau penodol ar gyfer y dysgwyr mwy agored i niwed hyn, Diogelu Addysg: Canllawiau ar gyfer Cefnogi Dysgwyr sy'n Agored i Niwed a Dan Anfantais o fis Medi 2020, sy'n ategu'r canllawiau dysgu a gweithredol a gyhoeddwyd yn flaenorol. Mae'r canllawiau'n cydnabod yr effeithiwyd ar y grwpiau canlynol o ddysgwyr yn fwy na'u cymheiriaid ac yn hyrwyddo pwysigrwydd diwallu eu hanghenion emosiynol a llesiant meddyliol:

- dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig (AAA)
- dysgwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig sydd â Saesneg neu Gymraeg fel iaith ychwanegol
- plant sydd â phrofiad o ofal, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal
- dysgwyr sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS)
- plant ffoaduriaid a cheiswyr lloches

**(ii) Byddem hefyd yn croesawu ymateb i farn y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant nad oes unrhyw reswm i blentyn nad yw o dan ofal ymgynghorydd ysbyty fod yn cysgodi.**

Mae Prif Swyddog Meddygol Cymru wedi bod yn ymwybodol drwy gydol y cyfnod y mae wedi cynghori pobl i warchod fod risgiau o niwed yn gysylltiedig â gwarchod. Am y rheswm hwn, roedd ei gyngor yn cael ei adolygu'n gyson ac yn cael ei addasu cyn gynted ag yr oedd yn ddiogel i wneud hynny. Am y rheswm hwn, hyd yn oed cyn diwedd y cyfnod gwarchod cychwynnol, newidiodd ei gyngor i annog ymarfer corff yn yr awyr agored a chaniatáu cyfarfod yn yr awyr agored ag un aelwyd arall. Er bod hyn wedi'i gadarnhau mewn llythyr dilynol yn fuan wedi hynny, ystyriwyd ei bod mor bwysig caniatáu i hyn ddigwydd cyn gynted ag yr ystyriwyd ei bod yn ddiogel gwneud hynny, cafodd ei roi ar waith ar unwaith.

Rydym yn parhau i fonitro a newid y cyngor i warchod drwy gydbwyso amcanion y cyngor hwn a'r niwed perthynol sy'n gysylltiedig ag ef. Mae hyn yn cynnwys cyngor i'r rhai sy'n gwarchod fel rhan o'r ddarpariaeth i ganiatáu ar gyfer aelwydydd estynedig.

Caiff materion sy'n ymwneud â gwarchod eu hystyried gan bedwar Prif Swyddog Meddygol y DU ac yna rhoddir cyngor i Weinidogion o ganlyniad i'r trafodaethau hynny. Ar ôl i Brif Swyddogion Meddygol y DU gytuno i fabwysiadu canllawiau'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant mewn perthynas â gwarchod a phlant, rhesom wybod i aelodau o'r bwriad i adolygu'r Plant sydd ar y Rhestr o'r Cleifion a Warchodir ar hyn o bryd drwy ddatganiad ysgrifenedig, a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf<sup>6</sup>. Bydd y gweithgarwch hwn yn digwydd yn ystod yr haf ac, wrth i'r cyngor ar warchod gael ei atal o 16 Awst, gall pob plentyn ddychwelyd i'r ysgol ar gyfer tymor yr hydref. Fel rhan o'r cyhoeddiad hwn, recordiodd Prif Swyddog Meddygol Cymru fideo yn arbennig i blant er mwyn egluro'r newid hwn a chafodd hwn ei rannu drwy'r sianeli cyfryngau cymdeithasol addysg.

## 7. Cyllid

**(i) Mae'r Gronfa Gwella Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn rhan hanfodol o'r cymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed... Er ein bod yn cydnabod yr angen i ailbennu rhywfaint o weithgarwch a chyllid yn ystod y pandemig, rhaid i blant a phobl ifanc beidio â bod ar eu colled o ganlyniad i addasiadau i gyllidebau. Gofynnwn am dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru bod digon o arian ar gael i flaenoriaethu'r trawsnewid gwasanaethau sy'n ofynnol ym maes iechyd meddwl plant yng Nghymru ochr yn ochr â'r ymateb i'r pandemig hwn.**

I gadarnhau, cafodd y gronfa Gwella Gwasanaethau Iechyd Meddwl £7m ei hail-addasu fel rhan o'n hymateb cynnar i bandemig COVID-19. Yn gynnar iawn, gwnaethom bennu bod gwasanaethau iechyd meddwl yn 'wasanaethau hanfodol' ac i gefnogi hyn, gwnaethom gyhoeddi ar unwaith £3.5 miliwn o gyllid gwella gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer byrddau iechyd lleol er mwyn rhoi hyblygrwydd iddynt ymateb i'r pwysau sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa bresennol yn y maes iechyd meddwl. Roedd hyn yn cynnwys mynediad at ddarpariaeth argyfwng / allan o oriau a gwnaeth gynyddu mynediad at ymyriadau seicolegol.

Yn ddiweddar, rydym wedi ysgrifennu at fyrddau iechyd i ofyn am geisiadau am y cyllid gwella gwasanaethau £3.5 miliwn ar gyfer 2020/21 ac hefyd am y £7 miliwn o 2021/22 ymlaen. Bydd y cyllid yn cefnogi meysydd blaenoriaeth yn ein Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, gan gynnwys CAMHS / cymorth i blant a phobl ifanc a chynyddu mynediad at therapïau seicolegol. Rydym yn disgwyl derbyn y cynigion erbyn 7 Medi.

---

<sup>6</sup> [https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-newyddion-diweddaraf-am-warchod-ac-am-fabwysiadu-canllawiaur-coleg?\\_ga=2.151430398.670053566.1597917859-71721110.1540499195](https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-newyddion-diweddaraf-am-warchod-ac-am-fabwysiadu-canllawiaur-coleg?_ga=2.151430398.670053566.1597917859-71721110.1540499195)



To: Vaughan Gething MS

Minister for Health and  
Social Services

Via email only

26 August 2020

Dear Vaughan,

**Re: Welsh medium mental health provision for children and young people**

I am writing in relation specifically to progress made against recommendation 26 of the Children, Young People and Education Committee's *Mind Over Matter* report, published in 2018:

*That the Welsh Government ensure the T4CYP Programme undertake a comprehensive piece of work on the current and future availability of Welsh language emotional and mental health support services.*

As I reflected in my response to the committee's follow up consultation to *Mind over Matter*, I have not seen evidence that this comprehensive piece of work has been or is being undertaken.

I am also unclear as to where responsibility for this work now lies, following the changes to T4CYP's responsibilities.

I am pleased that the need for this work is recognised in the Together for Mental Health Delivery Plan as a priority, however I am concerned that there is little data published on availability of services or how often young people are actively offered a Welsh medium service.

I would be grateful for an update on the progress of Welsh Government against this recommendation.

Yours sincerely,



Sally



Tŷ Ystumllwynarth/Oystermouth House  
Llys Siarter/Charter Court, Phoenix Way  
Abertawe/Swansea SA7 9FS  
01792 765600

**comisiynyddplant.cymru**  
**childrenscommissioner.wales**

post@comisiynyddplant.cymru  
post@childrenscommissioner.wales

**Tudalen y pecyn 125**  
Croesawm ohebiaeth yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg ac mewn amryw o fformatau  
We welcome correspondence in the medium of Welsh and English as well as alternative formats

Sally Holland  
Comisiynydd Plant Cymru  
Children's Commissioner for Wales

cc. Jo Jordan, National Programme Director for Mental Health, NHS Wales

Jo Maddaford, Head of Children's Mental Health & Vulnerable Groups,  
Welsh Government

Lynne Neagle, Chair, Children, Young People and Education Committee

Aled Roberts, Welsh Language Commissioner



### **Y Bil Cwricwlwm ac Asesu – swyddogaethau'r Corff Llywodraethu mewn perthynas â'r cwricwlwm o dan y Bil**

#### **Mabwysiadu cwricwlwm (adran 11)**

Rhaid i'r pennaeth (o dan adran 10) gynllunio'r cwricwlwm sydd i'w fabwysiadu.

Rhaid i'r corff llywodraethu a'r pennaeth (o dan adran 11) fabwysiadu'r cwricwlwm a gynlluniwyd ar gyfer disgyblion yr ysgol, a chyhoeddi crynodeb o'r cwricwlwm a fabwysiadwyd.

#### **Adolygu a diwygio cwricwlwm (adran 12)**

Rhaid i gorff llywodraethu a phennaeth ysgol adolygu'r cwricwlwm a fabwysiadwyd yn rheolaidd, a sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion.

Rhaid i'r corff llywodraethu a'r pennaeth roi sylw i wybodaeth sy'n deillio o unrhyw drefniadau asesu.

Rhaid i'r corff llywodraethu a'r pennaeth ddiwygio'r cwricwlwm a fabwysiadwyd os ydynt o'r farn bod angen gwneud hynny er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion.

Ceir cyflawni pob un o'r swyddogaethau uchod ar y cyd.

Caiff y corff llywodraethu a'r pennaeth hefyd ddiwygio'r cwricwlwm a fabwysiadwyd os ydynt o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny ar unrhyw adeg, ac os gwnânt hynny rhaid iddynt gyhoeddi crynodeb o'r cwricwlwm diwygiedig.

#### **Datgymhwysu Saesneg fel elfen fandadol: ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir (adran 26)**

Caiff corff llywodraethu a phennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir wneud penderfyniad ynghylch elfen fandadol Saesneg.

Caiff corff llywodraethu a phennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir hefyd ddirymu eu penderfyniad.

Ceir cyflawni'r swyddogaethau hyn ar y cyd.

#### **Dyletswydd i sicrhau gweithrediad y cwricwlwm mabwysiedig (adran 29)**

Rhaid i gorff llywodraethu ysgol gyflawni ei swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau bod y cwricwlwm a fabwysiadwyd yn cael ei weithredu i ddisgyblion yr ysgol yn unol â'r Bil.

#### **Adolygiadau ac apelau sy'n ymwneud â dewis disgybl (adran 35)**

Lle bydd pennaeth wedi gwneud penderfyniad o dan adran 33 (datgymhwysu dyletswydd i weithredu dewis disgybl), caiff y disgybl dan sylw, neu ei riant, ei gwneud yn ofynnol i'r pennaeth adolygu'r penderfyniad. Os bydd yn anfodlon â phenderfyniad yr adolygiad, caiff y disgybl (neu ei riant) apelio at gorff llywodraethu'r ysgol yn erbyn y penderfyniad hwnnw.

Yn sgil apêl, caiff y corff llywodraethu—

(a) gadarnhau penderfyniad y pennaeth ynghylch yr adolygiad neu gyfarwyddo'r pennaeth i gymryd y camau y mae'n eu hystyried yn briodol, a

(b) rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'i benderfyniad i—

(i) y disgybl,

(ii) rhiant y disgybl, a

(iii) y pennaeth.

Rhaid i'r pennaeth gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir gan y corff llywodraethu.

Rhaid i'r corff llywodraethu a'r pennaeth gyhoeddi gwybodaeth yn amlinellu gweithdrefn ar gyfer adolygiadau ac apelau. Mae hon yn swyddogaeth i'w chyflawni ar y cyd.

#### **Gwaith datblygu ac arbrofion (adran 40)**

Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd o dan yr adran hon i bennaeth a chorff llywodraethu ysgol er mwyn ei gwneud yn bosibl gwneud gwaith datblygu neu arbrofion.

Gall y cyfarwyddyd ei gwneud yn ofynnol i'r pennaeth a'r corff llywodraethu roi adroddiad ar faterion penodedig.

#### **Gwaith datblygu ac arbrofion: amodau (adran 41)**

Mae'r adran hon yn amlinellu'r amodau y mae'n rhaid eu cyflawni cyn y gellir rhoi cyfarwyddyd o dan adran 40. Mae'r amodau hynny yn cynnwys gofyniad bod y corff llywodraethu un ai yn gwneud y cais neu'n rhoi ei gytundeb ei fod yn cael ei wneud. Mewn ysgol gymunedol, ysgol arbennig gymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir, lle mai'r corff llywodraethu sy'n gwneud y cais, rhaid i'r awdurdod lleol gytuno bod y cais yn cael ei wneud.

O ganlyniad i'r darpariaethau hyn, ni fydd Gweinidogion Cymru yn gallu rhoi cyfarwyddyd o dan adran 40 heb gytundeb y corff llywodraethu (neu oni bai bod y corff llywodraethu wedi gwneud y cais).

#### **Gwaith datblygu ac arbrofion: atodol (adran 42)**

Rhaid i bennaeth a chorff llywodraethu'r ysgol gyhoeddi crynodeb o'r cwricwlwm a gaiff ei weithredu yn sgil cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru i'w gwneud yn bosibl gwneud gwaith datblygu ac arbrofion.

#### **Darparu gwybodaeth am eithriadau dros dro (adran 46)**

Rhaid i bennaeth sy'n gwneud, sy'n amrywio neu sy'n dirymu penderfyniad o dan reoliadau a wneir o dan adran 44 (eithriadau dros dro yn achos disgyblion unigol) roi'r wybodaeth a ddisgrifir yn yr adran hon i'r corff llywodraethu.

#### **Apelau am eithriadau dros dro ar gyfer disgyblion unigol (adran 47)**

Lle bydd pennaeth ysgol yn gwneud, yn amrywio neu'n dirymu penderfyniad o dan adran 44 mewn perthynas â disgybl, neu lle na fydd yn gwneud penderfyniad pan ofynnir iddo wneud hynny, caiff y disgybl (neu ei riant) apelio at y corff llywodraethu.

Os gwneir apêl, caiff y corff llywodraethu—

(a) roi cyfarwyddyd i'r pennaeth, yn ysgrifenedig, i gymryd y cam y mae'n ei ystyried yn briodol mewn perthynas â'r penderfyniad, neu

(b) hysbysu'r pennaeth, yn ysgrifenedig, na roddir cyfarwyddyd o'r fath.

Rhaid i'r corff llywodraethu roi hysbysiad ysgrifenedig o'i benderfyniad i—

(a) y disgybl, a

(b) rhiant y disgybl.

Rhaid i'r pennaeth gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir gan y corff llywodraethu o dan yr adran hon.

### **Asesu a chynnydd (adran 58)**

Mae'r adran hon yn ei gwneud yn bosibl i reoliadau wneud darpariaeth ynghylch trefniadau asesu.

Caiff y rheoliadau osod dyletswyddau ar gorff llywodraethu.

### **Gofyniad cwricwlwm cyffredinol (adran 61)**

Rhaid i bennaeth a chorff llywodraethu ysgol a gynhelir sicrhau bod cwricwlwm disgyblion yr ysgol yn gwricwlwm cytbwys ac eang sydd—

(a) yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol y disgyblion a chymdeithas, a

(b) yn paratoi'r disgyblion ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd yn ddiweddarach.

Mae hon yn swyddogaeth i'w chyflawni ar y cyd.

### **Gofyniad cwricwlwm: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (adran 62)**

Rhaid i bennaeth ysgol a gynhelir sicrhau bod addysgu a dysgu sy'n digwydd ym maes Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cydymffurfio â'r adran hon. Rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir gyflawni ei swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau bod addysgu a dysgu ym maes Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn digwydd yn unol â'r adran hon.

### **Dyletswydd i roi sylw i ganllawiau (adran 66)**

Wrth gyflawni ei swyddogaethau, rhaid i'r corff llywodraethu roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddarperir gan Weinidogion Cymru.

### **Pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer plant sy'n cael addysg mewn mwy nag un lleoliad, etc. (adran 67)**

Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch addysgu a dysgu sydd i'w sicrhau i blant oedran ysgol gorfodol. Yn benodol, caiff y rheoliadau roi swyddogaethau i unrhyw berson a restrir yn is-adran (8), gan gynnwys y corff llywodraethu.



## **Y cefndir o ran rôl y corff llywodraethu a'r pennaeth mewn deddfwriaeth ar hyn o bryd**

Mae deddfwriaeth yn nodi ystod o ddyletswyddau a phwerau sydd gan gyrff llywodraethu. Y corff llywodraethu sy'n bennaf gyfrifol am sut y caiff ysgol ei rhedeg. Y pennaeth sy'n gyfrifol am reoli'r ysgol o ddydd i ddydd, ac fel rheol bydd yn aelod o'r corff llywodraethu.

Yn achos ysgol a gynhelir y dirprwyir cyllideb iddi, mae dyletswyddau'r corff llywodraethu yn cynnwys y canlynol, ymysg elfennau eraill:

- rhedeg yr ysgol gan hyrwyddo safonau uchel o ran cyrhaeddiad addysgol ac ymddygiad;
- ysgwyddo cyfrifoldeb cyffredinol dros gyfarwyddo'r ysgol – yn ymarferol mae hyn yn golygu creu polisi, a sut, mewn termau strategol cyffredinol, y dylid rhedeg yr ysgol;
- rheoli cyllideb yr ysgol.

Mae gan y corff llywodraethu gyfrifoldebau o ran y cwricwlwm. (O dan adran 100 o Ddeddf Addysg 2002), rhaid iddo sicrhau bod cwricwlwm yr ysgol yn gytbwys ac eang. Mae pennaeth yr ysgol, a'r awdurdod lleol, o dan yr un ddyletswydd. Rhaid i gyrff llywodraethu a phenaethiaid (o dan adran 109 o Ddeddf Addysg 2002) sicrhau bod y Cwricwlwm Cenedlaethol yn cael ei weithredu yn yr ysgol. Mae'r awdurdod lleol o dan yr un ddyletswydd.

Mae'n ofynnol i'r pennaeth sicrhau bod y Cwricwlwm Cenedlaethol yn cael ei weithredu yn yr ysgol. Mae'r pennaeth yn gyfrifol am drefniadau mewnol yr ysgol, a sut y caiff ei rheoli, ac am weithredu'r fframwaith strategol a sefydlwyd gan y corff llywodraethu.

Bydd y pennaeth hefyd yn cynghori'r corff llywodraethu ynghylch sefydlu ac adolygu'r fframwaith strategol, ac yn benodol bydd yn llunio'r canlynol (y caiff y corff llywodraethu eu mabwysiadu (gyda neu heb addasiadau) neu eu gwrthod):

- nodau ac amcanion ar gyfer yr ysgol;
- polisiau ar gyfer yr ysgol er mwyn cyflawni'r nodau a'r amcanion a bennwyd gan y corff llywodraethu; a
- targedau ar gyfer cyflawni'r nodau a'r amcanion hynny.

At: Kirsty Williams

Gweinidog Addysg

Trwy e-bost yn unig

18 Awst 2020

Annwyl Weinidog,

Rwy'n croesawu penderfyniad ddoe i ddyfarnu arholiadau'r haf ar sail graddau asesu canolfannau. Diolch am wneud y penderfyniad cywir; i mi mae hynny'n dystiolaeth bod pobl ifanc yn ddinasyddion gweithredol yng Nghymru, a bod eu lleisiau a'u profiadau fel unigolion yn bwysig.

Fel y gwyddoch, fe gododd fy swyddfa sawl pryder ynghylch y broses ddyfarnu ac apeliadau gyda chi, eich swyddogion a Cymwysterau Cymru. Mae manylion fy mhryderon cychwynnol i'w gweld yn fy llythyr dyddiedig 22 Mai, a anfonwyd ar y cyd â'r EHRC, a cheir esboniad llawnach arnynt yn fy ymateb i ymgynghoriad Cymwysterau Cymru ar 13 Mai.

Er i mi fod mewn cyswllt rheolaidd â'r Llywodraeth a Cymwysterau Cymru ynghylch fy mhryderon parhaus yn y cyfnod ers mis Mai, rwyf wedi ymatal yn fwriadol rhag cyhoeddi unrhyw feirniadaeth ar y broses ddyfarnu cyn 13 Awst, er mwyn osgoi unrhyw awgrym a fyddai'n tanseilio cyflawniadau'r bobl ifanc oedd yn derbyn canlyniadau.

Fodd bynnag, ar ddiwrnod y canlyniadau daeth yn amlwg nad oedd y model safoni yn gweithio. Roedd llawer gormod o bobl ifanc yn derbyn canlyniadau anghyfiawn. Yn fuan iawn daeth defnyddio asesiadau'r canolfannau yn unig gam teg i'w gymryd, ac fe elwais innau am hynny yn [fy natganiad ar fore 17 Awst](#).

Ar hyd y broses hon, rwyf wedi derbyn bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gyflym, mewn ymateb i heriau oedd heb eu rhagweld. Serch hynny, mae'n rhaid i minnau wneud popeth o fewn fy ngallu i sicrhau bod y penderfyniadau hynny'n rhoi blaenoriaeth i les pennaf a hawliau dynol plant a phobl ifanc. Gan gadw hyn mewn cof, byddwn i'n hoffi amlygu'r camau gweithredu allweddol canlynol y mae'n rhaid eu cymryd yn awr i sicrhau hynny yn y dyfodol agos, canolig a hirdymor.

Camau i'w cymryd ar unwaith mewn perthynas â dyfarniadau haf 2020:

- bod Cymwysterau Cymru yn adolygu dadansoddiad cydraddoldeb o'r graddau asesu gan ganolfannau ac yn ei gyhoeddi er mwyn sicrhau tryloywder ynghylch unrhyw duedd yn asesiadau canolfannau;



Tŷ Ystumllwynarth/Oytermouth House  
Llys Siarter/Charter Court, Phoenix Way  
Abertawe/Swansea SA7 9FS  
01792 765600

**comisiynyddplant.cymru**  
**childrenscommissioner.wales**

post@comisiynyddplant.cymru  
post@childrenscommissioner.wales

**Tudalen y pecyn 131**

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg ac mewn amryw o fformatau  
We welcome correspondence in the medium of Welsh and English as well as alternative formats

- bod tystiolaeth o unrhyw duedd yn asesiadau canolfannau a ddangosir gan y dadansoddiad hwn yn gallu cael ei defnyddio gan ymgeiswyr yn rhan o'u sail ar gyfer apelio yn erbyn eu gradd;
- bod pobl ifanc yn derbyn gwybodaeth hygyrch a chlir ynghylch sut mae apelio ynghylch gradd asesu canolfan a bod canolfannau a Chyrff Llywodraethu yn cael gwybodaeth glir ynghylch eu rôl yn yr apêl hon;
- bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda gweinyddiaethau eraill y Deyrnas Unedig i sicrhau hyblygrwydd trefniadau derbyn i brifysgolion, fel y galwyd amdano yn fy [natganiad ar y cyd â Chomisiynwyr eraill y Deyrnas Unedig](#);
- bod unrhyw ymgeisydd sy'n dymuno ailsefyll cymwysterau yn cael eu hysbysu bod modd iddyn nhw wneud hynny heb wynebu cost ariannol bersonol.

#### Camau tymor canolig i'w cymryd mewn perthynas â chyfres arholiadau 2021:

- rhaid bod cynllun wrth gefn yn ei le ar gyfer atal arholiadau yn y flwyddyn academaidd hon, a dylai hynny gynnwys gwreiddio cerrig milltir asesiadau athrawon yn y flwyddyn academaidd hon;
- os caiff arholiadau eu canslo, mae angen sicrhau bod proses glir yn ofynnol ar gyfer unrhyw asesiad a gyflwynir ar lefel canolfan. Rhaid i hynny gynnwys cymedroli mewnol ar asesiadau'r ganolfan, ar sail canllawiau clir, a rhaid sicrhau hefyd bod cymedroli allanol ar y broses hon yn digwydd gan y corff dyfarnu mewn modd sy'n cyfateb i'r broses arferol o asesu gwaith cwrs;
- rhaid cwblhau Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ac asesiad llesiant i lywio'r cynllunio ar gyfer 2021, a dylid cymryd hynny i ystyriaeth wrth benderfynu ar strwythur a chynnwys asesu ar gyfer cymwysterau. Rwyf hefyd yn argymhell yn gryf bod y Llywodraeth yn cwblhau Asesiad Effaith ar Hawliau Plant o'r cyngor a roddwyd gan Cymwysterau Cymru ynghylch sut i symud ymlaen y flwyddyn nesaf. Rwy'n falch o weld cyhoeddiadau lle mae Cymwysterau Cymru yn gofyn bod CBAC yn addasu rhai arholiadau, ac mae'n rhaid i'r ystyriaeth hon estyn ar draws pob cwrs. Ni ddylai pobl ifanc sydd eisoes wedi colli cryn dipyn o addysgu wynebu pwysau diangen i gwblhau cyrsiau llawn, a dylid canolbwyntio'n hytrach ar ansawdd y dysgu. Mae fy swyddfa eisoes wedi cynnig adolygu asesiadau effaith i Cymwysterau Cymru, ac rwy'n ategu'r cynnig hwnnw yma;
- rhaid i Cymwysterau Cymru ddarparu eu canllawiau a'u hyfforddiant eu hunain ynghylch sut mae osgoi tueddiadau ymwybodol ac anymwybodol wrth asesu. Eto, mae fy swyddfa'n barod i gynnig cyngor neu adolygu deunyddiau, a byddai cyrff eraill yng Nghymru megis EHRC hefyd yn cynnig cymorth amhrisiadwy;

- o ran eleni, mae pobl ifanc wedi wynebu cryn darfu ar eu haddysg, a dylai unrhyw ymgeisydd sy'n dymuno ailsefyll cymwysterau fedru gwneud hynny ar y cyfle cynharaf heb wynebu cost ariannol bersonol.

### Goblygiadau tymor hwy:

Mae'n rhaid i ni gydnabod bod dyfarnu cymwysterau yn amherffaith yr haf yma, ond mewn gwirionedd bod y system arholi arferol hefyd yn amherffaith. Fel mae llawer o ddogfennau wedi dangos, nid yw mesurau atebolrwydd a pherfformiad ysgolion wedi rhoi blaenoriaeth yn hanesyddol i les pennaf plant a phobl ifanc unigol. Dangosodd [fy ymgynghoriad cenedlaethol yn 2019](#) hefyd fod arholiadau ac asesu yn bryder llesiant allweddol i bobl ifanc, ac yn gallu tanseilio ymdrechion ysgolion a cholegau i ddiogelu llesiant a iechyd meddwl pobl ifanc.

Mae hefyd yn wir nad yw'r graddau TGAU a ddyfarnir i gyfran sylweddol o bobl ifanc yng Nghymru, fel yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig, yn cefnogi eu hunanbarch a'u hyder, nac yn eu galluogi i symud ymlaen ym myd addysg.<sup>1</sup> Yn wir, mae safoni'r system addysg i bob pwrpas yn gofyn bod canran o bobl ifanc yn methu bob blwyddyn, a chan fod addysg orfodol yn dod i ben yn 16 oed, nid yw rhai o'r bobl ifanc hynny'n cael unrhyw gyfleoedd pellach i ddatblygu eu dysgu.

Dylem ni ddefnyddio'r haf eithriadol hwn i ailfeddwl ynghylch rhai o'r elfennau oedd yn cael eu cymryd yn ganiataol cyn y cyfnod yma. Dylid edrych eto ar y cynigion a gyflwynwyd mewn ymateb i [ymgynghoriad cyfnod 1 Cymwys ar gyfer y Dyfodol](#) yng ngoleuni'r heriau i'r system eleni, a dylid craffu hefyd ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) fel cyfle i Gymru roi fframwaith deddfwriaethol ar waith sy'n gofyn bod asesu allanol yn gweithredu er lles pennaf plant a phobl ifanc. Byddai dyletswydd sylw dyledus i CCUHP yn un ffordd o gyflawni hynny.

Byddaf hefyd yn anfon y llythyr hwn at y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i lywio trafodaeth barhaus ar y materion hyn.

Yn gywir,



Sally

---

<sup>1</sup> [https://www.ascl.org.uk/ASCL/media/ASCL/Our%20view/Campaigns/The-Forgotten-Third\\_full-report.pdf](https://www.ascl.org.uk/ASCL/media/ASCL/Our%20view/Campaigns/The-Forgotten-Third_full-report.pdf)

Sally Holland  
Comisiynydd Plant Cymru  
Children's Commissioner for Wales

cc: Philip Blaker, Prif Weithredwr, Cymwysterau Cymru

Ian Morgan, Prif Weithredwr, CBAC



Kirsty Williams AS/MS  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Suzy Davies MS  
Member of the Senedd for South Wales West

[Suzy.Davies@senedd.wales](mailto:Suzy.Davies@senedd.wales)

20 July 2020

Dear Suzy,

The role of the RSE Working Group is to inform and assist with the design of the new RSE guidance, working closely with practitioners on its re-drafting following the public consultation in 2019.

We have a broad range of stakeholders on the group, including a representative from the Office of the Children's Commissioner, who provide independent advice and challenge in relation to the development of the RSE statutory guidance.

We recognise that the provision of RSE to children and young people is a sensitive matter and our consultation on ensuring access to the full curriculum reflected strong and deeply held views. We understand the need to work with communities and other interested parties in co-constructing the learning and teaching for RSE, and in developing a shared understanding of the issues and the sensitivities. This is why in addition to the RSE Working Group we recently established a BAME/Faith Communities Involvement Group to help co-construct the new RSE guidance.

One of the key roles of the Involvement Group is to consider how to best engage with children and young people. Part of this is to ensure that as we co-construct the guidance the voice of children will be heard, which will be done through a range of focus groups across our communities.

As with the development of the wider Curriculum for Wales we are mindful that participation is a key principle of the UNCRC. In developing their curricula we expect schools to involve learners, parents, carers, partner agencies and the local community. This is an important means of ensuring the curriculum meets learners' needs and is authentic to their context within the national framework. Schools and practitioners also play a critical role in ensuring learners, parents, carers and communities understand the vision and ethos underpinning the curriculum.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

The 'Designing your curriculum' section of the Curriculum for Wales specifically refers to schools 'Working with parents, carers and stakeholders' as well as with learners themselves to develop their curriculum within the Curriculum for Wales framework. Subject to enactment of the Bill, the framework will comprise of statutory codes, statutory guidance and non-statutory guidance.


You may also be interested in the following links:

Education is changing website aimed at parents - <https://gov.wales/education-changing>. This helped inform parents meaning that they could respond to the consultation on the draft curriculum in April 2019.

A guide for children, young people and families is also available to help involve them in this process: <https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/a-new-curriculum-in-wales-a-guide-for-children-young-people-and-families/>

We are satisfied that the Welsh Ministers have had due regard to the rights of the child protected by Article 12 of the UNCRC. We will continue to do so.

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams', written in a cursive style.

**Kirsty Williams AS/MS**  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education

## CYPE(5)-20-20 - Papur i'w nodi 19

Lynne Neagle, MS  
Chair, Children, Young People and Education Committee  
National Assembly for Wales  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1NA

Dr. Sarah Witcombe-Hayes  
Wales Coordinator  
Everyone's Business Campaign  
Maternal Mental Health Alliance

28<sup>th</sup> August 2020

Dear Lynne Neagle, Chair of Children, Young People and Education Committee

The Maternal Mental Health Alliance (MMHA) is writing in response to the follow up work that the Children, Young People and Education Committee has been undertaking on its inquiry into perinatal mental health in Wales.

The MMHA is an independent charity and coalition of 90+ UK organisations, working across the UK. We bring the sector together to speak with one voice, campaigning for change and supporting local systems to improve perinatal mental health care. Our [Everyone's Business campaign](#) aims to improve the lives of all women throughout the UK who experience perinatal mental health problems.

A key tool in our campaigning are our maps which visually chart each UK nation's progress towards meeting the CCQI perinatal quality network standards. The MMHA has been campaigning to 'turn the map green', as a crucial first step to ensuring all women throughout the UK who experience perinatal mental health problems receive the care they and their families need, wherever and whenever they need it.


We would like to draw the Committee's attention to the [latest MMHA maps](#), launched last week, which show that there has been a small improvement in services available to women and their families in [Wales](#) since 2017. The MMHA welcomes encouraging signs of progress, including increased investment in specialist perinatal mental health services since 2015, plans to open an interim Mother and Baby Unit, and Welsh Government's commitment to improving access and quality of perinatal mental health services as indicated in the [Together for Mental Health Delivery Plan](#). We also recognise the work of The Children, Young People and Education Committee and the Wales Perinatal Mental Health Network, which has been instrumental in driving improvements forward.

However, we are disappointed that this progress has not translated into significant developments in perinatal mental services for women and their families. New data shows that only two out of the seven (29%) health boards in Wales meet CCQI perinatal quality network standards, and women in Wales still face a postcode lottery when it comes to perinatal mental health care. Service development has not been equal across all health



boards, meaning the area in which a new or expectant mum lives continues to determine the support she and her family can access.

## The story so far




Specialist perinatal mental health services save lives, they provide expert treatment and are a crucial foundation for supporting and driving improvements across the wider perinatal mental health pathway. When an area has fully resourced, high-quality specialist services, with a team of trained staff, it can make all the difference to early identification of perinatal mental health problems, mother's quality of care, recovery time and support for her, her partner and their relationship with the baby.

In the wake of COVID-19, where we know that families are facing higher levels of anxiety, and perinatal mental health experts predict an increase in referrals to specialist services, we feel there is greater need for decision makers to [PLAN](#) to address the mental health needs of women and their families during and beyond the pandemic. We are concerned that the current funding for perinatal mental health services may not be sufficient to 'turn the map green' in Wales and ensure all services meet quality standards. We also worry about the impact the current crisis may have on reaching the crucial milestones in the Together for Mental Health Delivery Plan.

As we begin to move toward recovery from COVID-19, we feel it is important to understand more about the impact of the pandemic on the perinatal mental health work plans, as raised by the Minister for Health and Social Services in his last update to the Committee (ref: MA/VG/1382/20). When it is deemed an appropriate time, we would welcome an update from the Minister on the development of plans to open the interim mother and baby unit. Once normal monitoring arrangements have resumed, we would also welcome an update on progress against perinatal mental health services achieving the All Wales Standards and the CCQI standards.

The MMHA would welcome any opportunities to support the Committee's work to improve perinatal mental health care for women and their families in Wales. We are available to provide further written or oral evidence, should this be useful.

Yours Sincerely,

A handwritten signature in black ink, consisting of a large, stylized 'S' followed by the initials 'WH'.

Dr. Sarah Witcombe-Hayes

Wales Coordinator

Everyone's Business Campaign, Maternal Mental Health Alliance

# Eitem 6.20

CYPE(5)-20-20 - Papur i'w nodi 20

Lynne Neagle MS  
Welsh Parliament  
Cardiff  
CF99 1SN



27 August 2020

Dear Ms Neagle,

We hope this correspondence finds you well.

On behalf of Universities Wales, I just wanted to take some time to convey our thanks to you as chair and to the members and support staff of the CYPE Committee. The work undertaken by the committee to highlight the challenges facing the Welsh higher education sector as a result of Covid-19 has been invaluable.

The committee has been instrumental in scrutinising the response of the Welsh Government, securing important debate within the Senedd and in producing an insightful report looking at the impacts of Coronavirus on children, young people and the education sector as a whole.

Our engagements with the committee have been both thought-provoking and productive. Whilst there will undoubtedly be further challenges to navigate as we continue to grapple with the virus, universities across Wales are working hard to ensure that when students return to campus in September, they are kept safe and well but also benefit from a truly transformative and high quality experience.

We look forward to our continued work with the committee and to supporting its work in delivering the very best for the children, young people and education sector in Wales.

Kind Regards,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'A. Wilkinson', is written over a light blue horizontal line.

Amanda Wilkinson

Director, Universities Wales

**Universities Wales** (Unis Wales)  
2 Caspian Point, Caspian Way, Cardiff CF10 4DQ

Director: Amanda Wilkinson  
+44 (0)29 2044 8020 [www.uniswales.ac.uk](http://www.uniswales.ac.uk)

A National Council of Universities UK  
Company limited by guarantee, registered in England and Wales No. 2517018  
2517018  
Charity No. 1001127

**Prifysgolion Cymru**  
2 Pentir Caspian, Ffordd Caspian, Bae Caerdydd CF10 4DQ

Cyfarwyddwr: Amanda Wilkinson  
+44 (0)29 2044 8020 [www.uniswales.ac.uk](http://www.uniswales.ac.uk)

Un o Gyngorau Cenedlaethol Prifysgolion y DU  
Cwmni cyfyngedig trwy warant, a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr Rhif

Rhif Elusen 100112

Senedd Cymru

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Welsh Parliament

Children, Young People and Education Committee

Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg

Dyddiad | Date: 14 Medi 2020

Pwnc | Subject: **Addysgu o bell a dulliau addysg ysgol yng nghyd-destun COVID-19**


Annwyl Kirsty,

Ym mis Gorffennaf 2020, fel rhan o'n gwaith parhaus ar effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc, gwnaethom gomisiynu adolygiad cyflym o ymchwil a chanllawiau ymarferol ar strategaethau i weithredu dull addysgu a dysgu o bell ar lefel ysgol, gan gynnwys enghreifftiau mewn gwledydd eraill. Gwnaed y gwaith hwn gan yr Athro Sofya Lyakhova o Brifysgol Abertawe, fel rhan o [gynllun Cofrestr Arbenigwyr COVID-19 Ymchwil y Senedd](#).

Comisiynwyd yr adolygiad cyflym hwn o ymchwil a chanllawiau cyn cyhoeddiadau ynghylch dychwelyd i'r ysgol, gyda bwriad o ddarparu cyfraniad adeiladol i'r gwaith cynllunio wrth gefn parhaus y mae ein gwasanaethau cyhoeddus yn ei wneud mewn ymateb i'r pandemig. Atodaf gopi er gwybodaeth i chi a swyddogion, a gobeithio y bydd yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol wrth i chi gynllunio ar gyfer y cyfnod sydd i ddod.

Er bod y papur hwn yn sôn am ddysgu o bell, hoffwn ailadrodd ein barn bod cadw ysgolion a cholegau ar agor yn gorfod bod yn brif flaenoriaeth i'r holl wasanaethau cyhoeddus. Mae'r canlyniad anuniongyrchol y mae'r argyfwng iechyd cyhoeddus hwn wedi'i achosi i blant a phobl ifanc wedi bod yn sylweddol. Fel y cyfryw, rydym yn croesawu'r camau a gymerwyd gennych i sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc yn cael cyfle i fynd i sesiynau 'ailgydio' mewn ysgolion a cholegau cyn gwyliau'r haf, ac i ddychwelyd yn amser llawn yn nhymor yr hydref. Er bod angen cynlluniau wrth gefn o hyd, rydym o'r farn mai dim ond pan fetho popeth arall y dylid cau ysgolion a cholegau.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AS****Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 SeneddPPIA@senedd.cymru 0300 200 6565**Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 SeneddCYPE@senedd.wales 0300 200 6565

# Addysgu o Bell a Dulliau Addysg Ysgol yng Nghyd-destun COVID-19

Sofya Lyakhova

Awst 2020

*Adran Mathemateg, Prifysgol Abertawe.*

*E-bost: [s.lyakhova@swansea.ac.uk](mailto:s.lyakhova@swansea.ac.uk)*

Cynhyrchwyd y papur hwn o dan gynllun [Cofrestr Arbenigwyr COVID-19 Ymchwil y Senedd](#), lle mae academyddion perthnasol yn cynorthwyo'r Senedd gyda'i gwaith yn ymwneud â phandemig COVID-19 a'i effeithiau, gan ganolbwyntio'n benodol ar Gymru. Fe'i comisiynwyd ar gais y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i lywio ei [ymchwiliad i effaith pandemig COVID-19 ar blant a phobl ifanc yng Nghymru](#).

Athro Cyswllt mewn Mathemateg ym Mhrifysgol Abertawe yw Sofya Lyakhova, ac mae ganddi ddiddordeb ymchwil mewn dysgu cyfunol, datblygu cwricwlwm ysgol, dewis myfyrwyr mewn addysg fathemateg, a phontio i raddau STEM yn y brifysgol. Mae Sofya wedi bod yn arwain Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ym Mhrifysgol Abertawe ers i'r rhaglen gael ei lansio yn 2010. Datblygodd y rhaglen ddull dysgu cyfunol ar gyfer Mathemateg Bellach Safon UG a Safon Uwch, gyda myfyrwyr ledled Cymru yn dilyn y cyrsiau o bell.

## 1. Cyflwyniad

Mae'r papur yn adolygiad cyflym o ymchwil a chanllawiau ymarferol ar strategaethau ar gyfer cyflwyno trefniadau addysgu a dysgu o bell ar lefel ysgolion. Roedd y ffynonellau a ystyriwyd yn cynnwys adroddiadau sy'n gysylltiedig â COVID-19 a llenyddiaeth ymchwil gyffredinol ynglŷn ag addysgu o bell. Oherwydd cyfyngiadau amser, nid yw'r adroddiad hwn yn adolygiad cyflawn o lenyddiaeth ar yr ystod lawn o strategaethau dysgu o bell a dysgu cyfunol. Dylid ei ystyried, felly, yn fan cychwyn ar gyfer datblygu trafodaethau am gyflwyno trefniadau addysgu o bell, boed yn y tymor byr neu'r tymor hir. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio'n benodol ar addysgu a dysgu, er y daw rhai materion ehangach i'r amlwg yn ymwneud â rhoi dulliau addysgu o bell ar waith.

Mae traddodiad hir o ddefnyddio terminoleg cydgyfnewidiol mewn perthynas ag addysgu o bell mewn ymchwil a llenyddiaeth broffesiynol. Rydym felly yn egluro'r derminoleg yn gyntaf. Drwy gydol y papur rydym yn cyfeirio at addysgu o bell pryd bynnag y mae dysgwyr yn cael eu gwahanu oddi wrth yr athro drwy bellter am beth amser (efallai ddim trwy'r amser). Ystyrir mai addysgu o bell yw'r gwrthwyneb i addysgu traddodiadol wyneb yn wyneb mewn ystafell

ddosbarth, a gallai fod yn gyfan gwbl o bell os nad oes gweithgareddau wyneb yn wyneb. Yn y bôn, mae addysgu o bell yn golygu bod myfyrwyr yn yr ysgol am lai o amser (os o gwbl) tra bod yr addysgu'n parhau pan nad ydynt yn bresennol. Nid yw addysgu o bell o reidrwydd yn golygu addysgu ar-lein gan y gallai fod yn seiliedig ar dechnoleg print, teledu neu radio yn lle hynny.

Mae unrhyw ddysgu yn ymgorffori gweithgareddau rhyngweithiol a rhai unigol, fel gwaith dosbarth a gwaith cartref mewn addysgu wyneb yn wyneb amser llawn. Adlewyrchir y nodwedd hon mewn dwy o briodoleddau addysgu a dysgu o'r enw gweithgareddau anghydamserol ('yn fy amser fy hun', 'ar fy mhen fy hun') a gweithgareddau cydamserol ('ar yr un pryd', 'gydag eraill'). Gall addysgu o bell gynnwys gweithgareddau cydamserol (megis gwersi ar-lein, sgwrsio cydweithredol) yn ogystal â gweithgareddau anghydamserol (megis gwyllo fideo wedi'i recordio ymlaen llaw, cwblhau prawf ar gyfrifiadur, darllen llyfr neu ysgrifennu nodiadau). Mae dysgu cyfunol yn derm a ddefnyddir yn draddodiadol i nodi bod cwrs yn gyfuniad o ddysgu ar-lein a dysgu wyneb yn wyneb, ond mae hefyd yn pwysleisio bod dysgu'n digwydd drwy weithgareddau y mae dysgwyr yn eu gwneud ar eu pen eu hunain (anghydamserol) a'r rhai maent yn eu gwneud gyda'r athro a/neu ddysgwyr eraill (cydamserol).

Mae'r papur wedi'i drefnu fel a ganlyn. Mae Adran 2 yn rhoi cyflwyniad byr i addysgu o bell yn nhermau hanesyddol, damcaniaethol ac addysgol. Ystyrir tystiolaeth ynglŷn â dulliau ymarferol yng nghyd-destun COVID-19 yn Adran 3, gan gynnwys yr effaith ar ddysgwyr; cyngor sy'n dod i'r amlwg ynghylch lliniaru'r effaith; a'r cynlluniau sydd ar gael ynglŷn ag ailagor ysgolion. Yn Adran 4, trafodir dulliau cyffredinol o addysgu o bell. Mae Adran 5 yn amlinellu'r argymhellion. Mae rhywfaint o'r derminoleg a ddewiswyd wedi'i hargraffu mewn print trwm fel y gellir dod o hyd iddi'n haws yn y ddogfen, ac ni ddylid dehongli hyn fel pwyslais ar y datganiadau.

## 2. Addysgu o Bell: cyd-destunau hanesyddol ac addysgol

Yn hanesyddol, dechreuodd addysgu o bell ym maes dysgu oedolion ac fe'i gwerthfawrogir fel modd o sicrhau cyfiawnder cymdeithasol ac ehangu mynediad at addysg ac, ar lefel ysgolion yn benodol, fel modd o sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau. Mae llawer o wybodaeth ar gael am fanteision a heriau dysgu o bell i ddysgwyr, gweler Tabl 1, ac mae'r ddau yn ymwneud â dau o brif nodweddion addysgu o bell (gweler, e.e. Lyakhova a Joubert a'r chyfeiriadau ynddo, 2019). Prin yw'r cyfleoedd am ryngweithio cymdeithasol ac adborth amser real, ond mae'n bosibl y gallai'r cyfleoedd estynedig i fyfyrion a gwneud gwaith unigol, ynghyd â'r lefel uwch dybiedig o ymreolaeth i ddysgwyr, wneud iawn am hyn.

Tabl 1. Cipolwg ar addysgu o bell.

Yr hyn a werthfawrogir	Heriau hysbys posibl i ddysgwyr (gellid eu hosgoi)	Manteision hysbys posibl i ddysgwyr (nid oes sicrwydd yn eu cylch)
<ul style="list-style-type: none"> <li>- cyfiawnder cymdeithasol ac ehangu mynediad mewn addysg</li> <li>- cyfrannu at wydnwch mewn addysg trwy fynediad,</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- myfyrwyr yn colli diddordeb</li> <li>- cyfraddau cwblhau isel</li> <li>- mwy o deimlad o fod wedi'ch ynysu</li> <li>- llwyth gwaith uwch</li> <li>- prinder cyfleoedd rhyngweithio cymdeithasol</li> <li>- cymryd sgiliau dysgu annibynnol yn ganiataol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- mynediad ato unrhyw le ac mewn unrhyw ffordd (dewis o ran cyflymder/lleoliad)</li> <li>- amgylchedd mwy cynhwysol</li> <li>- cefnogaeth i fyfyrwyr nad ydynt yn ymateb yn dda i 'ddulliau dysgu traddodiadol' (myfyrwyr mwy galluog, llai galluog, a rhai ag anabledau)</li> </ul>

ansawdd, cost a chynhwysiant	- mynediad at dechnoleg	- ysgogi sgiliau dysgu annibynnol - cysylltiad cryf â chyflawniadau dysgwyr
------------------------------	-------------------------	--

Mae hyn yn esbonio pam mae gwella gallu myfyrwyr i arwain eu proses ddysgu eu hunain, megis drwy strategaethau **hunanreoleiddio** dysgwyr, yn cael ei ystyried yn bwysig i addysgu o bell felly (Kintu *et al.*, 2017). Ystyr strategaethau hunanreoleiddio dysgwyr yw pan mae dysgwyr yn bwrw ati ar eu liwt eu hunain ac yn defnyddio technegau hunanreoleiddio sy'n gysylltiedig â chynllunio, gwerthuso a cheisio cymorth (gweler, e.e. Atodiad A) i wella eu dysgu. Mae dysgwyr hunanreoleiddig yn mynd ati'n ymwybodol i ddefnyddio'r rhain i wneud iawn am ddiffygion yn eu harferion dysgu, eu galluoedd neu eu hamgylcheddau. Er y gallai fod angen strategaethau hunanreoleiddio ar fyfyrwyr sy'n ymdopi ag addysgu o bell, gall addasu i amgylcheddau dysgu newydd hefyd ysgogi hunanreoleiddio cynyddol mewn dysgwyr. Mae rhyngweithio cymdeithasol a datblygu arferion cefnogi a chydweithio ymhlith cyfoedion yn yr ystafell ddosbarth (boed ar-lein neu yn y modd traddodiadol) yn hanfodol ar gyfer ysgogi hunanreoleiddio.

Roedd y mathau cyntaf o ddysgu o bell yn **anghydamserol** yn bennaf ('yn eich amser eich hun'), wrth gyfnewid ffynonellau ysgrifenedig a thestunau drwy'r post er enghraifft, ond ar ôl i radio a theledu gael eu dyfeisio roedd dysgu **cydamserol** ('ar yr un pryd') ar gael ar raddfeydd mawr. Erbyn heddiw, gall cwrs **dysgu cyfunol** ymgorffori gweithgareddau cydamserol ac anghydamserol wyneb yn wyneb, byw ar-lein ac all-lein ar gyfrifiadur, a gellir eu cynllunio ar gyfer rhyngweithio â channoedd o filoedd o ddysgwyr.

Dangosodd astudiaethau cymharol cynnar y gallai cyrsiau **dysgu cyfunol** fod yn fwy effeithiol na dulliau addysg sydd naill ai'n gyfan gwbl wyneb yn wyneb neu'n gyfan gwbl ar-lein. Gellid egluro hyn gan y ffaith bod yr ystafell ddosbarth wyneb yn wyneb yn amgylchedd mwy cydweithredol na myfyriol, tra mai cryfder dysgu ar-lein (anghydamserol) yw'r cyfle i fyfyrwyr a gweithio'n drylwyr (Garrison a Vaughan, 2008 t.19), ac mae **dysgu cyfunol** fel cyfuniad o gyfleoedd dysgu rhyngweithiol (**cydamserol**) a rhai ar-lein (**anghydamserol**) yn integreiddio cryfderau'r ddau ohonynt. Mae gan yr elfen **anghydamserol** o ddysgu cyfunol gysylltiad cryf â chyflawniadau dysgwyr ac rydym yn gwybod ei fod yn lleihau llwyth gwybyddol ond yn gwella gwybyddiaeth a dysgu.

Yr elfen sy'n creu ac yn cynnal dysgu yw'r athro. Dangosodd ymchwil fod profiad dysgwyr o fod ym mhresenoldeb yr athro yn wahanol wrth ddysgu wyneb yn wyneb o'i gymharu â dysgu ar-lein (Garrison a Vaughan, 2008). Mae profiad dysgu wyneb yn wyneb yn canolbwyntio mwy ar yr athro, ac ystyrir bod yr athro yn trosglwyddo gwybodaeth, tra bod y profiad dysgu ar-lein yn canolbwyntio mwy ar yr elfen wybyddol neu fewnol. O safbwynt dysgwyr, mae rôl yr athrawon sy'n addysgu o bell yn newid i fod yn hyfforddwr neu'n hwylusydd dysgu. Ac eto, yn bedagogaid mae'r un fath wrth addysgu o bell ag ydyw mewn unrhyw amgylchedd addysgu arall; swyddogaeth yr athro yw rhoi strwythur, hwyluso a rhoi cyfeiriad ar gyfer dilyniant dysgu.

Gellir dadlau y gallai addysgu o bell wedi'i gynllunio hwyluso presenoldeb cymdeithasol, gwybyddol ac addysgu ac mae enghreifftiau ar gael o ganlyniadau da ymhlith dysgwyr ar gyrsiau addysgu o bell. Fodd bynnag, gallai'r sefyllfa fod yn wahanol wrth addysgu o bell mewn argyfwng. Gall hefyd fod yn wahanol gyda dysgwyr iau gan fod tystiolaeth ynglŷn â defnyddio addysgu o bell ar lefel ysgolion yn brin yn gyffredinol.

### 3. Addysgu o Bell mewn Argyfwng a thueddiadau rhyngwladol mewn dulliau addysg ysgol yng nghyd-destun COVID-19

Dyma ddiffiniad Hodges et al. (2020) o Addysgu o Bell mewn Argyfwng: “a temporary shift of instructional delivery to an alternate delivery mode due to crisis circumstances. It involves the use of fully remote teaching solutions for instruction or education that would otherwise be delivered face-to-face or as blended or hybrid courses and that will return to that format once the crisis or emergency has abated”. Nid yw prif nod Addysgu o Bell mewn Argyfwng, felly, yn ymwneud ag ail-greu system addysgol gadarn. Yn hytrach, mae'n ymwneud â threfnu ffyrdd o ddarparu, dulliau a chyfryngau i ymateb i anghenion newidiol sefydliadau addysgol yn gyflym pan fydd cyfyngiad o ran cael mynediad at adnoddau, cefnogaeth a hyfforddiant am gyfnod cyfyngedig.

Mae nifer o ganllawiau ac adroddiadau yn nodi bod angen datrys problemau'n greadigol yn ystod argyfyngau (Hodges, 2020; Kanwar a Daniel, 2020; IBO, 2020) sydd yn aml yn golygu gwyro oddi wrth arferion addysgeg arferol. Er enghraifft, er y gellid ffafrio cyrsiau **cydamserol**, gellid ystyried gweithgareddau **anghydamserol** yn fwy ymarferol os yw dysgwyr yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at gyrsiau cydamserol. At hynny, mewn rhai amgylchiadau gall Addysgu o Bell mewn Argyfwng leihau rôl sefydliadau addysgol o rôl addysgu i rôl darparu **cyfleoedd dysgu o bell** yn unig, a thrwy hynny roi'r cyfrifoldeb am **waith athrawon o ran rhoi cyfarwyddyd a monitro cynnydd** i rywun arall, fel arfer y rhieni neu'r myfyrwyr eu hunain.

Er y gellir ystyried bod y termau addysgu, rhoi cyfarwyddyd a dysgu yn gyfnewidiol, mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli'r rhain yng nghyd-destun adroddiadau addysg am COVID-19. Ymddengys fod rhai adroddiadau ond yn cyfeirio at gyfleoedd dysgu o bell, sef cynnig a wneir gan awdurdodau addysg neu sefydliadau i ddysgwyr a theuluoedd heb gyfeirio at hyfforddiant athrawon na gweithgareddau dysgu myfyrwyr. Fodd bynnag, mae rôl athrawon yn cynnwys mwy na dim ond darparu tasgau a gweithgareddau dysgu i fyfyrwyr. Gwnaethom felly ystyried y ddau adroddiad sy'n amlinellu tueddiadau yn y **cyfleoedd dysgu o bell** sydd ar gael, ac adroddiadau ar sut cafodd **gweithgareddau addysgu a gwaith monitro cynnydd yr athrawon** eu hwyluso. Nid yw'r adroddiadau sydd ar gael yn cwmpasu'r un rhanbarthau, serch hynny, maent yn cynnig gwybodaeth am yr amrywiadau mewn arferion addysgu sy'n gysylltiedig â dulliau Addysgu o Bell yn ystod Argyfwng COVID-19.

#### 3.1 Amrywiadau mewn cyfleoedd dysgu o bell yn rhyngwladol

Yn ôl yr adroddiad a gyhoeddwyd gan Sefydliad Brookings ar 14 Ebrill 2020 sy'n defnyddio data a gasglwyd gan y Ganolfan Datblygu Byd-eang (Centre for Global Development) wedi'i gyfuno â dosbarthiad Banc y Byd, mae gwledydd yn rhanbarthau Dwyrain Asia a'r Môr Tawel, Ewrop a Chanolbarth Asia, America Ladin a'r Caribî, y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica, De Asia ac Affrica Is-Sahara yn amrywio'n sylweddol yn eu hagweddau tuag at addysg yn ystod COVID-19 yn ôl incwm, yn ôl rhanbarth, yn ôl y math o adnoddau addysg ar-lein, a chyfranogiad PISA (Vegas, 2020):

- Dim ond 10 y cant o wledydd **incwm uchel** nad ydynt yn darparu cyfleoedd dysgu o bell, ond ymhlith gwledydd **incwm isel** y ffigur yw 75 y cant. Ymhlith y rhai sy'n darparu **cyfleoedd dysgu o bell**, mae'r mwyafrif ymhlith y gwledydd incwm isel yn defnyddio teledu a radio, tra bod y gwledydd incwm uchel bron i gyd yn darparu cyfleoedd dysgu



o bell ar-lein, gydag 20 y cant ohonynt yn defnyddio cyfuniad o ddulliau ar-lein a darlledu teledu a/neu radio.

- Ym mhob rhanbarth ledled y byd, mae ardaloedd gwledig a phobl sydd heb gysylltiad rhyngrywyd sy'n dibynnu ar **deledu** a **radio** yn unig. Fodd bynnag, mae Dwyrain Asia a'r Môr Tawel, Ewrop a Chanolbarth Asia ac America Ladin a'r Caribî yn dibynnu bron yn gyfan gwbl ar addysg **ar-lein**.
- Mae amrywiadau pellach ymhlith y gwledydd sy'n defnyddio adnoddau addysgol **ar-lein**. Ymhlith y gwledydd hyn mae mwy na 60 y cant yn defnyddio platfformau ar-lein ac mae tua thraean yn dosbarthu fideos addysgol ar-lein. Mae tua 30 y cant o wledydd yn awgrymu adnoddau addysgol drwy'r cyfryngau cymdeithasol a gwefannau gweinyddiaethau addysg. Dim ond 12 y cant sy'n cyhoeddi modiwlau sy'n cynnwys deunyddiau addysgiadol sydd fel arfer yn targedu lefelau gradd penodol. Mae cyfran fach (tua 6 y cant) yn defnyddio gemau fideo.
- Mae 85 y cant o wledydd sy'n **cymryd rhan yn PISA** yn cynnig cyfleoedd addysgol ar-lein. Mae tua 30 y cant yn defnyddio dulliau ar-lein ar y cyd ag addysg drwy ddarllediadau teledu a/neu radio.
- Yn ôl pob golwg mae llawer o wledydd yn rhoi arweiniad i athrawon ar gyfer cyfathrebu â myfyrwyr ond mae llai o wledydd yn rhoi **hyfforddiant ar addysgu o bell**. Ewrop a Chanolbarth Asia yw'r rhanbarthau sydd â'r gyfran uchaf o wledydd sy'n darparu hyfforddiant.

Mae'r data o'r Ganolfan Datblygu Byd-eang (CGD, 2020) a ddefnyddir yn yr adroddiad yn cynnig cipolwg ar fanylion y ddarpariaeth mewn o leiaf rai gwledydd. Mae rhai themâu cyffredin yn cynnwys mynediad at dechnoleg a chyllid cysylltiedig, gwahaniaethu rhwng gwahanol grwpiau oedran neu aelwydydd â gwahanol alluoedd, hwyluso darpariaeth amlieithog a datblygiad proffesiynol neu dysgu athrawon. Nid yw'r data yn unffurf ac ni ddylid trin yr enghreifftiau isod fel rhai cynrychioliadol ar draws rhanbarthau nac yn rhyngwladol.

*Technoleg: ar-lein, teledu, radio a phrint*

Roedd Seland Newydd yn un enghraifft o wlad yn defnyddio amryw gyfryngau i gefnogi addysgu o bell. Roedd gwersi teledu yn Seland Newydd wedi'u hanelu at bob grŵp oedran, gan gynnwys dysgu cynnar, yn cael eu darlledu ar amseroedd penodol rhwng 9am a 3pm bob diwrnod ysgol, gyda sianeli ar wahân ar gyfer ieithoedd Saesneg a Māori. Yn sgil llwyddiant y gwersi hyn, cafodd y darllediadau gwersi dysgu cynnar a Māori eu hestyn tan fis Gorffennaf 2020.

Er bod Seland Newydd yn defnyddio cymysgedd o arbenigwyr i gyflwyno gwersi teledu, fel athrawon, cyflwynwyr ac arbenigwyr lles a symud, pwysleisiodd rhai gwledydd fod gwersi teledu neu radio yn cael eu cyflwyno gan rai o'u hathrawon 'gorau'. Mewn rhai gwledydd fel Croatia, y Weriniaeth Tsiec a Cyprus roedd opsiynau teledu ar gael i fyfyrwyr cynradd tra bod opsiynau ar-lein yn cael eu defnyddio ar gyfer myfyrwyr uwchradd. Mewn rhai gwledydd eraill roedd gwersi radio'n cael eu defnyddio ar gyfer addysg gynradd a gwersi teledu ar gyfer addysg uwchradd. Pryd bynnag yr oedd teledu neu radio'n cael eu defnyddio, pwysleisiwyd fel arfer ei fod ar gael yn ddyddiol ac ar adegau penodol. Roedd rhai gwledydd yn disgwyl i rieni oruchwylio eu plant wrth iddynt wyllo neu wrando ar y rhain, yn enwedig ar gyfer myfyrwyr cynradd, a soniwyd am derfyn amser penodol ar gyfer gwyllo'r teledu mewn rhai achosion, fel 3 awr ar gyfer plant ysgol gynradd.

Er hynny, roedd rhai gwledydd lle defnyddiwyd pecynnau o adnoddau print yn hytrach na mathau eraill o ddysgu ar gyfer myfyrwyr cynradd. Ac roedd yn ymddangos bod llawer mwy o wledydd yn defnyddio'r rhain ar gyfer dysgwyr o wahanol oeddrannau pryd bynnag roedd anawsterau o ran cael mynediad at dechnoleg neu pan oedd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i fynediad cyflym, i helpu myfyrwyr hŷn sy'n paratoi ar gyfer arholiadau er enghraifft. Mewn rhai achosion, dosbarthwyd pecynnau o ddeunyddiau print fel llyfrynau gwaith cartref ar ddechrau'r cyfnod cau ysgolion i rai myfyrwyr nad oedd modd iddynt ddilyn rhaglen ddysgu ar-lein, gyda'r nod o gasglu a graddio gwaith y myfyrwyr ym mis Medi. Soniwyd am gamau dilynol ar ffurf dosbarthiadau i helpu myfyrwyr i gau'r bwlch mewn un achos. Yn Seland Newydd (2020a; 2020b), anfonwyd deunyddiau dysgu print at ddysgwyr yn y llwybr addysg cyfrwng Māori rhwng 0 a 18 oed. Roedd ysgolion yno hefyd yn gallu archebu pecynnau ar gyfer pynciau penodol i fyfyrwyr sy'n gweithio tuag at gymhwyster, ac roedd adnoddau ar gael ar draws mwy na 50 o feysydd pwnc. Yn y blynyddoedd cynnar, anfonwyd pecynnau at ddysgwyr â'r angen mwyaf oherwydd eu bod dan anfantais, neu oherwydd nad oedd ganddynt gyfrifiadur na mynediad at y rhyngwyd. Mewn rhai gwledydd dosbarthwyd deunyddiau print a pheynnau dysgwyr gan y Weinyddiaeth Addysg yn benodol ar gyfer yr argyfwng, mewn gwledydd eraill parhaodd myfyrwyr i ddefnyddio deunyddiau print a oedd eisoes yn gyfarwydd iddynt, gan gynnwys, mewn un wlad er enghraifft, gwerslyfrau, llyfrau gwaith, llyfrau adolygu a llyfrau gweithgareddau.

Ond gwelwyd bod trosglwyddo o werslyfrau print i rai ar-lein hefyd yn gwella mynediad at ddysgu. Fe wnaeth awdurdodau mewn sawl gwlad sicrhau bod yr holl werslyfrau ar gael yn electronig i rieni yn rhad ac am ddim yn ystod argyfwng COVID-19.

Mae manylion plattfformau ar-lein yn aml yn cael eu hepgor o'r data ond mae Google Classroom yn cael ei grybwyll yn fwy aml, gyda rhai awdurdodau'n pwysleisio'r ffaith bod cyfleusterau ffrydio byw ar gael ar gyfer dysgu cydamserol. Mewn perthynas â'r rhain, daeth amryw ddadleuon i'r amlwg dros ddefnyddio gweithgareddau cydamserol neu anghydamserol. Er enghraifft, dadleuodd Portiwgal y dylid blaenoriaethu gweithgareddau anghydamserol am eu bod yn defnyddio llai o led band ac nid oes angen dyfeisiau o'r radd flaenaf ar eu cyfer, tra bod gweithgareddau cydamserol yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau astudio ar gyfer dysgwyr yn Sweden. At hynny, roedd enghreifftiau o ail-greu sawl agwedd ar amgylchedd yr ysgol yn rhithwir drwy roi mynediad ar-lein at lyfrgelloedd a llyfrgellwyr, gyda chymorth ar-lein gan staff cymorth cymdeithasol a seicolegwyr.

### *Cwricwlwm ac Amserlennu*

Soniwyd am rai enghreifftiau o gynnig cwricwlwm llai, gyda mathemateg, iaith fodern, darllen ac ysgrifennu, addysg iechyd ac amgylcheddol a phynciau hylendid yn cael blaenoriaeth ar gyfer y cyfnod cynradd, a mathemateg, iaith fodern, technoleg, gwyddorau bywyd a'r Ddaear, a thechnoleg gwybodaeth yn cael blaenoriaeth yn y cyfnod uwchradd yng nghyrsiau ysgol un o'r gwledydd. Defnyddir dull gwahanol yn Lwcsembwrg lle cyhoeddwyd y byddai dysgu o bell yn canolbwyntio ar gynnwys sy'n hanfodol er mwyn i fyfyrwr allu symud ymlaen yn ei yrfa ysgol, gyda chynnwys newydd yn rhan ohono. Nodwyd y byddai cynnwys sy'n cael ei drin o fewn fframwaith addysg o bell yn cael ei astudio eto yn y dosbarth, cyn dechrau dysgu cynnwys newydd. Er mai'r cwricwlwm academiaidd sy'n cael y rhan fwyaf o sylw, nododd awdurdodau mewn rhai gwledydd efallai na fyddai angen i addysg ystyrion gartref ganolbwyntio ar gyflawniad academiaidd neu wybyddol yn unig.

Mae rhywfaint o fanylion ar gael am newidiadau yn yr amserlen. Penderfynodd Lwcsembwrg, er enghraifft, uno dau dymor yn un cyfnod cyfeirio. Mewn rhai gwledydd cynigiwyd addysg i rai cyfnodau ymhell i wyliau'r haf, tra gorffennodd cyfnodau eraill (fel ysgolion cynradd) yn gynnar.

### *Mynediad at y rhyngwrwd a dyfeisiau digidol*

Roedd hwyluso mynediad at y rhyngwrwd a dosbarthu dyfeisiau digidol yn destun pryder i lawer o wledydd. Teimlai rhai bod angen cynnal arolwg o'r dyfeisiau technolegol sydd ar gael i bob cartref cyn cau ysgolion. Er enghraifft, amcangyfrifodd Latfia nad oedd gan dri y cant o'u myfyrwyr liniadur na ffôn clyfar. Er mwyn datrys y broblem hon yn brydlon ar sail data'r arolwg, aeth y Weinyddiaeth Addysg a Gwyddoniaeth i'r cwmnïau telathrebu a chyfathrebu, a thalu'r costau gyda chronfeydd wrth gefn y Weinyddiaeth Addysg. Yn Seland Newydd (2020a, 2020b), adroddwyd bod mwy na 51,000 o gysylltiadau â'r rhyngwrwd wedi'u cwblhau neu ar y gweill, roedd mwy na 23,000 o ddyfeisiau (gliniaduron a Chromebooks) i'w dosbarthu gan y Weinyddiaeth Addysg, ac roedd 16,000 o ddyfeisiau i'w hanfon allan o stoc yr ysgolion eu hunain. O ran cysylltiadau â'r rhyngwrwd a chyfrifiaduron, y brif flaenoriaeth oedd myfyrwyr a oedd yn gweithio tuag at gymwysterau, sef myfyrwyr Blwyddyn 12, Blwyddyn 13 a Blwyddyn 11 yn y drefn honno. Roedd y blaenoriaethau hyn yn adlewyrchu awydd y Llywodraeth i sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl ar ddysgwyr sy'n gweithio tuag at ennill cymhwyster, ac yn adlewyrchu hefyd ba mor effeithiol oedd addysgu a dysgu ar-lein ar gyfer y grŵp oedran hwn (Seland Newydd, 2020b). Roedd apelio i'r sector preifat a sefydliadau elusennol yn ogystal ag i'r cyhoedd am gymorth wrth ddarparu dyfeisiau i aelwydydd ar y rhestr ar gyfer sawl gwlad. Ceisiodd eraill ddefnyddio'r cyllid oedd ar gael. Bwriad un dalaith yng Nghanaada (Jefford, 2020), y wlad na chafodd ei chynnwys yn y data a ddadansoddwyd uchod, oedd dargyfeirio cyllid ar gyfer bysiau ysgol ac ar gyfer cynnal a chadw adeiladau i brynu dyfeisiau electronig i fyfyrwyr. Enghraifft wahanol o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb technolegol oedd creu system gyfeillio lle byddai rhiant neu fyfyrwr sydd â'r rhyngwrwd c adnoddau eraill yn cael ei baru â myfyrwr nad oedd modd iddo gael mynediad at blatfformau dysgu digidol. Gwelwyd bod yr ateb olaf hwnnw hefyd yn creu amgylchedd ar gyfer rhannu a datblygu dysgu cymunedol.

### *Dysgwyr ag anghenion ychwanegol*

Nid myfyrwyr â diffyg mynediad oedd yr unig rai yr oedd angen atebion gwahanol ar eu cyfer. Cyhoeddodd Lwcsembwrg, er enghraifft, y byddai gweithdrefn systemeg yn cael ei defnyddio ar lefel genedlaethol i nodi'r boblogaeth darged hon yn glir a helpu'r disgyblion dan sylw gyda chyfres o fesurau, gan gynnwys myfyrwyr ag anabledau. Roedd Pacistan yn gobeithio y gallai cyflwyno gwersi teledu yn ystod argyfwng COVID-19 barhau unwaith y bydd yr ysgolion yn ailagor, er mwyn hwyluso dysgu oedolion a gwella mynediad at addysg i fyfyrwyr â galluoedd cyfyngedig.

### *Benthyca a Rhannu Adnoddau*

O ran adnoddau ar-lein, roedd rhai gwledydd yn dibynnu ar adnoddau a ddatblygwyd mewn manau eraill, fel rhai UNICEF. Cyhoeddodd Estonia, y wlad yn y safle uchaf yn Ewrop ar restr PISA yn 2018, ei bod yn rhannu ei holl offer addysg digidol i helpu systemau addysg gwledydd eraill fel rhan o fenter gefnogaeth y gwledydd Nordig yn ystod argyfwng COVID-19. Roedd

adnoddau ar gael yn Saesneg ac ieithoedd eraill fel arfer. Rhannwyd adnoddau, yn unol â manteision addysg ar-lein efallai, o fewn systemau addysg pan gynigiwyd dysgu o bell ar ffurf CAEA (Cyrsiau Ar-lein Enfawr Agored).

### *Cyfraniad rhieni*

Er y byddai rhywun efallai yn tybio mai ysgolion fyddai'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb cyffredinol am addysgu myfyrwyr hyd yn oed wrth addysgu o bell, pwysleisiodd rhai gwledydd rôl y rhieni. Roedd y neges yn amrywio o annog rhieni i addysgu eu plant gartref yn ystod yr argyfwng i atgoffa rhieni am eu cyfrifoldeb cyffredinol dros addysg eu plant a blaenoriaethu lles eu plant. Mewn rhai achosion, atgoffwyd dysgwyr hefyd am eu cyfrifoldeb i ddysgu, gyda datganiadau fel yr ymgyrch 'Fi sy'n gyfrifol! Mae fy nosbarth yn fy nghartref!' a lansiwyd mewn un wlad.

### *Hyfforddiant Athrawon ac ymagweddau at roi canllawiau Addysgu o Bell mewn Argyfwng i ysgolion*

Mae enghreifftiau o ddefnyddio dulliau canolog ar gyfer polisïau a chanllawiau ysgolion, er enghraifft, o Weinyddiaethau Addysg yn datblygu ac yn cyhoeddi methodolegau addysgu o bell ar gyfer ysgolion uwchradd yn gyntaf a chyn i'r gwaith ddechrau ar y camau cynnar. Mewn gwledydd eraill dirprwywyd cyfrifoldebau am gamau gweithredu i ysgolion ac ystafelloedd dosbarth. Lansiwyd hyfforddiant rhithwir i athrawon ynglŷn ag addysgu o bell mewn amryw wledydd, a oedd yn ymwneud â thechnoleg ynghyd â methodolegau newydd, addysgeg a didacteg addysgu o bell a rheoli absenoldebau. Er enghraifft, lansiwyd hyfforddiant llythrennedd ar-lein i athrawon ac i rieni hefyd ym Mrasil. Cafodd amseriad yr hyfforddiant a chyfarwyddiadau i ysgolion eu blaenoriaethu ar ddechrau'r cyfnod cau ysgolion. Roedd Seland Newydd, a gwledydd eraill, ar ôl dwyn gwyliau'r gwanwyn ymlaen i fyfyrwyr, yn bwriadu defnyddio'r cyfnod hwn i helpu ysgolion i ddatblygu e-ddysgu ac opsiwn dysgu o bell arall ar gyfer yr ail dymor. Roedd Singapôr ymhlith y gwledydd a roddodd gynllun dysgu gartref un diwrnod yr wythnos ar waith, i helpu rhieni i baratoi ar gyfer y posibilrwydd o ddysgu am gyfnod estynedig yn y cartref, cyn cau ysgolion.

### *3.2 Amrywiadau mewn gweithgareddau addysgu a gwaith monitro cynnydd athrawon: enghraifft o UDA*

Nid yw adroddiad Sefydliad Brookings, na'r data cysylltiedig a ystyrir uchod, yn cynnwys Gogledd America gan fod systemau addysg UDA a Chanada yn ddatganoledig iawn, sy'n golygu bod mwy o amrywiaeth o ran dulliau. Yn wir, daeth astudiaeth gan Gross ac Opalka (2020) o bolisïau ardaloedd ysgolion yng nghyd-destun COVID-19, mewn sampl gynrychioliadol genedlaethol yn UDA, i'r casgliad bod cryn amrywiaeth yn nisgwyliadau o ran yr hyn y dylai ysgolion ei wneud. Mae'r astudiaeth hon o ddiddordeb i ni am ei bod yn edrych ar y disgwyliadau o ran **cyfarwyddyd gan athrawon**, olrhain **ymgysylltiad myfyrwyr** a **monitro cynnydd**, ac nid oedd astudiaethau eraill yn cynnwys y wybodaeth hon. At hynny, mae Gross ac Opalka yn defnyddio'r dosbarthiad y gellir ei ystyried yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r holl arferion posibl a ddefnyddir yn ystod COVID-19. Mae'r adroddiad yn datgelu anghysondebau rhwng yr ardaloedd ond hefyd yn tynnu sylw at amrywiadau mewn disgwyliadau penodol rhwng ardaloedd **cefnog** (ardaloedd â chyfradd isel o bobl yn hawlio cinio rhad neu am ddim) ac ardaloedd **tlawd** (ardaloedd â chyfradd uchel o bobl yn hawlio cinio rhad neu am ddim) yn ogystal ag ardaloedd **trefol** a **gwledig**.

Mae'r adroddiad am UDA yn cynnwys y canfyddiadau allweddol a ganlyn:

- Mae dwy ran o dair o ardaloedd yn gosod disgwyliadau isel ar gyfer cynnal **cyfarwyddyd gan athrawon**, gweler tabl 2. Er bod 85 y cant o'r sampl wedi creu rhyw fath o ddeunyddiau cwricwlwm penodol o ran blwyddyn ysgol a phwnc, dim ond 33 y cant o'r ardaloedd sy'n disgwyl i'w holl athrawon barhau i ymgysylltu a rhyngweithio â'u holl fyfyrwyr ar gynnwys y cwricwlwm megis trwy wersi fideo byw, darlithoedd wedi eu recordio, cefnogaeth un i un dros y ffôn, neu adborth a gynigir drwy blatfform ar-lein. Mae dargyfeiriad pellach o 27 y cant mewn ardaloedd gwledig i dros 50 y cant mewn ardaloedd trefol.
- Dim ond 13.2 y cant o'r ardaloedd sy'n disgwyl gwersi byw ar-lein (**cydamserol**) i fyfyrwyr. Fodd bynnag, mae **ardaloedd cefnog** (25 y cant o'r holl ardaloedd) ddwywaith yn fwy tebygol nag **ardaloedd â chyfradd uchel o dlodi** i ddisgwyl i'w hysgolion ddarparu addysg **gydamserol** fyw (14.5 y cant o'i gymharu â 28.3 y cant).

Tabl 2. Disgwyliadau ardaloedd ysgol o ran rhoi mynediad at gynnwys cwricwlwm ac addysgu yn ystod cyfnod cau COVID-19, wedi'i addasu o Gross ac Opalka (2020).

Dangosydd	Cyfradd	Diffiniadau ac Enghreifftiau
<b>Cynnwys</b>		
Dim adnoddau cwricwlwm	1.50%	<p><b>Dim:</b> dim adnoddau na disgwyliadau ynghylch y cwricwlwm, gwersi na gweithgareddau. <b>Cyffredinol:</b> dewis o adnoddau dysgu (nid gwersi dilyniannol), megis lincs i Khan Academy, y system lyfrgelloedd leol, kidsreads.com, ac ati. Gallai fod yn rhestr gyffredinol neu wedi'i threfnu yn ôl safon ysgol.</p> <p><b>Penodol:</b> Mae ardaloedd yn darparu cwricwlwm wedi'i guradu/cwricwlwm cyfarwyddiadol neu'n disgwyl i ysgolion ei ddarparu, gan roi pob myfyriwr mewn sefyllfa benodol mewn adnodd a rhagnodi'r cyflymder o fynd drwy'r adnoddau, gwersi/gweithgareddau/unedau sy'n gysylltiedig â'r safon ysgol a'r pwnc, pecynnau ffisegol neu rai y gellir eu lawrlwytho yn ddyddiol neu'n wythnosol sy'n wahanol i becyn y diwrnod neu'r wythnos flaenorol. Gall y rhain gael eu creu gan yr ardal, ysgolion, athrawon, neu drydydd parti.</p>
Darparu adnoddau dysgu <b>cyffredinol</b>	10.10%	
Darparu adnoddau <b>penodol</b> ar gyfer y radd a'r pwnc	84.70%	
Ni chafwyd hyd i wybodaeth am y cyfnod cau	3.70%	
<b>Cyfarwyddyd gan Athrawon:</b>		
Disgwylir i'r <b>HOLL</b> athrawon ymgysylltu â myfyrwyr ynghylch cynnwys drwy ddulliau <b>cydamserol</b> neu <b>anghydamserol</b> .	33.50%	<p><b>Oes:</b> nodir bod disgwyl i athrawon addysgu neu ddarparu adnoddau cyfarwyddiadol, yn hytrach na dim ond aseiniadau neu becynnau gwaith a lwythwyd ar blatfform dysgu. Ni ddisgwylir i fyfyrwyr ddibynnu'n bennaf arnynt eu hunain na rhieni i ddeall y cynnwys ac aseiniadau. Gallai hyn ddigwydd trwy wersi byw, fideo wedi'i recordio ymlaen llaw, platfformau ar-lein, sgysiaau 1:1 sydd ynghlwm wrth gynnwys, neu strategaethau eraill sy'n sicrhau bod myfyrwyr yn cael arweiniad strwythuredig ar gysyniadau.</p>
Disgwylir i <b>RAI</b> athrawon ymgysylltu â myfyrwyr ynghylch cynnwys drwy ddulliau cydamserol neu anggydamserol.	13.20%	
Dim disgwyliadau	49.50%	
Ni chafwyd hyd i wybodaeth	3.70%	

<b>Addysgu Cydamserol:</b>		
Disgwylir addysgu cydamserol gan yr <b>HOLL</b> athrawon	7.90%	<b>Cydamserol</b> = addysgu myfyrwyr mewn 'amser real' drwy fideogynadledda. Mae cynnig oriau swyddfa yn cyfrif fel cysylltiad â'r disgybl gweler Tabl 4, ond nid yw'n cyfrif fel addysgu cydamserol.
Disgwylir addysgu cydamserol gan <b>RAI</b> athrawon	13.90%	
Dim disgwyliadau	74.80%	
Ni chafwyd hyd i wybodaeth	3.70%	

- Dim ond hanner yr ardaloedd sy'n gosod disgwyliadau clir ar gyfer **monitro ymgysylltiad myfyrwyr** wrth ddysgu, gweler Tabl 3, megis trwy olrhain presenoldeb neu gael cysylltiad un i un dros y ffôn neu drwy neges destun. Fodd bynnag, gwelir y rhaniad mwyaf o ran monitro ymgysylltiad myfyrwyr rhwng **ardaloedd trefol a rhai gwledig**: disgwylir cysylltiad rheolaidd a'r disgybl NEU gofrestr presenoldeb mewn 43 y cant o ardaloedd gwledig o gymharu â 65 y cant mewn ardaloedd trefol.
- Mewn bron 40 y cant o ardaloedd nid oes angen i athrawon **fonitro cynnydd academaidd myfyrwyr**, gweler Tabl 4. Dim ond 42 y cant o ardaloedd sy'n disgwyl i ysgolion gasglu gwaith myfyrwyr, ei raddio a chynnwys y radd derfynol ar gyfer rhai o'u myfyrwyr o leiaf. Mae cyfran uwch o ardaloedd (58 y cant) yn disgwyl i'w hathrawon roi adborth (os nad gradd) i rai o'u myfyrwyr o leiaf. Mae'r adroddiad yn nodi y byddai'r rhain fel rheol yn fyfyrwyr hŷn. Fel gyda'r uchod, gwelir y rhaniad mwyaf o ran monitro cynnydd rhwng **ardaloedd trefol a rhai gwledig**: disgwylir graddio mewn 57.2 y cant o'r ardaloedd trefol o gymharu â 39.8 y cant o ardaloedd gwledig a disgwylir monitro cynnydd mewn 52.6 y cant o ardaloedd gwledig o gymharu â 79.7 y cant o ardaloedd trefol.

Tabl 3. Disgwyliadau ardaloedd ysgol o ran monitro ymgysylltiad a chynnydd yn ystod cyfnod cau COVID-19, wedi'i addasu o Gross ac Opalka (2020).

<b>Dangosydd</b>	<b>Cyfradd</b>	<b>Diffiniadau ac Enghreifftiau</b>
<b>Cofrestr Presenoldeb:</b>		
Cofnodir presenoldeb	27.40%	<b>Oes:</b> mae ardaloedd yn nodi rhyw fath o broses ar gyfer cofnodi presenoldeb, megis gofyn i fyfyrwyr fewngofnodi i blatfform rhithwir, i lawrlwytho cyfarwyddyd neu aseiniad drwy ap, neu i gyflwyno ymateb i 'gwestiwn y dydd', gall athrawon gofnodi presenoldeb drwy ffonio cartrefi'r myfyrwyr.
Dim disgwyliadau o ran presenoldeb	68.90%	
Ni chafwyd hyd i wybodaeth	3.70%	
<b>Athrawon yn cysylltu â'r disgybl:</b>		
Disgwylir cysylltiad	36.90%	<b>Oes:</b> mae ardaloedd yn nodi y bydd athrawon yn cysylltu â myfyrwyr drwy alwad ffôn, e-bost neu blatfform rhithwir. Ymhlith yr enghreifftiau mae: athrawon yn ffonio myfyrwyr 1:1 i siarad â nhw; athrawon ar gael yn ystod oriau swyddfa os oes gan fyfyrwyr neu deuluoedd gwestiynau; athrawon yn cael cyfarfodydd bore neu gyfarfodydd lles wythnosol.
Dim disgwyliadau o ran cysylltiad	59.30%	
Ni chafwyd hyd i wybodaeth	3.70%	

<b>Cofrestr Presenoldeb NEU Gysylltiad â'r disgybl:</b>		
Disgwylir	48.00%	Gweler uchod.
Dim disgwyliadau	48.30%	
Ni chafwyd hyd i wybodaeth	3.7%	
<b>Adborth ar waith myfyrwyr</b>		
Monitro cynnydd ar gyfer POB myfyriwr	48.00%	<b>Yr ateb cadarnhaol isaf</b> yw pan ofynnir i fyfyrwyr gyflwyno rhywfaint o'u gwaith i'w hathrawon.
Monitro cynnydd ar gyfer RHAI myfyriwr	9.90%	
Ni ddisgwylir i gynnydd gael ei fonitro	38.30%	
Ni chafwyd hyd i wybodaeth	3.70%	
<b>Graddio ffurfiol</b>		
Graddio gwaith POB myfyriwr	29.00%	<b>Graddio</b> = graddio ffurfiol, pan fydd ardaloedd yn mynnu bod rhywfaint o waith yn cael ei gwblhau gan fyfyrwyr yn ystod y cyfnod cau i gyfrannu at eu sgôr derfynol.
Graddio gwaith RHAI myfyrwyr	13.10%	
Ni ddisgwylir graddio	54.40%	
Ni chafwyd hyd i wybodaeth	3.70%	

Mae astudiaeth gan Lake a Dusseault (2020b) yn enghraifft bellach o amrywiadau mewn disgwyliadau penodol:

- “all teachers [are required] to communicate learning objectives, activities and assignments to students weekly; interact with students in real time to deliver lessons and facilitate discussion; to archive lessons to access later”,
- rhoddir tri opsiwn i athrawon: cefnogi myfyrwyr â deunyddiau a ddatblygwyd gan yr ardaloedd, cymryd rhan mewn ‘addysgu hybrid dan arweiniad athro’ neu ‘addysgu cwbl ddigidol’ (DPS, 2020). Gyda'r opsiwn olaf, roedd disgwyl i athrawon addysgu'n gyfan gwbl ar-lein a chyfathrebu â myfyrwyr gan ddefnyddio ffôn neu blatfform digidol,
- dirprwyir penderfyniadau i ysgolion heb ddisgwyliadau clir.

Yn ddiddorol, er y nodwyd bod gwaith addysgu a monitro cynnydd myfyrwyr wedi gwella dros yr wythnosau cyntaf ar ôl cau ysgolion, roedd **graddio, asesu a phresenoldeb** ar ei hôl hi (Lake a Dusseault, 2020a). Mae cwestiynau anodd yn codi mewn perthynas â graddio ac asesu yng nghyd-destun Addysgu o Bell mewn Argyfwng. Gallai problem o ran tegwch godi os nad oes gan bob myfyriwr fynediad at dechnoleg ac aseiniadau. Ac eto, mae graddio ac asesu hefyd yn rhoi cymhelliant i ddisgwyr fwrw ymlaen â'u gwaith (Kurtz, 2020). At hynny, er ei bod braidd yn anodd casglu graddau a chofnod presenoldeb, gallai fod yn werthfawr pan fydd adeiladau ysgol yn ailagor. Roedd yr arferion a ddaeth i'r amlwg yn cynnwys (Lieberman, 2020; Lake a Dusselaut, 2020b):

- llenwi ffurflenni Google ar ddechrau'r dydd, er y gallai hyn gymryd llawer o amser gyda mwy nag un plentyn mewn un cartref,
- canolbwyntio ar ddyddiadau cwblhau prosiectau yn hytrach nag amser addysgu a defnyddio paramedrau lluosog fel aseiniadau wedi'u cwblhau, amseroedd mewngofnodi ac atebion drwy e-bost,

- rhoi ychydig ddyddiau ond dim gormod o ddyddiau i fyfyrwyr gwblhau aseiniadau a chysylltu â'r teulu ar ôl i'r myfyriwr fethu â chyflwyno mwy nag un aseiniad,
- myfyrwyr yn ennill credyd ychwanegol am waith a ddychwelwyd yn ystod y cyfnod cau, ond ddim yn cael eu cosbi fel arall.

Os yn yr adran flaenorol sylwyd **gwahaniaeth yn ôl oedran** o ran dewis cyfrwng ar gyfer Addysgu o Bell mewn Argyfwng, daeth gwahaniaethau o ran addysgu yn ôl oedran i'r amlwg o astudiaethau'r UDA (Lake a Dusselaut, 2020a a b; Kurtz, 2020). "Middle and high school students typically get more access to instruction and progress monitoring" (Lake a Dusselaut, 2020a, t.3). Roedd cynllun un ardal, er enghraifft, yn canolbwyntio ar symrlwydd a llythrennedd ar gyfer myfyrwyr cynradd (Achievement First, 2020) lle roedd dysgu'n dibynnu ar fyfyrwyr a rhieni'n defnyddio rhaglen ar-lein yn annibynnol. Mewn cyferbyniad i hyn, roedd disgwyl i blant ysgol uwchradd gael gwersi cydamserol drwy Zoom ar gyfer pob dosbarth yn ogystal â defnyddio Google Classroom ar gyfer aseiniadau a chyfarwyddyd (Lake a Dusselaut, 2020b). Roedd cynnydd myfyrwyr hŷn yn cael ei fonitro, roedd aseiniadau'n cael eu graddio, ac roedd disgwyl i athrawon gysylltu'n ddyddiol a darparu oriau swyddfa.

Dyfalwyd bod y rhesymau dros wahaniaethu o'r fath yn cynnwys (Lake a Dusselaut, 2020a):

- ystyriaethau o wahaniaethau dysgu yn seiliedig ar oedran, megis cyfyngu ar amser sgrin myfyrwyr cynradd, ac anghenion dysgwyr hŷn megis paratoi ar gyfer arholiadau a phroffion sy'n arwain at flaenoriaethu cymwysterau,
- canfyddiad bod dysgwyr uwchradd wedi eu paratoi'n well ar gyfer dysgu ar-lein os oes ganddynt ddyfeisiau eisoes, neu os ydynt wedi cael profiad o wneud rhyw fath o ddysgu o bell o'r blaen,
- plattform digidol ar waith ar gyfer dysgwyr hŷn.

### 3.3 Canfyddiadau ar ddulliau Addysgu o Bell mewn Argyfwng yng nghyd-destun COVID-19 sy'n effeithio ar ddysgu plant

Efallai y disgwylir i lawer o fyfyrwyr syrthio ar ei hôl hi yn academiaidd o ganlyniad i beidio â chael cyfarwyddyd, diffyg mynediad at athrawon, anallu rhieni i helpu eu plant, ac ymgysylltiad isel gan fyfyrwyr o ganlyniad i gau ysgolion yn ystod COVID-19. Ac eto, gallai arwain at gynnydd ychwanegol o ran dysgu i rai myfyrwyr, yn enwedig o ran darllen (Kuhfeld *et al.*, 2020) os yw'r ffactorau uchod yn cael eu gwrthdroi, neu pan fydd myfyrwyr yn gwybod sut i hunanreoleiddio (gwybod beth i'w wneud pan nad ydynt yn gwybod yr ateb a dim ond hyn a hyn o gymorth sydd ar gael) (Hattie, 2020a a 2020b). At hynny, gall hyn ddibynnu ar iechyd a lles emosiynol y myfyrwyr.

Mae adroddiad Brookings (Vegas, 2020) yn awgrymu y bydd yr effaith ar rai dysgwyr yn gysylltiedig ag a oes cyfle iddynt gael mynediad at **gyfleoedd dysgu o bell** ai peidio ac a yw athrawon yn cael mynediad at **hyfforddiant i athrawon ar addysgu o bell**. Ond mewn gwledydd incwm dosbarth uchel a dosbarth canol ac mewn gwledydd sy'n **cymryd rhan yn PISA**, mae'r effaith yn debygol o ddibynnu ar ansawdd yr addysgu sy'n digwydd o bell, gan gynnwys **addysgu gan athrawon, monitro cynnydd ac asesu**, yn hytrach nag ar argaeledd cyfleoedd dysgu (Vegas, 2020). Yn ôl Gross ac Opalka (2020) mae'n destun pryder bod llawer o ysgolion, wrth fynd i'r afael â'r her o gynhyrchu ystod o gyfleoedd dysgu o bell neu gysylltu myfyrwyr â thechnoleg, wedi gadael dysgu i ffawd yn ystod cyfnod y coronafeirws pan gaewyd



ysgolion (t.1), o ganlyniad i amrywiadau yn lefel yr addysgu a gwaith monitro cynnydd dysgwyr. Nid yw darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu a darparu profiadau dysgu o safon uchel yr un peth.

Mae'r astudiaeth gan Iqbal (2020) yn modelu tri senario o effaith COVID-19 ar safon dysgu myfyrwyr. Yn ôl un, gallai arwain at ostyngiad yn lefel gyfartalog y dysgu ar draws y dosbarthiad cyfan. Mae senario gwahanol yn dangos y gallai effeithio ar fyfyrwyr o **gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is** yn bennaf tra byddai myfyrwyr o deuluoedd incwm uchel yn parhau i ddysgu. Mae'r trydydd senario yn dangos y gallai arwain at gynnydd yn nifer y myfyrwyr o gefndiroedd economaidd is sy'n gadael yr ysgol.

Mae llawer o adroddiadau yn cytuno ag Iqbal *et al.* (2020) y bydd yr effaith ar safon dysgu myfyrwyr yn amrywio yn dibynnu ar eu **mantais economaidd-gymdeithasol** a'u **mynediad at dechnoleg** (Kanwar a Daniel, 2020; Hattie, 2020b; Kurtz, 2020; Montacute, 2020). Gall hyn fod oherwydd y ffordd y mae ysgolion yn trin Addysgu o Bell mewn Argyfwng (yr hyn y maent yn ei wneud a'r hyn nad ydynt yn ei wneud) neu mewn perthynas â **dyfeisgarwch rhieni** (gan gynnwys gallu rhieni i weithredu fel athrawon eu plant pan fydd gan y rhieni eu hunain lefel uchel o addysg, er enghraifft). Mae'r olaf yn arbennig o bwysig os yw rhywun yn cytuno â Hattie bod profiad llawer o ddysgwyr yn ystod COVID-19 yn fwy tebyg i ysgol gartref nag i ddysgu o bell (Hattie, 2020a).

Mae addysgwyr yn fwyaf tebygol o bryderu am fyfyrwyr sydd ar ei hôl hi mewn mathemateg (Kurtz, 2020; Major a Machin, 2020; Montacute, 2020; Müller a Goldenberg, 2020) er bod dysgu Saesneg neu iaith arall hefyd yn cael eu crybwyll mewn rhai astudiaethau (gweler, e.e. Kurtz, 2020). Rhagwelodd un astudiaeth, a oedd yn ystyried data blaenorol ar absenoldeb; gwyliau haf rheolaidd; cau ysgolion oherwydd trychinebau naturiol; neu bandemig, fod myfyrwyr yn debygol o ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi 2020 gyda 63-68 y cant o'r sgoriau disgwylidig ar gyfer darllen a 37-59 y cant o'r sgoriau disgwylidig ar gyfer mathemateg o'u cymharu â blwyddyn ysgol arferol (Kuhfeld et al, 2020). Yn ôl astudiaeth arall ar raddfa fawr yn UDA, ym mis Mai 2020 cafwyd gostyngiad o 69 y cant yng nghyfranogiad myfyrwyr mewn gwaith cwrs mathemateg ar-lein o un rhaglen fathemateg, a gostyngiad o 58 y cant yn y cynnydd o'i gymharu â mis Ionawr 2020 (Track the Recovery, 2020). Rheswm arall i boeni am fathemateg yn ystod ac ar ôl COVID-19 yw ein bod yn gwybod bod cyfranogiad rhieni mewn gwaith cartref yn cael effaith niweidiol ar berfformiad a chymhelliant plant ym mhwnc mathemateg (yn enwedig i fechgyn) (Silinskas a Kikas, 2019).

Efallai y bydd y myfyrwyr ieuengaf a'r hynaf mewn risg uwch pan ddefnyddir Addysgu o Bell mewn Argyfwng, ond am wahanol resymau. Gallai mynd i ysgol uwchradd neu goleg fod yn brofiad academaidd sy'n newid bywyd os yw'n helpu myfyrwyr i fod yn fwy uchelgeisiol yn eu dewisiadau gwaith ac addysg ar ôl hynny. Mae cau ysgolion yn cyfyngu ar allu myfyrwyr hŷn i gwrdd ag oedolion (athrawon, cwnselwyr, gweithwyr cymdeithasol) a chyfoedion a fyddai fel rheol yn eu helpu i wneud penderfyniadau pwysig am eu dyfodol (Carver, 2020; Harries, 2020). Ond gallai'r effaith gydnabyddedig o anghofio'r hyn a ddysgwyd dros yr haf effeithio'n fwy ar gynnydd plant iau (Müller a Goldenberg, 2020).

Efallai y bydd llawer o fyfyrwyr yn dioddef canlyniadau unrhyw waith ysgol na wnaed yn ystod y cyfnod cau (Kurtz, 2020). Gallai'r canlyniadau fod yn fwy gan na fyddai ysgolion yn gallu asesu myfyrwyr yn brydlon ym mis Medi 2020, a gallent fod yn fwy eto os nad oes gan ysgolion strategaethau ar sut i'w lliniaru'n gyflym (Lake a Dusseault, 2020a).

Gellid disgwyl rhai canlyniadau mwy cadarnhaol hefyd gan gynnwys:

- **hyder digidol** dysgwyr yn gwella o ganlyniad i ddysgu cyfunol COVID-19 fel y nodwyd yn Awstria (Müller a Goldenberg, 2020),
- plant yn dod yn **ddysgwyr mwy annibynnol** ac yn ailddarganfod pa mor foddhaus yw dysgu ar ôl dychwelyd i addysg amser llawn fel y nodwyd yn y Ffindir (Gweminar Brookings, 2020),
- **arloesedd digymell athrawon** yn ystod y pandemig a oedd o fudd i ddysgwyr mewn modd sy'n mynd y tu hwnt i gyd-destun yr argyfwng, fel y nodwyd yn y Ffindir (Gweminar Brookings, 2020).

Yn fwy cyffredinol, mae'r ymchwil yn awgrymu bod y myfyrwyr hynny sydd fwyaf ar ei hôl hi yn ystod y cyfnod pan mae'r ysgolion ar gau yn fwy tebygol, serch hynny, o ddatblygu'n fwy nag eraill pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol (Kuhfeld *et al.*, 2020, Hattie, 2020b). Mewn perthynas â hyn, mae rhai o'r astudiaethau'n cyfeirio at effaith daeargryn 2010/11 yn Seland Newydd, lle roedd perfformiad dysgwyr yn is yn 2010, ond nid yn 2011, pan gafwyd perfformiad yn y rhanbarthau yr effeithiwyd arnynt a oedd yn well na pherfformiad y wlad ar gyfartaledd. Mae dehongliadau o hyn yn amrywio (Müller a Goldenberg, 2020). Efallai ei fod o ganlyniad i broses raddio arbennig yn sgil effeithiau negyddol y daeargryn, lle roedd gan ysgolion yr hawl i wneud cais am ystyriaeth arbennig i rai myfyrwyr (er nad yw'n glir faint). Ond yn ôl John Hattie roedd hyn oherwydd bod athrawon yn canolbwyntio ar yr hyn yr oedd angen i fyfyrwyr ei ddysgu yn hytrach na chadw myfyrwyr yn brysur (Hattie, 2020b). Weithiau mae'r dystiolaeth ynghylch cau ysgolion yn ddirybudd yn anghyson o ran yr effaith bosibl ar ddysgwyr ac rydym yn cyfeirio'r darlennydd at Müller a Goldenberg (2020) am drafodaeth fwy cynhwysfawr am hyn.

### 3.4 *Cyngor sy'n dod i'r amlwg ar ymagweddau at addysg ysgol yn ystod ac ar ôl COVID-19*

Mae'r cyngor sy'n dod i'r amlwg yn ymwneud â lliniaru'r effaith a amlinellir uchod yn ogystal ag adeiladu gwytnwch tymor hir mewn systemau addysgol (EEF, 2020; Carver, 2020; Harris, 2020; Lake a Dusseault, 2020b; Kurtz, 2020; Hattie, 2020a a 2020b, Kanwar a Daniel, 2020, Bonilla *et al.*, 2020; Donaldson, 2020). Dyma rai o'r canfyddiadau ynghylch mesurau tymor byr:

- Fel ymateb brys i'r argyfwng mae angen i ysgolion a systemau addysgol sicrhau bod gan fyfyrwyr **fynediad at dechnoleg** ond hefyd **gysylltu dysgwyr ag ysgolion ac athrawon**, yn enwedig ar gyfer disgyblion difreintiedig.
- Efallai y bydd pontio i addysgu o bell yn haws i systemau addysgol sydd eisoes yn defnyddio adnoddau digidol, ond mae **hwyluso mynediad at ddysgu a rhagor o ddysgu gwahaniaethol** yn allweddol. Mae John Hattie (2020a) yn cynnig cymaint â deg grŵp o ddysgwyr y gallai fod arnynt angen mwy o amser athrawon (a/neu amser athrawon mewn ffyrdd gwahanol): (1) myfyrwyr â lefel isel o hunanreoleiddio sy'n ddibynnol iawn ar athrawon; (2) y rhai sy'n dychwelyd gyda lefel uchel o straen, pryderon emosiynol a/neu broblemau ymddygiad; (3) myfyrwyr heb hyfedredd neu â hyfedredd isel o ran defnyddio'r strategaethau a'r arweiniad sy'n angenrheidiol i ddatblygu; (4) myfyrwyr sydd â mynediad at lai o adnoddau addysgol; (5) myfyrwyr a oedd eisoes mewn sefyllfa lle nad oeddent yn gwneud digon o gynnydd yn yr ysgol; (6) myfyrwyr sydd â disgwyliadau isel o'u hunain fel dysgwyr; (7) y rhai sydd â diffyg hyfedredd mewn sgiliau darllen a rhifedd, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar; (8) myfyrwyr sy'n byw mewn

cartrefi nad ydynt yn ddiogel; (9) myfyrwyr y mae gan eu rhieni allu neu awydd isel i gymryd rhan yn y gwaith ysgol gartref; (10) dysgwyr sy'n paratoi ar gyfer arholiadau pwysig yn colli'r cyfle i ymgysylltu.

- Efallai y bydd angen ail-edrych ar **reolau ysgol**, gan gynnwys polisiau ar oriau cyswllt, mesurau perfformiad ysgolion ond hefyd reolau yn erbyn athrawon yn rhyngweithio â myfyrwyr y tu allan i'r ysgol, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r rheolau hyn yn gwneud synnwyr yn ystod amseroedd arferol, ond gallai fod angen y gwrthwyneb ar fyfyrwyr mewn argyfwng.
- Mae angen gwneud penderfyniadau anodd wrth weithredu atebion sy'n annhebygol o gyrraedd yr holl fyfyrwyr. Y cyngor sy'n dod i'r amlwg yw y dylid gwneud popeth o fewn eich gallu i fynd i'r afael â'r argyfwng, yn hytrach na chadw at y rheolau sy'n gweddu i bawb, oherwydd byddai peidio â gwneud hyn yn cyfrannu at annhegwch pellach.
- O ran **myfyrwyr ôl-16** yn benodol, dylid rhoi cyngor a chefnogaeth ragweithiol i bob myfyriwr ac yn enwedig y rhai a allai benderfynu peidio â pharhau â'u haddysg. 'Efallai y bydd dosbarth 2020 wedi graddio ond ni ddylid eu hanghofio' (Bonilla *et al.*, 2020, t.1).
- Ni ellir gorbwysleisio pa mor bwysig yw **hyfforddiant amserol i athrawon ar addysgu o bell**.

Mae mesurau tymor hir yn cynnwys:

- Parhau i ddatblygu **systemau technolegol** ar gyfer addysg, gan gynnwys cyfleoedd dysgu o bell a chyfleoedd dysgu agored,
- Cynnwys senarios ar gyfer ymdopi ag argyfwng mewn **hyfforddiant athrawon a datblygiad proffesiynol**. Mynegodd y Ffindir, er enghraifft, farn bod eu hyfforddiant ar-lein i athrawon a weithredwyd fel rhan o bolisi ehangach ar ddigideiddio wedi helpu athrawon yn ystod y cyfnod cau ysgolion (Gweminar Brookings, 2020),
- Cryfhau **sgiliau dysgu annibynnol**.

O ran datblygu sgiliau dysgu annibynnol dysgwyr yn y tymor hir, mae John Hattie yn honni bod ysgolion Awstralia a ddefnyddiodd ei fframwaith *Visible Learning*, gyda'r ffocws ar ddysgwyr yn gweithredu fel eu athrawon eu hunain, wedi gweld budd y dull hwn yn ystod y cyfnod cau ysgolion o ganlyniad i COVID-19 (Hattie, 2020b). Cafwyd ymatebion cymysg i'r fframwaith *Visible Learning* ers iddo gael ei gyflwyno gan Hattie yn 2008 (gweler, e.e., Terhart, 2011) ond gellid defnyddio mesurau eraill, megis rhoi gwaith cartref rheolaidd i ddysgwyr, dysgu cydweithredol, hunanasesu ac asesu gan gyfoedion mewn '**ystafell ddosbarth wrthdro**' (gweler adran 4), ac arferion sy'n gysylltiedig ag asesu ar gyfer dysgu, er mwyn cryfhau systemau addysgol. Un enghraifft ddiddorol yw Singapôr, lle cyflwynwyd dau ddiwrnod o ddysgu gartref y flwyddyn ar ôl yr argyfwng SARS yn 2013 fel y gallai athrawon, dysgwyr a rhieni ymarfer amgylcheddau addysgu o bell (Hattie, 2020a). Er bod addysgu o bell yn gofyn am aeddfedrwydd gan ddysgwyr a'r gallu i hunanreoleiddio, mae'n werth pwysleisio ein bod yn gwybod bod amgylcheddau dysgu o bell yn cyfrannu at annibyniaeth dysgwyr (gweler, e.e. Lyakhova a Joubert, 2019 a'r cyfeiriadau ynddo).

I fynd i'r afael â **cholledion dysgu** unwaith y bydd myfyrwyr yn ôl yn yr ysgol, awgrymwyd y canlynol (Bonilla *et al.*, 2020; Allensworth a Schwartz, 2020; Jones *et al.*, 2020):

- dylid blaenoriaethu ymyriadau grŵp bach neu un i un fel tiwtora dwys sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chynnwys academaidd,
- argymhellir y dylid osgoi cefnogi anghenion ychwanegol dysgwyr wrth roi addysg gyffredinol yn y dosbarth, ac osgoi defnyddio cwricwlwm talfyredig neu ail-wneud y safon neu flwyddyn,
- mae angen hwyluso asesiadau effeithiol o'r hyn y mae myfyrwyr yn ei wybod ond hefyd sut y maent yn teimlo (Lake ac Olson, 2020). Argymhellir y dylid cynnwys rhieni fel partneriaid fel rhan o bolisi dychwelyd i'r ysgol a cheisio sylwadau gan rieni ynghylch sut y datblygodd cryfder, diddordebau ac arferion dysgu eu plant ond hefyd i gynnig hyfforddiant llythrennedd asesu,
- argymhellir y dylid rhoi hyfforddiant i athrawon ar asesu, yn enwedig os rhagwelir y bydd gwaith asesu athrawon yn disodli asesu wedi'i safoni (Müller a Goldenberg, 2020).

Er nad yw systemau asesu diwedd blwyddyn llawer o wledydd yn wydn yn yr argyfwng presennol yn ôl pob golwg, mae rhai o'r farn bod rôl **asesu** yn dod yn fwy blaenllaw unwaith eto wrth i addysgwyr ystyried ffyrdd o ddefnyddio asesu dilys (Kanwar a Daniel, 2020, t.9, gweler hefyd Contact North, 2020 i gael rhestr o'r tueddiadau lle mae asesu yn newid yn ystod ac ar ôl yr argyfwng). Argymhellir y dylid cryfhau addysgu o bell yn barhaol gan gynnwys datblygu strategaethau ar gyfer asesu rhithwir ochr yn ochr â pharatoi ar gyfer ailagor ysgolion (IE, 2020).

Yn olaf, mae'r cyngor ar dulliau o ddarparu Addysg o Bell mewn Argyfwng yn nodi y gall addysgu o bell fod yn effeithiol os defnyddir strategaethau priodol (Müller a Goldenberg, 2020), ac rydym yn ystyried hyn yn adran 4. Ansawdd addysgu yw'r elfen bwysicaf, ac mae'n bwysicach na'r dull o gynnal gwersi (EEF, 2020). Ymhlith y ffactorau sy'n effeithio ar effeithiolrwydd dysgu o bell mae parodrwydd a gallu athrawon a myfyrwyr, yr amgylchedd dysgu gartref, a'r cymorth a roddir i deuluoedd (Frankel, 2020). Ar lefel ymarferol, gwelir bod rhyngweithio â chyfoedion yn gwella canlyniadau dysgu mewn addysgu o bell tra gall cydweithio â chyfoedion hefyd roi cymhelliant (EEF, 2020).

### *3.5 Enghreifftiau o gynlluniau i ailagor ysgolion yn UDA*

Mae adroddiad a gyhoeddwyd ar 14 Gorffennaf 2020 yn nodi bod tri model dysgu yn cael eu hystyried (Lake a Dassault, 2020c): addysgu **wyneb yn wyneb** gan gadw pellter cymdeithasol; **addysgu o bell**; ac opsiwn **hybrid** sy'n cyfuno dysgu wyneb yn wyneb a dysgu o bell. Mae'r holl ardaloedd a ystyrir yn yr adroddiad yn cynllunio ar gyfer o leiaf ddau senario gyda rhywfaint yn cynllunio ar gyfer y tri. Ond nid oes gan lai na thraean o'r ardaloedd unrhyw gynlluniau ar gyfer opsiwn wyneb yn wyneb. Mae rhai ardaloedd yn bwriadu agor gyda threfniadau cyfan gwbl o bell a chyflwyno amserlen hybrid yn ôl amserlen bob yn ail ddiwrnod erbyn mis Tachwedd, gan ddechrau gyda myfyrwyr iau (t.4).

Dyfynnir y strategaethau canlynol o ran arwain teuluoedd tuag at un model neu fodel arall:

- caniatáu i fyfyrwyr neu deuluoedd optio allan o ddysgu **o bell amser llawn**, hyd yn oed wrth gynllunio ar gyfer dysgu amser llawn yn yr ysgol,
- gofyn i rieni ddewis rhwng naill ai dysgu **amser llawn o bell** neu **wyneb yn wyneb** cyn penderfynu ar amserlen pob ysgol. Bydd ysgolion sydd â llai na 75 y cant o bobl yn mynegi diddordeb mewn addysgu wyneb yn wyneb yn cael pum diwrnod o ddsbarthiadau yr wythnos, a bydd ysgolion sydd â mwy na 75 y cant yn mynegi diddordeb yn symud i opsiwn hybrid i leihau maint dosbarthiadau (t.4),

- cynnig mwy nag un opsiwn yn **gyfan gwbl o bell**, fel (a) myfyrwyr yn cael eu haddysgu'n fyw gyda goruchwyliaeth gan eu hysgol a (b) cofrestru myfyrwyr ar gyfer ysgol ar-lein i weithio ar eu cyflymder eu hunain, sy'n cyflogi athrawon lleol ond sy'n dibynnu ar isadeiledd ysgol rithwir sy'n gweithredu ledled y dalaith.

Gyda'r model **hybrid** rhoddir blaenoriaeth i amserlenni sy'n newid bob yn ail ddiwrnod ac sy'n darparu ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon, er mwyn gallu glanhau'r ysgol neu gynnig ymyrraeth mewn grŵp bach i fyfyrwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys:

- rhannu myfyrwyr yn ddwy garfan, gyda phob un yn cael profiad dysgu wyneb yn wyneb ddau ddiwrnod yr wythnos a dysgu o bell dri diwrnod yr wythnos. Mae hyn yn golygu y gellir cael un diwrnod yr wythnos o addysgu o bell, heb unrhyw fyfyrwyr yn yr ysgol,
- rhannu myfyrwyr yn dair carfan sy'n newid lle, gydag un wythnos wyneb yn wyneb a dwy wythnos o bell,
- rhannu myfyrwyr yn ddwy garfan gydag wythnos yn yr ysgol ac wythnos o bell, gydag un diwrnod yr wythnos yn gyfan gwbl o bell,
- cynnig hyd at bum diwrnod i fyfyrwyr cynradd o ddysgu wyneb yn wyneb, tri i bedwar diwrnod i fyfyrwyr ysgol ganol, a dau ddiwrnod i fyfyrwyr ysgol uwchradd.

Yn ogystal â gwahaniaethu yn ôl oedran, mae enghreifftiau o grwpiau â blaenoriaeth yn cynnwys myfyrwyr ag anableddau, dysgwyr Saesneg neu'r rhai sydd ar ei hól hi yn academaidd. Efallai y gofynnir i ysgolion fonitro ac atgyfeirio mwy o fyfyrwyr wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. Yn seiliedig ar adborth gan rieni am gau ysgolion yn y gwanwyn, mae'r adroddiad yn nodi bod ysgolion yn bwriadu cynyddu'r addysgu byw i 'leihau'r baich ar y teulu' (t.5).

#### 4. Dulliau ymarferol o addysgu o bell

Isod, rydym yn ystyried dulliau ymarferol o gynnig addysg o bell, yn seiliedig ar amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys canllawiau ymarferol a gyhoeddwyd yn benodol ar gyfer COVID-19 ac arferion a fabwysiadwyd gan Raglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru sydd wedi darparu dysgu cyfunol ar lefel ysgolion yng Nghymru ers 2010 (COL, 2020; EEF, 2020; Finkel, 2020; FMSP, 2017; Golding a Bretscher, 2018; Hernández-García *et al.*, 2015; Hodges, 2020; IBO, 2020; IE, 2020; Imlawi *et al.*, 2015; Lyakhova a Joubert, 2019; Müller a Goldenberg, 2020; Sibley, 2020; S4, 2020; Atodiad B).

##### *Cynllunio cwrs addysgu o bell*

Yn ôl Hodges *et al.* (2020), gallai hyfforddiant, gwaith paratoi a gwaith datblygu ar gyfer cwrs cwbl ar-lein gymryd naw mis neu fwy ac mae angen o leiaf ddau neu dri chylch cyflwyno cyn i athrawon deimlo'n gyfforddus am ddull cyflwyno newydd. Mae'n well cynllunio, monitro ac adolygu cwrs addysgu o bell fel tîm. Yn amodol ar gynllunio da (IBO, 2020), gellid rhannu adnoddau dysgu neu hyd yn oed y cyrsiau cyfan rhwng lleoliadau addysgol, gan ryddhau mwy o amser athrawon, lle mewn ysgolion, ac adnoddau eraill i'r dysgwyr hynny sydd eu hangen fwyaf.

Cyn cynllunio dylai athrawon fod yn eglur ar yr agweddau canlynol:

- polisi eu sefydliad ar ddiogelu, preifatrwydd a GDPR, recordiadau a dulliau cyfathrebu,

- seilwaith (pa ystafell rithwir neu gyfleuster recordio, sy'n cyflenwi offer a gwerslyfrau, a yw'n ddigon i bob dysgwr),
- cynnwys academiaidd y cwrs (beth i'w ddysgu),
- nifer yr oriau ar gyfer oriau cydamserol (wyneb yn wyneb neu ar-lein) sydd ar gael (o bosibl),
- disgwyliadau uchel o ran hwyluso dysgu rhwng gwersi (dull **anghydamserol**) sydd yr un mor bwysig â gwersi go iawn (dull **cydamserol**) wrth addysgu o bell.

Mae sefydliadau sydd â phrofiad o addysgu o bell yn cynllunio'r cwrs cyfan ac yn aml yn dechrau trwy ddylunio asesiadau a fydd yn rhan o'r cwrs. Ystyriwch hefyd pa *fethodolegau newydd* a *sgiliau addysgu newydd* (rhannu sgrin, recordio, llais, rheoli ystafelloedd, offer ar gyfer rhoi adborth) y mae angen eu datblygu a sut i gyflawni hwnnw. Er enghraifft, o ran rheoli ymddygiad ar gyfer dysgu mewn sesiynau ar-lein, mae angen i athrawon fynd i'r afael â chwestiynau fel 'sut ydw i'n gwybod bod y myfyrwyr yn bresennol (ac nad siarad â'u peiriannau yn unig ydw i)?' a 'sut ydw i'n gwybod bod y myfyrwyr yn dysgu?'. Bydd y dull yn dibynnu ar lawer o ffactorau gan gynnwys y cyfleuster technolegol a ddefnyddir, felly mae ystyried sut i fanteisio ar nodweddion technoleg yn bwysig ochr yn ochr â'r cynllunio.

#### *Dysgu cydamserol, anghydamserol a dysgu cyfunol*

Mae tystiolaeth i awgrymu bod **dysgu cyfunol** fel cyfuniad o ddysgu wyneb yn wyneb a dysgu o bell yn gallu bod yr un mor effeithiol â dysgu mewn ystafell ddosbarth i lawer o fyfyrwyr (Frankel, 2020). Ond mae gan y naill fodd neu'r llall fanteision ac anfanteision, a gallai'r naill neu'r llall gefnogi cydweithio â chyfoedion, gweler Tabl 4 isod. Efallai y bydd dysgwyr hŷn yn ymdopi â mwy o hyblygrwydd, yn gofyn amdano, ac yn elwa arno, felly gallai gweithgareddau **anghydamserol** weithio orau i'r grŵp hwn o fyfyrwyr, tra gall dysgwyr ifanc elwa ar strwythur sesiynau **cydamserol**.

Tabl 4. Opsiynau deunyddiau dysgu ar-lein (wedi'i addasu a'i ehangu o Sibley, 2020).

Opsiynau i'w hystyried	Manteision	Heriau
Gwers wedi'i recordio ymlaen llaw	<ul style="list-style-type: none"> <li>- gellir ei haildefnyddio</li> <li>- nid yw'n dibynnu ar bresenoldeb llawn yn fyw</li> <li>- gellir ei golygu</li> <li>- nid yw'n ddibynnol ar gyfleuster recordio ystafell, gellir ei recordio neu ei gynnal yn unrhyw le</li> <li>- gall un aelod o'r tîm greu fideo i sawl person ei ddefnyddio</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- efallai y bydd angen sawl rhyngweithiad i greu deunyddiau o safon a fyddai'n para</li> <li>- dim rhyngweithio, cyfathrebu na goruchwyllo byw</li> <li>- dim adborth ar gyfer dysgwyr nac athrawon; efallai na fydd y cynnwys yn arwain at ddysgu, ond efallai na fydd athrawon yn gwybod</li> <li>- efallai y bydd angen defnyddio meddalwedd y mae'n rhaid talu amdano i recordio a golygu'r cynnwys</li> <li>- yn gallu cymryd llawer o le ar yriant</li> </ul>

Gwers ar-lein fyw	<ul style="list-style-type: none"> <li>- gellir ymateb yn uniongyrchol</li> <li>- yn cynnig goruchwyliaeth</li> <li>- yn caniatáu golwg ar ymatebion myfyrwyr mewn amser real</li> <li>- yn creu ymdeimlad o gymuned</li> <li>- addas ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau</li> <li>- gellir cydweithio drwy sgwrsio, holi ac ateb, rhannu sgrin, cynnal pleidleisiau, a thrafodaethau grŵp</li> <li>- cyfle i weld ei gilydd wyneb yn wyneb</li> <li>- gall fod yn anffurfiol, nid oes angen gorbaratoi</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- angen cysylltiad â'r rhyngwrwyd</li> <li>- angen cynllun a chynllun wrth gefn</li> <li>- angen amser i ddod yn gyfarwydd â nodweddion yr ystafell</li> <li>- efallai y bydd angen athro arall arno i gadw llygad ar y teclyn sgwrs (sy'n weladwy i bawb) a'r teclyn cwestiynau ac atebion (sy'n weladwy i'r athro yn unig)</li> <li>- gall rheoli ymddygiad ar-lein ar gyfer dysgu fod yn her</li> <li>- Gall gweld wynebau uniongyrchol fod yn waith caled iawn, gallai'r rhai sy'n cymryd rhan deimlo bod profiad sy'n teimlo fel cyswllt llygaid uniongyrchol yn barhaus yn brofiad sy'n peri gofid</li> <li>- Mae rhai gweithgareddau'n addas ar gyfer grwpiau bach yn unig</li> </ul>
Recordio gwers fyw ar-lein	<ul style="list-style-type: none"> <li>- gellir ei hailddefnyddio</li> <li>- yn cadw cofnod ar gyfer diogelu</li> <li>- ar gael er mwyn i'r rhai sy'n absennol ddal i fyny</li> <li>- mae dysgwyr yn hoffi ailwyllo recordiadau i wella eu dealltwriaeth ac i adolygu cyn yr arholiad</li> <li>- gellir edrych dros wersi a recordiwyd, neu gael eraill i'w hadolygu, ar gyfer datblygiad proffesiynol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- ni ellir aildefnyddio popeth, e.e. mae camgymeriadau'n parhau</li> <li>- gall materion diogelu data a'r hawl i aros yn ddiennw fod yn broblem</li> <li>- gallai effeithio ar bresenoldeb</li> <li>- efallai na fydd myfyrwyr eisiau cael eu recordio</li> </ul>
Dangos wynebau yn uniongyrchol wrth gynnal gwers ar-lein	<ul style="list-style-type: none"> <li>- gall greu ymdeimlad o gymuned</li> <li>- gallai fod yn angenrheidiol ar gyfer rhai mathau o gynnwys</li> <li>- gallai fod yn angenrheidiol ar gyfer rhai mathau o asesu</li> <li>- gallai fod yn angenrheidiol ar gyfer dysgwyr iau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- mae angen ystyried yn ofalus yr hyn sy'n weladwy (diogelu data, diogelu)</li> <li>- gallai gweld wynebau uniongyrchol fod yn waith caled iawn a thynnu sylw</li> <li>- gall deimlo fel cael eich gwyllo'n ofalus</li> </ul>

O ran **dysgu yn gyfan gwbl ar-lein**, wrth gymharu dau ddull addysgu, **anghydamserol** a **chydamsersol**, a ddefnyddiwyd gan ysgolion yn Tsieina am chwe wythnos yn ystod COVID-19, canfuwyd bod dosbarthiadau ysgol a gafodd wersi ar-lein byw (**cydamserol**) wedi gwella canlyniadau dysgu yn sylweddol o gymharu â'r dosbarthiadau lle roedd gwersi yn cael eu recordio ymlaen llaw a'u hanfon drwy e-bost (**anghydamserol**) (Yao *et al.*, 2020). Mae'r astudiaeth yn cynnig y dylai athrawon weithredu fel 'arweinwyr' a 'hebryngwyr' wrth addysgu o bell, yn hytrach na throsglwyddo gwybodaeth yn unig. Ar lefel addysg uwch, nododd darlithwyr y byddai'n bwysig gwneud yn iawn am y ffaith bod llai o gyfleoedd i gael trafodaethau un i un â myfyrwyr, megis drwy gynnig cyfarfodydd ychwanegol ac estynedig i fyfyrwyr (Watermayer *et al.*, 2020).

### *Gwerthuso a dilysu gwaith myfyrwyr ar-lein*

Dylid mabwysiadu dull cyfannol o werthuso a dilysu gwaith myfyrwyr ar-lein. Gallai ysgolion sy'n defnyddio **system rheoli dysgu** ystyried amser mewngofnodi, data cydweithio, a data o ran cyflwyno gwaith i werthuso pa mor hir a pha mor aml yr oedd myfyrwyr yn gweithio ar aseiniadau. Gall cyfweld â myfyrwyr am eu gwaith mewn sgwrs gydamserol helpu athrawon i ddilysu gwaith myfyrwyr. Mae'r cyngor arall yn cynnwys

- creu aseiniadau sy'n gydweithredol a gweithio'n uniongyrchol gyda grwpiau o fyfyrwyr,
- defnyddio meddalwedd gwirio rhag llên-ladrad,
- gwerthuso drafftiau cyn eu cyflwyno'n derfynol (a rhoi adborth),
- creu llyfrgelloedd a rhestri darllen i fyfyrwyr eu defnyddio a'u dyfynnu yn eu haseiniadau,
- creu cwestiynau a phrofiadau lle mae angen i ddysgwyr ddefnyddio eu gwybodaeth a'u profiad,
- cael polisi clir ynglŷn â chyflwyno aseiniadau a gwaith cartref,
- parhau i roi aseiniadau y mae angen eu hysgrifennu a'u graddio (â llaw neu ar-lein) os oes gofyn i fyfyrwyr ysgrifennu ar gyfer arholiadau a phrofion. Mae angen i'r rhain gael eu dylunio mewn modd sy'n rhoi lle i adborth gan athrawon (gweler, e.e. S4, 2020).

### *Cyfranogiad rhieni a rolau mentoriaid*

Mewn astudiaethau o blant ysgol sy'n astudio ar-lein, nodwyd bod angen rôl mentor yn ogystal â rôl y tiwtor, gan nad yw'r tiwtor yn yr un lleoliad (Hernández-García *et al.*, 2015; Imlawi, 2015). Rydym yn gwybod bod rhieni'n ymgymryd â'r rôl hon pan fyddant yn rhoi cyfarpar, yn monitro gwaith cartref myfyrwyr, yn sicrhau bod gan blant amser a lle i gwblhau gwaith ar-lein, ac yn eu helpu gyda'r amserlen adolygu. Efallai y byddai sgiliau academaidd, argaeledd, neu ddiddordeb rhieni yn ddylanwad fyddai'n arwain at gyfranogiad uwch gan rieni (Lyakhova a Joubert, 2019), a gallai hyn waethygu'r sefyllfa o ran cydraddoldeb yn ystod Addysgu o Bell mewn Argyfwng.

### *Cymorth i ddysgwyr*

Efallai y bydd rhai myfyrwyr mewn gwell sefyllfa nag eraill i ddysgu o bell ac yn annibynnol, ac argymhellir y dylid rhoi cefnogaeth ar waith i bob dysgwr drwy greu sefyllfaoedd dysgu newydd a helpu dysgwyr i ddatblygu strategaethau dysgu newydd. Yn ogystal ag ymgorffori amryw ffynonellau adborth ffurfiannol (awtomataidd, athrawon a chyfoedion) mewn cwrs addysgu o bell, gall ymarferwyr ystyried:

- cynnwys modiwlau sgiliau astudio neu ddiwrnodau cynefino,
- asesu gwybodaeth academaidd cyn cwrs, ynghyd â sgiliau astudio dysgwyr, gweler e.e., graddfa hunanreoleiddio dysgwyr yn Atodiad A,
- creu disgwyliadau clir ynghylch y gwahanol fathau o waith a ddisgwylir gan fyfyrwyr, megis gwaith cartref, hunanastudio, '**ystafell ddosbarth wrthdro**' (gweler isod), prosiectau cydweithredol ac ati;
- helpu myfyrwyr i greu amserlen hunanastudio a'i dilyn,
- rhoi trefniadau effeithlon ar waith i sicrhau bod gan ddysgwyr fynediad at athrawon wrth weithio oddi ar y campws,
- monitro cyfranogiad myfyrwyr mewn gwersi (gwrando, cymryd nodiadau, ateb/peidio ag ateb cwestiynau, gofyn/peidio â gofyn cwestiynau, cymryd rhan mewn arolygon barn,



blwch sgwrsio, sesiynau holi ac ateb, a gweithgareddau eraill) a'r cydweithio rhwng cyfoedion mewn gwersi a rhwng y gwersi, a threfnu trafodaethau rheolaidd gyda dysgwyr a theluoedd am y rhain,

- hysbysu rhieni am ddiwyddiadau a therfynau amser pwysig ymlaen llaw.

Dyma brif gyngor Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru:

- creu a rhannu cynllun astudio gyda'r myfyrwyr ar ddechrau'r cwrs yn amlinellu dyddiadau a phynciau sesiynau **cydamserol** (gwersi, diwrnodau adolygu, ymweliadau ysgol) wedi eu cysylltu â deunyddiau **anghydamserol** (deunyddiau angenrheidiol, aseiniadau a chwestiynau estyn) ar gyfer pob gwर्स,
- cysylltu rhai (ond nid pob un) o'r aseiniadau ag arholiadau safonol,
- cynnwys ffynonellau cyfnewidiol, rhai print a rhai digidol, ar gyfer gwaith cartref a hunanastudio.

### *Addysgu o Bell neu Ystafell Ddosbarth Wrthdro?*

Efallai y bydd rhai athrawon yn gyfarwydd â'r dull '**ystafell ddosbarth wrthdro**', lle cyflwynir deunyddiau dysgu newydd i fyfyrwyr, drwy fideo byr i'w wyllo gartref er enghraifft. Mae hyn yn caniatáu mwy o amser ar gyfer dysgu cydweithredol a datrys problemau mwy cymhleth yn y dosbarth (Oakes *et al.*, 2018). Mae dull ystafell ddosbarth wrthdro yn wahanol i ddysgu cyfunol ond gallai'r naill ddull neu'r llall fod yn ddefnyddiol yng nghyd-destun addysgu o bell. Mae deunyddiau ystafell ddosbarth wrthdro a ddysgir gartref yn paratoi myfyrwyr ar gyfer dysgu yn y dosbarth (yn gydamserol) tra bod sesiynau dysgu cyfunol cydamserol (ar-lein neu wyneb yn wyneb) yn anelu at baratoi dysgwyr ar gyfer dysgu'n annibynnol.

### *Pontio yn ôl o Addysgu o Bell mewn Argyfwng*

Efallai y bydd angen cynllun ar gyfer pontio yn ôl i'r system arferol ar ôl addysgu o bell mewn argyfwng oherwydd efallai y bydd y dysgwyr wedi dod yn gyfarwydd â dysgu'n annibynnol, gweithgareddau byrrach, aseiniadau anghydamserol, mwy o ryddid yn eu hamserlen a llai o gydweithio wyneb yn wyneb. Efallai y bydd athrawon wedi cael digon ar ddatblygiad proffesiynol cyflym, efallai nad oeddent wedi cael amser i werthuso gwaith myfyrwyr ac efallai eu bod yn teimlo'n llai hyderus bod eu haddysgu o bell wedi paratoi myfyrwyr ar gyfer asesiadau ac arholiadau wyneb yn wyneb traddodiadol.

## **5. Casgliadau ac Argymhellion**

I gloi, mae addysgu o bell yn gryn her a byddai ei roi ar waith ar lefel ysgol yn arloesiad sylweddol y byddai angen cefnogaeth ddigonol ar ei gyfer. Wrth addysgu o bell mae angen dulliau newydd o ddarparu sgaffaldwaith, asesiad ac adborth i ddysgwyr, a strwythur gwahanol ar gyfer 'diwrnod' neu 'wythnos' ysgol i ddysgwyr ac athrawon, a rhagor o wahaniaethu wrth addysgu. Nid oes fframwaith methodolegol cydnabyddedig ar gyfer cyflwyno addysgu o bell ar lefel ysgol, a dim ond hyn a hyn o dystiolaeth sydd ar gael ynghylch pynciau penodol, yn enwedig ar gyfer plant iau. Pan fydd awgrymiadau ar gyfer dulliau llwyddiannus ar gael (megis ar gyfer myfyrwyr hŷn), gan nad oes diffiniad cadarn o'r dulliau a'r termau nid yw'n debygol y bydd modd cael eglurder ynghylch cyflwyno addysgu o bell a'i oblygiadau (Farley, 2020).

Wrth gyflwyno trefniadau addysgu o bell, argymhellir y dylid ystyried y pwyntiau a ganlyn o ran arweiniad ysgolion a seilwaith:

- ailbwysleisio hawl pob dysgwr i'r cwricwlwm ac (a) hwyluso mynediad at adnoddau a (b) gosod disgwyliadau uchel yn gyson mewn perthynas ag ansawdd y gwaith addysgu, monitro presenoldeb, rhoi adborth ac asesu,
- ailystyried rheoliadau a pholisïau fel y gellir arloesi wrth addysgu o bell,
- cryfhau'r defnydd o dechnoleg ac asesu ymhlith athrawon drwy ddatblygiad proffesiynol,
- creu'r seilwaith i gefnogi'r arloesedd hwnnw.

O ran y pwynt olaf, argymhellir y dylid ystyried a ellid defnyddio'r strwythur a ddatblygwyd ar gyfer creu'r cwricwlwm newydd i gefnogi addysgu o bell mewn argyfwng ac addysgu ar ôl i'r mesurau argyfwng hynny ddod i ben. Gallai strwythur fertigol lle byddai ymarferwyr arbenigol yn cael eu grwpio yn ôl maes pwnc gefnogi dulliau addysgu o bell ar gyfer pynciau penodol, tra gallai strwythur llorweddol lle byddai ymarferwyr wedi'u grwpio yn ôl cyfnod addysg (cynradd, uwchradd, ôl-16) ddatblygu atebion ar gyfer oedrannau penodol. Gallai cysylltu ag arbenigwyr ym maes addysgu o bell ac ymchwilwyr addysg sefydliadau addysg uwch hefyd gefnogi yr arloesedd ym maes addysgu ond hefyd yn yr hyfforddiant cychwynnol i athrawon.

Ar lefel lleoliadau addysgol, argymhellir y dylid ystyried:

- defnyddio dysgu gwahaniaethol er mwyn rhoi mwy o amser i athrawon, a rhyddhau lle mewn ysgolion ac adnoddau eraill i'r dysgwyr hynny sydd ei angen fwyaf. Yn gyffredinol, mae gwahaniaethu o ran rhoi mynediad at addysgu wyneb yn wyneb yn strategaeth gyffredin a ddefnyddir gan wledydd sy'n symud tuag at addysgu o bell yn rhan amser neu'n amser llawn (IE, 2020),
- hwyluso'r trefniadau o ran rhannu adnoddau rhwng ysgolion ac athrawon fel y gellir gwneud defnydd mwy effeithlon o amser athrawon ar gyfer sgaffaldwaith i ddysgwyr ond hefyd ar gyfer arloesi,
- cynllunio cyfraniadau rhieni a chyflwyno rolau mentora,
- creu mecanweithiau ar gyfer gofyn am farn plant, rhieni ac athrawon am yr hyn sy'n helpu plant i ddysgu o bell.

Ni ellid gorbwysleisio pwysigrwydd cefnogaeth i athrawon. Ychydig iawn o dystiolaeth a ddaeth i'r amlwg ar lefel ysgolion, ond nododd arolygon o sefydliadau addysg uwch fod canfyddiad ymhlith rhai cymunedau addysgu o gael eu dad-broffesiynoli fel addysgwyr ac roeddent hefyd yn teimlo nad oedd digon o adnoddau ganddynt wrth weithio gartref (Watermeyer *et al.*, 2020).

O ystyried y dystiolaeth a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn, pan fydd plant yn dychwelyd i'r ysgol dylai'r ymateb ganolbwyntio ar liniaru'r effeithiau yn sgil colledion dysgu, er enghraifft drwy asesu effeithlon a chymorth i ddysgwyr unigol; efallai y bydd angen rhoi sylw arbennig i fathemateg. Efallai y bydd problemau ynghylch integreiddio athrawon sydd newydd gymhwyso mewn amgylcheddau addysgu o bell mewn argyfwng neu wrth addysgu ar ôl i'r mesurau argyfwng hynny ddod i ben.

Er mwyn datblygu gwydnwch yn y tymor hir, argymhellir y dylid ystyried:

- datblygu cyrsiau addysgu o bell yn y meysydd lle mae'r ddarpariaeth yn wan neu ar goll fel y gellid datblygu methodoleg a seilwaith defnyddiol a'u cymhwyso i fwy o gyrsiau pan fydd argyfwng yn codi,

- cryfhau sgiliau dysgu annibynnol yn barhaol fel rhan o'r broses ddysgu,
- cryfhau sianelau ar gyfer arloesedd athrawon, dysgu proffesiynol a hyfforddiant cychwynnol athrawon, a hynny'n seiliedig ar ymchwil,
- parhau i fuddsoddi mewn technolegau dysgu digidol.

Yn olaf, dylid ystyried a allai'r arloesedd a welwyd o ran addysgu'r cwricwlwm a hyfforddi athrawon yn ystod y cyfnod cau ysgolion oherwydd COVID-19 fod o fudd yn y broses barhaus o ddiwygio'r cwricwlwm, h.y. pa arferion y gallai fod yn fuddiol eu cadw a beth sydd angen ei ddatblygu ymhellach.

**Atodiad A. Asesu gallu dysgwyr i hunanreoleiddio** (wedi'i addasu a'i ehangu o Zimmerman a Pons, 1986).

Self-regulation categories	Examples of learner statements indicate that the strategies are self-initiated
Self-evaluation	"I check over my work to make sure I did it right."
Organising and transforming learning materials	"I annotate my notes."
Goal-setting and planning	"First, I start studying two weeks before exams, and I pace myself."
Seeking information from non-social sources	"Before beginning to write the assignment, I go to the library to get as much information as possible concerning the topic."
Keeping records and monitoring	"I took notes of the class discussion."
Environmental structuring	"I isolate myself from anything that distracts me.", "I turned off radio so I can concentrate on what I am doing."
Self-consequences	"If I do well on a test, I treat myself to a movie". "If my grade is not good enough, I will revise further".
Seeking social assistance	"If I have problems with maths assignments, I ask a friend/parent/teacher."
Reviewing records	Efforts to re-read tests, notes or textbooks and/or re-watch video.

## **Atodiad B. Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru.**

Mae Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru yn fenter a ariennir gan Lywodraeth Cymru a lanswyd yn 2010, gyda'r nod o ehangu mynediad i lefel TAG AS/A2 Mathemateg Bellach yng Nghymru. Mae'r Rhaglen yn gweithredu ar sail chwe chategori: dysgu proffesiynol, tiwtora a chymorth i fyfyrwyr, adnoddau addysgu am ddim, cyfoethogi yn y cyfnod cyn-16, cwricwlwm ychwanegol a chyfoethogi yn y cyfnod ôl-16, ac ymchwil ac arloesedd.

Mae'r Rhaglen yn darparu hyfforddiant i fyfyrwyr na allant gael mynediad at Fathemateg Bellach trwy eu hysgolion neu golegau lleol, os nad oes opsiynau eraill ar gael i'r myfyrwyr. Mae'r ddarpariaeth yn fodel dysgu cyfunol sy'n defnyddio cyfuniad o sesiynau byw ar-lein, adnoddau rhyngweithiol ar gyfer hunanastudio, a gwaith cartref a sesiynau wyneb yn wyneb (megis diwrnodau croeso, diwrnodau astudio, sesiynau adolygu, a thiwtorialau grwpiau bach). Dangosodd ymchwil y Rhaglen i brofiad dysgwyr (Lyakhova a Joubert, 2019) fod eu profiad yn cael ei lywio gan y dechnoleg a'r cyfleoedd dysgu estynedig anghydamserol a gynigiwyd gan y Rhaglen.

Defnyddir ystafell ddosbarth rithwir Adobe Connect ar gyfer darpariaeth gydamserol ar-lein. Caiff deunydd addysgu (Powerpoint) ei lanlwytho ymlaen llaw cyn pob sesiwn. Nid oes unrhyw fideo personol gan athrawon na myfyrwyr yn cael ei ffrydio yn ystod sesiynau. Dim ond athrawon all rannu'r cynnwys, mae cyfrineiriau'n gwarchod pob ystafell, a phennir rhestr o gyfranogwyr ymlaen llaw. Mewn gwersi mae'r cyfranogwyr yn gweld bwrdd gwyn gyda'r Powerpoint, lle mae athrawon yn ysgrifennu ac yn egluro tasgau. Ceir cyfleoedd i ryngweithio ac am asesiadau ffurfiannol wrth i fyfyrwyr ateb cwestiynau drwy flwch sgwrsio, sgriblo atebion ar y sgrin, a defnyddio'r cyfleuster pleidleisio. Caiff sesiynau eu recordio at ddibenion diogelu (MEI, 2020). Rhennir recordiadau dienw gyda'r holl gyfranogwyr a'u hathrawon ysgol. Mae myfyrwyr yn ystyried ailwyllo recordiadau o'r gwersi yn fuddiol ac mae hyn yn cael ei ystyried yn un o'r elfennau mwyaf defnyddiol o astudio gyda'r Rhaglen. "*Y peth gorau yw gallu mynd yn ôl ac adolygu'r gwaith.*" Mae myfyrwyr yn defnyddio recordiadau i wneud nodiadau manylach yn eu hamser eu hunain, ac i weithio ar dasgau mathemategol yn fwy manwl. Gall myfyrwyr ailwyllo recordiadau dair gwaith neu fwy, h.y. ar ôl y wers wrth weithio ar waith cartref, i atgoffa eu hunain o'r wybodaeth cyn y sesiwn nesaf, ac wrth adolygu ar gyfer yr arholiad.

Yn ogystal ag ehangu eu gwybodaeth a'u sgiliau mathemateg, mae myfyrwyr y Rhaglen o'r farn bod datblygu sgiliau dysgu annibynnol yn fantais bwysig o wneud y cwrs. Er enghraifft, ysgrifennodd myfyriwr a raddiodd yn 2020 fod y cwrs "*wedi datblygu nid yn unig fy ngallu mathemategol ond hefyd fy sgiliau i feddwl yn feirniadol a datrys problemau, a bydd hyn yn hynod ddefnyddiol i mi yn y dyfodol, p'un a fydd fy ngyrfa yn seiliedig ar fathemateg ai peidio.*"

## Cyfeiriadau

- Achievement First (2020) 'Elementary school remote learning plan.' Ar gael yn [https://docs.google.com/document/d/1avzF7Ebt0JSt1vZm2r\\_W6CaHdLLc9Q8l9Mxq3nPjaF4/edit#](https://docs.google.com/document/d/1avzF7Ebt0JSt1vZm2r_W6CaHdLLc9Q8l9Mxq3nPjaF4/edit#) (fel ar 31 Gorffennaf 2020).
- Allensworth, E. a Schwartz, N. (2020) 'School practices to address student learning loss.' Briff Rhif 1. *EdResearch for Recovery*. Ar gael yn [https://annenberg.brown.edu/sites/default/files/EdResearch\\_for\\_Recovery\\_Brief\\_1.pdf](https://annenberg.brown.edu/sites/default/files/EdResearch_for_Recovery_Brief_1.pdf) (fel ar 31 Gorffennaf 2020).
- Bonilla, S., Carruthers, C. K., Baker, D. J. (2020) 'Guidance and Support for Students Moving into Postsecondary.' Briff Rhif 3. *EdResearch for Recovery*. Ar gael yn [https://annenberg.brown.edu/sites/default/files/EdResearch\\_for\\_Recovery\\_Brief\\_3.pdf](https://annenberg.brown.edu/sites/default/files/EdResearch_for_Recovery_Brief_3.pdf) (fel ar 31 Gorffennaf 2020).
- Gweminar Brookings (2020) 'Education and structural inequalities during Covid-19: how Finland and the US compare.' *Sefydliad Brookings*. Ar gael yn <https://www.brookings.edu/events/education-and-structural-inequalities-during-covid-19-how-do-finland-and-the-us-compare/> (fel ar 31 Gorffennaf 2020).
- Carver, L. B. (2020) 'Supporting learners in a time of crisis'. *Advances in Social Sciences Research Journal*, 7(4), 129-136.
- CGD (2020) 'CGD – Covid education Policy Tracking.' *Y Ganolfan Datblygu Byd-eang (Centre for Global Development)*. Ar gael yn <https://docs.google.com/spreadsheets/d/1ndHgP53atJ5J-EtxgWcpSfYG8LdzHpUsnb6mWybErYg/edit?ts=5e6f893e#gid=0> (fel ar 31 Gorffennaf 2020).
- COL (2020) 'Guidelines on Distance Education during COVID-19.' *Burnaby: COL* Ar gael yn <http://oasis.col.org/handle/11599/27> (fel ar 31 Gorffennaf 2020).
- Contact North (2020) 'Ten Radical Ways Assessment is Changing.' *TeachOnline.Ca*. Ar gael yn <https://teachonline.ca/tools-trends/ten-radical-ways-assessment-changing> (fel ar 31 Gorffennaf 2020).
- Donaldson, G. (2020) 20 Mehefin 2020. Ar gael yn <https://twitter.com/ghcdon?lang=en> (fel ar 21 Mehefin 2020).
- DPS (2020) 'Remote learning plan for emergency closures of DPS schools.' *Denver Public Schools*. Ar gael yn [https://www.dpsk12.org/wp-content/uploads/2020\\_remote\\_learning\\_plan.pdf](https://www.dpsk12.org/wp-content/uploads/2020_remote_learning_plan.pdf) (fel ar 31 Gorffennaf 2020).
- Sefydliad Gwaddol Addysgol (2020) 'Remote learning: Rapid Evidence Assessment.' *Sefydliad Gwaddol Addysgol*. Ar gael yn [https://educationendowmentfoundation.org.uk/public/files/Publications/Covid-19\\_Resources/Remote\\_learning\\_evidence\\_review/Remote\\_Learning\\_Rapid\\_Evidence\\_Assessment.pdf](https://educationendowmentfoundation.org.uk/public/files/Publications/Covid-19_Resources/Remote_learning_evidence_review/Remote_Learning_Rapid_Evidence_Assessment.pdf) (fel ar 31 Gorffennaf 2020).
- Farley, C. (2020) 'Exploring the evidence on virtual and blended learning.' *Research Alliance for New York City Schools*. Ar gael yn [https://research.steinhardt.nyu.edu/scmsAdmin/media/users/ks191/Research\\_Alliance\\_Summary\\_of\\_Evidence\\_on\\_Remote\\_and\\_Blended\\_Learning\\_final.pdf](https://research.steinhardt.nyu.edu/scmsAdmin/media/users/ks191/Research_Alliance_Summary_of_Evidence_on_Remote_and_Blended_Learning_final.pdf) (fel ar 31 Gorffennaf 2020).
- Finkel, A. (2020) 'Differential learning outcomes for online versus in-class education, A report to Minister of Education, Australia by Australia's Chief Scientist.' *Rapid Research Information Forum*.
- Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru (2017) 'Canllaw i astudio Mathemateg Bellach gyda FSMP Cymru.' Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru, Prifysgol Abertawe. <https://furthermaths.wales/files/Tuition-booklet-Cymraeg.pdf>
- Garrison, D. R., a Vaughan, N. D. (2008) *Blended learning in higher education: Framework, principles, and guidelines*. John Wiley & Sons.

- Golding, J., a Bretscher, N. (2018) 'Developing pedagogies for a synchronous online course on teaching pre-university mathematics.' *Teaching Mathematics and its Applications: An International Journal of the IMA*, 37(2), 98-112.
- Gross, B. a Opalka, A. (2020) 'Too many schools Leave Learning to chance during the pandemic.' *Center on Reinventing Public Education (CRPE)*. <https://www.crpe.org/publications/too-many-schools-leave-learning-chance-during-pandemic> (fel ar 31 Gorffennaf 2020).
- Hattie, J. (2020a) 'The New Normal of Learning: Build Back Better.' *Corwin Connect*. Ar gael yn <https://corwin-connect.com/2020/05/the-new-normal-of-learning-build-back-better/> (fel ar 31 Gorffennaf 2020).
- Hattie, J. (2020b) 'Visible Learning Effect Sizes When Schools Are Closed: What Matters and What Does Not.' *Corwin Connect*. Ar gael yn <https://corwin-connect.com/2020/04/visible-learning-effect-sizes-when-schools-are-closed-what-matters-and-what-does-not/> (fel ar 31 Gorffennaf 2020).
- Hattie, J. (2008) *Visible Learning: A Synthesis of Over 800 Meta-Analyses Relating to Achievement*. NY: Routledge.
- Harries, D. (2020) 'A broad strategy for schools during Covid-19 pandemic.' *Sefydliad Brookings*. Ar gael yn <https://www.brookings.edu/blog/brown-center-chalkboard/2020/03/27/a-broad-strategy-for-schools-during-the-covid-19-pandemic/> (fel ar 31 Gorffennaf 2020).
- Hernández-García, Á., González-González, I., Jiménez-Zarco, A. I. a Chaparro-Peláez, J. (2015) 'Applying social learning analytics to message boards in online distance learning: A case study.' *Computers in Human Behavior*, 47, 68-80.
- Hodges, C., Moore, S., Lockee, B., Trust, T., a Bond, A. (2020) 'The difference between emergency remote teaching and online learning.' *Educause Review*, 27.
- Jones, N., Vaughn, S. a Fuchs, L. (2020) 'Academic supports for students with disabilities.' *Briff Rhif 2, EdResearch for Recovery*. Ar gael yn [https://annenberg.brown.edu/sites/default/files/EdResearch\\_for\\_Recovery\\_Brief\\_2.pdf](https://annenberg.brown.edu/sites/default/files/EdResearch_for_Recovery_Brief_2.pdf) (fel ar 31 Gorffennaf 2020).
- Jefford, S (2020) 'Online learning begins for students across Ontario as COVID-19 closures continue.' *Global News*. Ar gael yn <https://globalnews.ca/news/6782511/ontario-online-learning-covid19-coronavirus/> (fel ar 31 Gorffennaf 2020).
- Sefydliad y Fagloriaeth Ryngwladol (2020) 'Online learning, teaching and education continuity planning for schools.' *Sefydliad y Fagloriaeth Ryngwladol*. Ar gael yn <https://www.ibo.org/globalassets/news-assets/coronavirus/online-learning-continuity-planning-en.pdf> (fel ar 31 Gorffennaf 2020).
- IE (2020) 'Reopening Schools: Global Update #3. Synthesis & Insights From Countries' Experiences.' *Insights for education*. [https://img1.wsimg.com/blobby/go/104fc727-3bad-4ff5-944f-c281d3ceda7f/20200715\\_0819\\_Covid%20Reopening\\_Country%20Experien.pdf](https://img1.wsimg.com/blobby/go/104fc727-3bad-4ff5-944f-c281d3ceda7f/20200715_0819_Covid%20Reopening_Country%20Experien.pdf) (fel ar 31 Gorffennaf 2020).
- Iqbal, S. A., Azevedo, J.P., Geven, K., Hasan, A. a Patrinos, H.A. (2020) 'We should avoid flattening the curve in education – Possible scenarios for learning loss during the school lockdowns.' *Blogiau Banc y Byd*. Ar gael yn <https://blogs.worldbank.org/education/we-should-avoid-flattening-curve-education-possible-scenarios-learning-loss-during-school> (fel ar 30 Mehefin 2020).
- Imlawi, J., Gregg, D. a Karimi, J. (2015) 'Student engagement in course-based social networks: The impact of instructor credibility and use of communication.' *Computers & Education*, 88, 84-96.
- Kanwar, A & Daniel, J. (2020) 'Report to Commonwealth Education Ministers: from response to resilience.' *UNESCO*. Ar gael yn <https://iite.unesco.org/publications/report-to-commonwealth-education-ministers-from-response-to-resilience/> (fel ar 31 Gorffennaf 2020).

- Kintu, M. J., Zhu, C., a Kagambe, E. (2017) 'Blended learning effectiveness: the relationship between student characteristics, design features and outcomes.' *International Journal of Educational Technology in Higher Education*, 14(1), 7.
- Kuhfeld, M., Soland, J., Tarasawa, B., Johnson, A., Ruzek, E., a Liu, J. (2020) 'Projecting the potential impacts of COVID-19 school closures on academic achievement.' *EdWorkingPaper*: 20-226. Ar gael yn <https://doi.org/10.26300/cdrv-yw05> (fel ar 31 Gorffennaf 2020).
- Kurtz, H. (2020) 'National survey tracks impact of coronavirus on schools: 10 key findings.' *Education Week*.
- Lake, R. a Dusseault, B. (2020a) 'Districts and CMos are making progress on instruction and monitoring, but lag in grading and attendance.' *Center on Reinventing Public Education (CRPE)*. Ar gael yn <https://www.crpe.org/thelens/districts-and-cmos-are-making-progress-instruction-and-monitoring-lag-grading-and-attendance> (fel ar 31 Gorffennaf 2020).
- Lake, R. a Dusseault, B. (2020b) 'School systems make a slow transition from the classroom to the cloud.' *Center on Reinventing Public Education (CRPE)*. Ar gael yn <https://www.crpe.org/thelens/school-systems-make-slow-transition-classroom-cloud> (fel ar 31 Gorffennaf 2020).
- Lake, R. a Dusseault, B. (2020c) 'First District Reopening Plans Illuminate Tradeoffs and Confusion in Politically Charged Environment.' *Center on Reinventing Public Education*.
- Lake, R. ac Olson, L. (2020) 'Learning as We Go: Principles for Effective Assessment during the COVID-19 Pandemic.' *Center on Reinventing Public Education*.
- Lieberman, M. (2020) 'Taking attendance during coronavirus closures: is it even worth it?' *Education Week*.
- Lyakhova, S. a Joubert, M. (cyflwynwyd Rhagfyr 2019) 'Post-16 Further Mathematics: learner self-regulation, mathematical resilience and technology.'
- Major, L. E. a Machin, S. (2020) 'Covid-19 is increasing the divide in life chances between rich and poor.' *LSE Business Review*.
- MEI (2020) 'MEI Safeguarding and Child Protection Policy.' *Mathematics in Education and Industry*. Ar gael yn <https://mei.org.uk/safeguarding> (fel ar 31 Gorffennaf 2020).
- Montacute, R. (2020) 'Social Mobility and Covid-19: implications of the Covid-19 crisis for educational inequality.' *Ymddiriedolaeth Sutton*.
- Müller, L. M., a Goldenberg, G. (2020) 'Education in times of crisis: The potential implications of school closures for teachers and students.' *Charter College of Teachers*.
- Seland Newydd (2020a) 'Learning at home key messages for former refugee and migrant families.' *EDUCATION.govt.nz*. Ar gael yn <https://www.education.govt.nz/assets/COVID919-files/Home-Learning-messages-for-migrant-and-refugee-families-English.pdf> (fel ar 31 Gorffennaf 2020).
- Seland Newydd (2020b) 'Home learning COVID-19.' *EDUCATION.govt.nz*. Ar gael yn <https://www.education.govt.nz/covid-19/distance-learning/> (fel ar 31 Gorffennaf 2020).
- Oakes, D., Davies, A., Joubert, M., a Lyakhova, S. (2018) 'Exploring teachers' and students' responses to the use of a Flipped Classroom teaching approach in mathematics.' *BSRLM*, 38, 1-6.
- Sibley, J (2020) 'What not to do in an online classroom.' *Cynhadledd MEI*.
- Silinskas, G., a Kikas, E. (2019) 'Parental involvement in math homework: Links to children's performance and motivation.' *Scandinavian Journal of Educational Research*, 63(1), 17-37.
- S4 (2020) 'The S4 Bumper Workbook of Key Stage 3 home science.' Prifysgol Abertawe.
- Track the Recovery (2020) <https://www.tracktherecovery.org/> (fel ar 31 Gorffennaf 2020).



Terhart, E. (2011) 'Has John Hattie really found the holy grail of research on teaching? An extended review of Visible Learning.' *Journal of curriculum studies*, 43(3), 425-438.

Vegas, E. (2020) 'School closures, government responses, and learning inequality around the world during COVID-19.' *Sefydliad Brookings*. Ar gael yn <https://www.brookings.edu/research/school-closures-government-responses-and-learning-inequality-around-the-world-during-covid-19/> (fel ar 31 Gorffennaf 2020).

Watermeyer, R., Crick, T., Knight, C., a Goodall, J. (2020) 'COVID-19 and digital disruption in UK universities: afflictions and affordances of emergency online migration.' *Higher Education*, 1.

Yao, J., Rao, J., Jiang, T., a Xiong, C. (2020) 'What Role Should Teachers Play in Online Teaching during the COVID-19 Pandemic? Evidence from China.' *Sci Insight Edu Front*, 5(2), 517-524.

Zimmerman, B. J. a Pons, M. M. (1986) 'Development of a structured interview for assessing student use of self-regulated learning strategies.' *American Educational Research Journal*, 23(4), 614–628.

Kirsty Williams AS/MS  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education

Ein cyf/ MA-KW-2320-20  
Lynne Neagle AM  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

3 Medi 2020

Annwyl Lynne

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi ynghylch y diwygiadau rydym yn eu gwneud er mwyn trawsnewid y system Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) bresennol i'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd. Fel y gwyddoch, bydd y system ADY yn canolbwyntio ar sicrhau bod cymorth pob plentyn a pherson ifanc sydd angen cymorth ychwanegol i ddiwallu ei anghenion yn cael cymorth a gynlluniwyd ar eu cyfer a bod hwnnw wedi'i ddiogelu. Mae'r diwygiadau yn rhoi'r lle canolog i'r dysgwr a'i rieni, neu ei ofalwyr. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod pob dysgwr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyrraedd ei lawn botensial.

Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn gyfnod anodd iawn i bob un ohonom oherwydd y pwysau a'r tarfu a achoswyd gan bandemig Covid-19. Fodd bynnag, mae gweithredu'r Ddeddf ADY yn parhau i fod yn flaenoriaeth i mi'n bersonol ac i'r llywodraeth. Mae fy swyddogion yn parhau i ddiwygio'r Cod ADY drafft a'r rheoliadau gweithredu, a'm bwriad yw gosod y rhain gerbron y Senedd ym mis Chwefror 2021.

Nid yw'r amserlen ar gyfer cychwyn gweithredu'r system ADY newydd wedi newid. Mae'n dal yn fwriad cychwyn y swyddi statudol (Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, Swyddogion Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg, a Swyddogion Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynnyddoedd Cynnar) ym mis Ionawr 2021, a chychwyn rhoi gweddill y system newydd ar waith yn raddol o fis Medi 2021 ymlaen.

I gyd-fynd â chychwyn y rolau statudol, rwy'n bwriadu gosod rheoliadau ynghylch rôl y Cydlynnydd ADY a chyhoeddi canllawiau ar bob un o'r tair rôl statudol o dan y system ADY newydd. Bydd y canllawiau yn cynnwys testun o'r Cod diwygiedig sy'n ymwneud â'r rolau hyn a byddant yn rhoi eglurder o ran eu cyfrifoldebau. Bydd y canllawiau a'r rheoliadau yn seiliedig ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd eisoes ar y Cod ADY drafft a'r rheoliadau ynghylch rôl y Cydlynnydd ADY. Er mwyn helpu i roi'r Ddeddf ar waith o fis Medi 2021, darperir gwybodaeth hefyd ynghylch y trefniadau gweithredu a phontio.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am eich cefnogaeth yn ystod y cyfnod hynod anodd hwn.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams'.

**Kirsty Williams AS/MS**  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education

Senedd Cymru

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Welsh Parliament

Children, Young People and Education Committee

Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg

Dyddiad | Date: 20 Awst 2020

Pwnc | Subject: **Craffu ar y broses o ddyfarnu canlyniadau ar gyfer arholiadau 2020**

Annwyl Kirsty,

Ar **18 Awst**, gwnaethoch ymddangos gerbron y Pwyllgor i drafod y broses o ddyfarnu canlyniadau ar gyfer arholiadau 2020. Hoffwn ddiolch yn swyddogol i chi a'ch swyddogion, ac i gynrychiolwyr o CBAC a Cymwysterau Cymru, am gyfrannu at y gwaith craffu pwysig yr ydym yn ei wneud ar y mater hwn.

Mae'n amlwg bod y broses o ddyfarnu canlyniadau ar gyfer arholiadau 2020 wedi arwain at gryn straen a phryder i filoedd o bobl ifanc ledled Cymru. Mae maint yr ohebiaeth a gawsom fel Aelodau ac fel Pwyllgor, yn ogystal â'r protestiadau cyhoeddus a gafwyd mewn perthynas â'r mater hwn, yn pwysleisio'r trallod sylweddol y mae pobl ifanc, eu rhieni a'u gofalwyr, ynghyd â staff ym maes addysg, wedi'i ddioddef o ganlyniad i'r trefniadau a fabwysiadwyd at ddibenion dyfarnu canlyniadau ar gyfer arholiadau 2020. Rydym yn cydnabod yr heriau digynsail sydd ynghlwm wrth geisio datblygu dull o arholi yn ystod pandemig byd-eang. Fodd bynnag, mae'r effaith y mae'r dull dan sylw wedi'i chael ar lesiant pobl ifanc, yn ogystal â hyder y cyhoedd yn y system sy'n dyfarnu cymwysterau iddynt, yn destun pryder a gofid mawr inni, yn enwedig yng ngoleuni'r difrod ystlysol ehangach y mae plant a phobl ifanc wedi'i ddioddef yn sgil y pandemig hwn.

Rydym yn croesawu'r ymddiheuriad uniongyrchol a digymell a roddwyd gennych i bawb sydd wedi cael eu heffeithio gan y digwyddiadau diweddar. Mae taro cydbwysedd rhwng cynnal safonau a sicrhau tegwch yn gymhleth. Fodd bynnag, mae effeithiau'r diffygion sydd ynghlwm wrth y broses a fabwysiadwyd yn sgil effaith ddinistriol COVID-19 ar y gyfundrefn arholiadau wedi dod yn glir, a rhaid osgoi unrhyw effeithiau o'r fath yn y dyfodol.

Fel Pwyllgor, ein barn ni yw bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth yn awr i'r broses o sicrhau bod y bobl ifanc hynny yr effeithiwyd arnynt waethaf gan y system hon yn cael eu cefnogi a'u bod yn gallu symud ymlaen gyda'r camau nesaf yn y llwybrau gyrfa neu ddysgu y maent wedi'u dewis. Yn y tymor hwy, mae angen i ni wybod beth y mae Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus perthnasol yn ceisio ei wneud i sicrhau nad yw'r sefyllfa hon yn codi eto, ac i sicrhau bod y risg y bydd unrhyw ganlyniadau anfwriadol sy'n deillio o'r penderfyniadau a wnaed yn ddiweddar yn cael ei lliniaru. Mae'n bosibl y bydd yna gyfnodau pellach o gyfyngiadau symud. Felly, rhaid inni ddysgu gwersi o'r

**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

SeneddPPIA@senedd.cymru

0300 200 6565

**Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

SeneddCYPE@senedd.wales

0300 200 6565

profiadau a gawsom eleni er mwyn osgoi unrhyw drallod pellach i blant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, a staff a sefydliadau ym maes addysg.

Mae eich ymrwymiad fel Gweinidog i gynnal adolygiad annibynnol o'r digwyddiadau yn dilyn y penderfyniad i ganslo arholiadau eleni wedi tawelu ein meddyliau, ac rydym yn croesawu eich parodrwydd i ystyried ein sylwadau ar y gwaith hwnnw. Byddwn yn chwarae rhan weithredol yn y broses o fonitro cynnydd a chanfyddiadau'r adolygiad, a byddwn yn cadw llygad barcud arno er mwyn sicrhau bod gwersi'r cyfnod hwn yn cael eu dysgu ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae'n bwysig i ni y rhoddir ystyriaeth i fuddiannau pobl ifanc y gorffennol a phobl ifanc y dyfodol – yn ogystal â'r bobl ifanc sydd wedi sefyll arholiadau eleni.


Yn y cyfamser, byddwn yn parhau â'n gwaith i gynrychioli a chefnogi plant a phobl ifanc yng Nghymru drwy un o gyfnodau mwyaf heriol eu bywydau. Mae'r sefyllfa sydd ohoni o ran derbyniadau i brifysgolion yn un y byddwn yn ei monitro'n agos. Rydym yn pryderu'n benodol am y lleoedd sydd ar gael ar gyrsiau meddygol, gan ein bod ar ddeall bod nifer yr ymgeiswyr sydd bellach wedi bodloni'r gofynion arnynt yn uwch na nifer y lleoedd a swm y cyllid sydd ar gael ar gyfer 2020/21. Rydym hefyd yn pryderu am y sefyllfa o ran pynciau sydd â chostau uwch ac sy'n ddud yn gyffredinol. Mae'r cyrsiau hyn yn denu cyllid ychwanegol gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, ac mae risg wirioneddol y gallai ansawdd cyrsiau ddiodef os nad oes cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu mewn modd sy'n gymesur â'r cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n cael eu derbyn. **Byddem yn gwerthfawrogi diweddariad brys gennyhch ar leoedd meddygol mewn prifysgolion, ynghyd â diweddariadau ynghylch unrhyw ddatblygiadau pwysig eraill mewn perthynas â'r materion a amlinellir uchod sy'n ymwneud â derbyniadau i brifysgolion.**

At hynny, ers ein cyfarfod ar 18 Awst, mae tarfu pellach wedi dod i'r amlwg mewn perthynas â chanlyniadau BTEC Pearson, a fydd bellach yn cael eu hailgyhoeddi, gyda'r canlyniadau ar gyfer Lefel 1 a 2 yn cael eu gohirio o ganlyniad i hynny, a chanlyniadau Lefel 3 sydd eisoes wedi'u dyfarnu bellach yn destun adolygiad. Rydym yn pryderu'n fawr y bydd y penderfyniad munud olaf hwn gan Pearson yn arwain at darfu a thrallod pellach i ddysgwyr sydd wedi cael cynigion gan brifysgolion yn seiliedig ar eu cymwysterau BTEC Lefel 3, a gall hyn eu rhoi dan anfantais wrth sicrhau eu lle mewn addysg uwch. Rydym hefyd yn pryderu am oblygiadau posibl y sefyllfa hon i gymwysterau galwedigaethol eraill. **Byddem yn gwerthfawrogi diweddariad brys ar y trefniadau ar gyfer dyfarnu cymwysterau galwedigaethol ar draws yr holl gyrff dyfarnu sy'n cynnig nifer sylweddol o gymwysterau galwedigaethol yng Nghymru; syniad ynghylch pryd yr ydych yn disgwyl i'r canlyniadau BTEC gael eu cyhoeddi ar gyfer Lefel 1 a 2 a'u hailgyhoeddi ar gyfer Lefel 3; a syniad ynghylch a yw cyrff dyfarnu eraill yn bwriadu ail-raddio eu cymwysterau.**

Yn amodol ar eich cyhoeddiad wythnos nesaf ynghylch adolygiad annibynnol, **byddem yn croesawu diweddariad brys ar y camau y byddwch chi'n eu cymryd i ddarparu eglurder ynghylch unrhyw beth arall y byddwch yn ei wneud o ran dyfarnu cymwysterau yn 2020, a'r paratodau ar gyfer 2021.**

**Byddem hefyd yn gwerthfawrogi rhagor o wybodaeth ynghylch y pwyntiau a restrir yn yr atodiad i'r llythyr hwn, a hynny cyn gynted â phosibl.**

Cofion cynnes,



**Lynne Neagle AS**

**Cadeirydd**

**Copi at: Cymwysterau Cymru** – David Jones (Cadeirydd), Philip Blaker (Prif Weithredwr) a Jo Richards (Cyfarwyddwr Rheoleiddio) **CBAC**–Ian Morgan (Prif Weithredwr) ac Elaine Carlile (Cyfarwyddwr Cymwysterau, Asesu a Swyddog Cyfrifol)

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

## ATODIAD – Gofynnir am wybodaeth bellach yng ngoleuni'r dystiolaeth a ddarparwyd gan CBAC, Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru ar 18 Awst 2020

Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r wybodaeth a ganlyn:

- **Llinell amser o'r digwyddiadau** sydd wedi dod i'r amlwg ers cyhoeddi'r penderfyniad i ganslo'r arholiadau, gan gynnwys:
  - y cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng Llywodraeth Cymru a CBAC; rhwng Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru; a rhwng Llywodraeth Cymru, CBAC a Cymwysterau Cymru. Fel rhan o'r llinell amser hwn, a fyddai modd nodi a oedd y cyfarfodydd hyn yn gyfarfodydd rhwng swyddogion yn unig, neu a oedd y Gweinidog yn bresennol?;
  - y dyddiadau pan ddarparwyd y manylion ynghylch y canlyniadau Safon Uwch – a'r cyngor yn eu cylch – i'r Gweinidog Addysg;
  - y dyddiadau pan fu cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru (y Gweinidog a/neu swyddogion) a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill mewn perthynas â'r broses o ddyfarnu canlyniadau ar gyfer yr arholiadau.

*Sylwer: Rydym yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ymrwymo yn ein cyfarfod ar 18 Awst i ddarparu llinell amser o'r cyfarfodydd y cynhaliodd hi'n bersonol gyda Cymwysterau Cymru yn ystod y cyfnod hwn.*
- Gwybodaeth bellach am **Uned Nawdd Cymwysterau Cymru o fewn Llywodraeth Cymru**, gan gynnwys:
  - manylion ei chylch gwaith;
  - manylion ei haelodaeth;
  - cadarnhad ynghylch pryd y daeth yn ymwybodol bod y broses safoni wedi arwain at israddio 42 y cant o'r canlyniadau Safon Uwch, neu unrhyw amcangyfrifon cynharach;
  - cadarnhad ynghylch a gafodd y wybodaeth hon ei throsglwyddo ac, os felly, i bwy a phryd.
- Ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i ddarparu **diweddariadau rheolaidd** i'r Pwyllgor ynghylch y camau a gaiff eu cymryd i roi'r adolygiad annibynnol ar waith, ac ymrwymiad i sicrhau bod diweddariadau ar gynnydd yr adolygiad yn dilyn hynny hefyd yn cael eu darparu inni.
- Aseiad o'r **effaith** y bydd y graddau safonedig arfaethedig a'r Graddau Asesu Canolfannau a ddyfarnwyd yn ei chael **ar grwpiau penodol o ddisgyblion** (disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion BAME, disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac ati). Yn ogystal, aseiad o sut y mae'r gwahaniaeth rhwng y graddau safonedig arfaethedig a'r Graddau Asesu Canolfannau a ddyfarnwyd wedi effeithio ar ganolfannau unigol ac ar fathau penodol o ganolfannau.

Kirsty Williams AS/MS  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education

Eich cyf/Your ref 200820-CYPE  
Ein cyf/Our ref HED/KW/0026/20

Lynne Neagle AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Senedd Cymru



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

7 Medi 2020

Annwyl Lynne,

### **Craffu ar y broses o ddyfarnu canlyniadau arholiadau 2020**

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 20 Awst, yn dilyn fy ymweliad â'r Pwyllgor ar y 18fed. Hyderaf y bydd yr ateb hwn yn rhoi'r eglurder rydych yn gofyn amdano.

**Byddem yn gwerthfawrogi diweddariad brys gennych ar leoedd meddygol mewn prifysgolion, ynghyd â diweddariadau ynghylch unrhyw ddatblygiadau pwysig eraill mewn perthynas â'r materion a amlinellir uchod sy'n ymwneud â derbyniadau i brifysgolion.**

Yn ddiweddar, sefydlais Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Dderbyniadau i Addysg Uwch, grŵp yr wyf innau'n ei gadeirio, er mwyn cael gwybod am unrhyw effaith ar sefydliadau addysg uwch a myfyrwyr yn sgil y canlyniadau Safon Uwch a chanlyniadau cymwysterau eraill yn ddiweddar.

Mae'r grŵp yn tynnu ynghyd gynrychiolwyr o Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, undebau staff, Is-Gangellorion, UCAS, Prifysgolion Cymru, CCAUC, a swyddogion iechyd ac addysg y Llywodraeth.

Rydym wedi cyfarfod deirgwaith yn ystod y ddwy wythnos ddiwethaf, ac mae derbyniadau i ysgolion meddygol wedi bod yn eitem ar agenda pob un o'r cyfarfodydd. Gan weithio gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, rydym wedi cytuno i gyllido 25 yn rhagor o lefydd ar gyfer israddedigion meddygol yng nharfan 2020-21 Ysgol Feddygaeth Caerdydd. Mae 12 arall am ohirio eu hastudiaethau tan 2021-22.

O ran cwestiwn derbyniadau i brifysgolion yn ehangach, ar 3 Medi roedd sefydliadau addysg uwch Cymru wedi trefnu lle i 22,960 o ymgeiswyr, sydd 2% yn uwch nag yn 2019, ac roedd 18,520 o fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru wedi cael lle mewn sefydliadau addysg uwch yn y DU, sydd 1% yn uwch nag yn 2019.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Rydym wedi gweld nifer fwy o ymgeiswyr yn cael lle yn eu dewis cadarn, a llai yn cael eu gosod yn eu dewis yswiriant. Mae nifer lai o ymgeiswyr 18 oed sy'n byw yng Nghymru sydd heb gynnig pendant nawr nag oedd yna yr un adeg yn y cylch derbyniadau y llynedd.

Byddwn yn parhau i weithio gyda CCAUC, Prifysgolion Cymru, UCAS ac eraill i fonitro'r sefyllfa a'i heffaith ar y sector ac ar fyfyrwyr.

**Byddem yn gwerthfawrogi diweddariad brys ar y trefniadau ar gyfer dyfarnu cymwysterau galwedigaethol ar draws yr holl gyrff dyfarnu sy'n cynnig nifer sylweddol o gymwysterau galwedigaethol yng Nghymru; syniad ynghylch pryd yr ydych yn disgwyl i'r canlyniadau BTEC gael eu cyhoeddi ar gyfer Lefel 1 a 2 a'u hailgyhoeddi ar gyfer Lefel 3; a syniad ynghylch a yw cyrff dyfarnu eraill yn bwriadu ail-raddio eu cymwysterau.**

Ar 19 Awst, cyhoeddodd Pearson ei fod wedi penderfynu ailraddio canlyniadau BTEC er mwyn adlewyrchu Graddau Asesu Canolfannau yn llawn. Y rhesymeg oedd hyn: er bod canlyniadau cymwysterau BTEC yn weddol gyson â disgwyliadau athrawon a dysgwyr, roedd Pearson wedi dechrau pryderu ynghylch annhegwch posibl o ran canlyniadau galwedigaethol mewn perthynas â chanlyniadau uwch arholiadau TGAU a Safon Uwch.

Fel y gwyddoch, mae cymwysterau galwedigaethol Pearson yn cael eu dyfarnu ledled y DU. Maent ar gael i ddysgwyr yng Nghymru, ond Ofqual sy'n cymeradwyo trefniadau dylunio ac asesu'r cymwysterau hyn, gan adlewyrchu'r ffaith mai yn Lloegr y mae'r mwyafrif helaeth o'u dysgwyr.

Er bod Graddau Asesu Canolfannau wedi'u derbyn ar gyfer unedau mewnol (hy gwaith cwrs), cyfrifwyd y graddau ar gyfer yr unedau arholiad ar sail perfformiad hanesyddol er mwyn cynnal y canlyniadau cyffredinol dros gyfnod. Yn sgil adolygiad Pearson, gwnaed i ffwrdd â'r graddau hyn a gyfrifwyd, a chysonwyd graddau mewnol asesuadau athrawon a graddau arholiadau nad oedd modd i'r myfyrwyr eu sefyll.

Aeth Pearson ati i weithio gydag ysgolion a cholegau i ailgyhoeddi'r graddau hyn, ac ailraddiwyd pob cymhwyster erbyn 28 Awst fan bellaf. Roedd y broses ailraddio yn ymwneud â chymwysterau Lefel 1/2 a Lefel 2 yn ogystal â Lefel 3.

Mae cyrff dyfarnu eraill sy'n gweithredu yng Nghymru a ddefnyddiodd y model safoni ystadegol, yn hytrach nag addasu cymwysterau, hefyd wedi ailraddio eu cymwysterau galwedigaethol yn unol â'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer Safon Uwch. Mae hyn yn cynnwys CBAC, er enghraifft, ac AQA.

Rwy'n deall dymuniad cyrff dyfarnu i sicrhau canlyniadau teg i fyfyrwyr BTEC mewn perthynas â Safon Uwch a TGAU, fel na fydd unrhyw fyfyrwr BTEC dan anfantais. Mae hyn yn gydnaws â pholisi Llywodraeth Cymru i sicrhau na fydd dysgwyr sy'n astudio cymwysterau galwedigaethol dan anfantais o gymharu â'u cyfoedion sy'n astudio cyrsiau Safon Uwch, gan gynnwys mewn perthynas â symud ymlaen i addysg uwch. Unwaith eto, hoffwn ymddiheuro am y pryder a achoswyd gan yr hyn sydd wedi digwydd yn ddiweddar.

Yn ystod haf 2020, darparwyd canllawiau gennym hefyd i alluogi sefydliadau addysg bellach i ailagor, er mwyn i ddysgwyr galwedigaethol yr oedd angen iddynt gwblhau asesuadau er mwyn cael hawl i weithio allu gwneud hynny.

**Yn amodol ar eich cyhoeddiad wythnos nesaf ynghylch adolygiad annibynnol, byddem yn croesawu diweddariad brys ar y camau y byddwch chi'n eu cymryd i ddarparu eglurder ynghylch unrhyw beth arall y byddwch yn ei wneud o ran dyfarnu cymwysterau yn 2020, a'r paratodau ar gyfer 2021.**

Y prif gamau y mae'n dal i fod angen eu cymryd mewn perthynas â 2020 yw cyhoeddi dadansoddiad ychwanegol yr wyf wedi manylu arno yn nes ymlaen yn yr ymateb hwn, a datrys apeliadau.

O ran apeliadau a ddaeth i sylw CBAC, mae'r rheoleiddiwr Cymwysterau Cymru wrthi'n monitro'r broses hon yn ofalus i sicrhau yr ymdrinnir â nhw mor gyflym â phosibl. Caiff dadansoddiad pellach ei gyhoeddi hefyd mewn perthynas ag apeliadau a ddaeth i law ynghylch cyfres haf 2020.


O ran 2021, rwyf wedi ei gwneud yn glir fy mod o'r farn mai sefyll arholiadau fydd fwyaf buddiol i ddysgwyr haf nesaf, ond y dylid gwneud rhai addasiadau yng ngoleuni'r tarfu a fu ar y broses addysgu a dysgu, yn ogystal ag ystyriaethau cadw pellter cymdeithasol. Fe wnaeth Cymwysterau Cymru sefydlu fframwaith rheoleiddio eithriadol ym mis Gorffennaf sy'n caniatáu i CBAC wneud addasiadau i gymwysterau cyffredinol yn haf 2021.

Ar 1 Medi, cyhoeddodd CBAC yr addasiadau a gaiff eu gwneud i gymwysterau cyffredinol yn haf 2021, ar ôl ystyried ffactorau a oedd yn ymwneud â phynciau penodol ac ymgysylltu ag ymarferwyr. Rhoddwyd gwybod i ysgolion a cholegau am yr addasiadau hyn yn ystod yr haf i hwyluso eu gwaith cynllunio ar gyfer tymor yr hydref, ond maent bellach ar gael i'r cyhoedd eu gweld er mwyn rhoi tawelwch meddwl i ddysgwyr a'u teuluoedd. Rwyf wedi amgáu dolen at y dogfennau hyn ar eich cyfer: <https://www.cbac.co.uk/home/addasiadau-haf-2021/>

Gan ein bod yn dal i weithredu mewn amgylchedd ansicr o ran iechyd cyhoeddus, er ein bod yn cynllunio i fwrw ymlaen â'r arholiadau fel arfer yn 2021, fel Llywodraeth gyfrifol mae'n iawn ein bod hefyd yn datblygu trefniadau wrth gefn rhag ofn y daw tarfu pellach.

Rwyf wedi gofyn i Cymwysterau Cymru a CBAC, felly, ddatblygu trefniadau wrth gefn mewn perthynas ag arholiadau, gan dynnu ar ein profiad a'r hyn a ddysgwyd eleni. Bydd y gwersi a ddysgwyd a'r cynlluniau ar gyfer 2021 hefyd yn themâu allweddol yn yr adolygiad annibynnol a gyhoeddais ar 28 Awst. Bydd cadeirydd yr adolygiad, Louise Casella, yn cyflwyno ei ganfyddiadau cychwynnol fis nesaf.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education

## **ATODIAD – Gofynnir am wybodaeth bellach yng ngoleuni'r dystiolaeth a ddarparwyd gan CBAC, Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru ar 18 Awst 2020**

Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r wybodaeth a ganlyn:

- **Llinell amser o'r digwyddiadau sydd wedi dod i'r amlwg ers cyhoeddi'r penderfyniad i ganslo'r arholiadau, gan gynnwys:**
- **y cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng Llywodraeth Cymru a CBAC; rhwng Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru; a rhwng Llywodraeth Cymru, CBAC a Cymwysterau Cymru. Fel rhan o'r llinell amser hon, a fyddai modd nodi a oedd y cyfarfodydd hyn yn gyfarfodydd rhwng swyddogion yn unig, neu a oedd y Gweinidog yn bresennol?;**
- **y dyddiadau pan ddarparwyd y manylion ynghylch y canlyniadau Safon Uwch – a'r cyngor yn eu cylch – i'r Gweinidog Addysg;**
- **y dyddiadau pan fu cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru (y Gweinidog a/neu swyddogion) a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill mewn perthynas â'r broses o ddyfarnu canlyniadau ar gyfer yr arholiadau.**

Darperir yr wybodaeth y gofynnir amdani yn Atodiad A y llythyr hwn.

*Sylwer: Rydym yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ymrwymo yn ein cyfarfod ar 18 Awst i ddarparu llinell amser o'r cyfarfodydd a gynhaliodd hi'n bersonol gyda Cymwysterau Cymru yn ystod y cyfnod hwn.*

- **Gwybodaeth bellach am Uned Nawdd Cymwysterau Cymru o fewn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:**
- **manyion ei chylch gwaith;**
- **manyion ei haelodaeth;**
- **cadarnhad ynghylch pryd y daeth yn ymwybodol bod y broses safoni wedi arwain at israddio 42 y cant o'r canlyniadau Safon Uwch, neu unrhyw amcangyfrifon cynharach;**
- **cadarnhad ynghylch a gafodd y wybodaeth hon ei throsglwyddo ac, os felly, i bwy a phryd.**

Tri swyddog Llywodraeth Cymru sydd i Uned Nawdd Cymwysterau Cymru, un ar lefel Gradd 7, un ar lefel BRh1 ac un ar lefel BRh3. Mae'r uned yn atebol i swyddog Gradd 6 sy'n goruchwylio gwaith y tîm ynghyd â chyfrifoldebau dau dîm arall. Mae'r swyddog Gradd 6 yn atebol i Ddirprwy Gyfarwyddwr y Cwricwlwm ac Asesu.

Cylch gwaith yr Uned Nawdd yw cyflawni'r swyddogaethau gweinyddol, monitro ac atebolrwydd i sicrhau rhyngwyneb effeithiol a phriodol rhwng Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru fel corff a noddir. Cyflawnir y swyddogaethau hyn yn unol â'r cyngor a ddarparwyd a'r gofynion a bennwyd ar gyfer cyrff a noddir yng Nghymru. Ymhlith y prif gyfrifoldebau mae rheoli ariannol, penodiadau cyhoeddus, cyhoeddi llythyr cylch gwaith, trefniadau atebolrwydd gan gynnwys mynd i gyfarfodydd Bwrdd a chynnal cyfarfodydd nawdd a rheoli rhyngwyneb effeithiol rhwng tîm polisi Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru er mwyn sicrhau cysondeb rhwng polisi a gweithredu.

Ar 28 Gorffennaf, cynhaliwyd cyfarfod Grŵp Rhannu Gwybodaeth rhwng Cymwysterau Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y broses ddyfarnu a rôl safoni. Cynhaliwyd cyfarfod pellach ar 3 Awst pan ddywedodd Cymwysterau Cymru wrth swyddogion y gallai graddau asesu canolfannau, yn dilyn proses

safoni – oherwydd anghysondeb rhwng canolfannau, ac er mwyn osgoi dyfarnu graddau rhy uchel – olygu bod:

- canran fach o ddysgwyr yn cael gradd uwch na gradd asesu eu canolfan;
- y rhan fwyaf o ddysgwyr yn cael yr un radd â gradd asesu eu canolfan;
- y gweddill yn cael gradd is na gradd asesu eu canolfan. Byddai canran fach o'r graddau a gyfrifir ddwy radd neu ragor yn is na gradd asesu'r ganolfan.

Cynhaliwyd cyfarfod pellach ddiwedd prynhawn 11 Awst rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru. Trafodwyd trosolwg o'r canlyniadau, gan gynnwys nifer y graddau a oedd yn cael eu safoni'n is na graddau asesu canolfannau, a'r dadansoddiad manwl o ran cydraddoldeb. Cyflwynwyd yr wybodaeth hon i'r Gweinidog ac uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystod nifer o gyfarfodydd a gynhaliwyd ar 12 Awst, fel rhan o'r cyfarfod briffio arferol a gynhelir ar sail embargo cyn cyhoeddi canlyniadau arholiadau.

**- Ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i ddarparu diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor ynghylch y camau a gaiff eu cymryd i roi'r adolygiad annibynnol ar waith, ac ymrwymiad i sicrhau bod diweddariadau ar gynnydd yr adolygiad yn dilyn hynny hefyd yn cael eu darparu inni.**

Ar 28 Awst, cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig ar benodi Louise Casella, Cyfarwyddwr y Brifysgol Agored yng Nghymru, fel Cadeirydd. Bydd yr adolygiad yn ymchwilio i'r trefniadau a ddatblygwyd ac a sefydlwyd ar gyfer dyfarnu graddau yr haf hwn, a bydd yn tynnu gwersi o'r hyn sydd wedi digwydd eleni, yn benodol er mwyn llunio argymhellion ar gyfer sut i baratoi at 2021.

O ystyried y risg y gwelwn darfu pellach yn ystod blwyddyn ysgol 2020/21 yn sgil Covid-19, rwy'n teimlo ei bod yn hanfodol ein bod yn gweithredu'n gyflym a llunio canfyddiadau cynnar fel sail i'r gwaith o gynllunio a sefydlu trefniadau wrth gefn ar gyfer haf nesaf. Rwyf felly wedi gofyn i'r adolygiad ddarparu adroddiad interim imi ar y prif faterion erbyn diwedd Hydref. Bydd yr adroddiad terfynol a'r argymhellion yn dilyn erbyn canol Rhagfyr. Bydd yr adolygiad yn rhoi tawelwch meddwl i randdeiliaid, gan gynnwys dysgwyr, rhieni, gofalgwyr, athrawon a chyrrff addysg fod yna graffu wedi bod ar drefniadau eleni, a bod mesurau wedi'u sefydlu ar gyfer 2021. Byddwn yn croesawu barn a mewnbwn y Pwyllgor wrth i'r adolygiad fynd rhagddo, a byddaf yn gwneud yn siŵr eich bod chi'n cael gwybodaeth reolaidd.

**- Asesiad o'r effaith y bydd y graddau safonedig arfaethedig a'r Graddau Asesu Canolfannau a ddyfarnwyd yn ei chael ar grwpiau penodol o ddisgyblion (disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion BAME, disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac ati). Yn ogystal, asesiad o sut y mae'r gwahaniaeth rhwng y graddau safonedig arfaethedig a'r Graddau Asesu Canolfannau a ddyfarnwyd wedi effeithio ar ganolfannau unigol ac ar fathau penodol o ganolfannau.**

Yn ddiweddar cyhoeddodd Cymwysterau Cymru ddatganiad ar ei gynlluniau i ddadansoddi ymhellach ganlyniadau'r haf hwn, ac rwyf wedi darparu dolen ato isod:

<https://qualificationswales.org/cymraeg/canlyniadau-haf-2020/datganiadau-cymwysterau-cymru/datganiad-ar-gynlluniau-ar-gyfer-datganiadau-ystadegol-pellach/>

Ar hyn o bryd, mae Cymwysterau Cymru wrthi'n gweithio tuag at gyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf ar ei drosolwg o'r canlyniadau, a disgwylir i hon gael ei chyhoeddi yn ystod yr wythnos nesaf. Bydd hyn yn darparu amcangyfrifon mwy cywir o ganlyniadau terfynol yr haf hwn o ran Safon Uwch, UG, TGAU a Thystysgrif Her Sgiliau yn ogystal â chymharu â chanlyniadau blynyddoedd blaenorol a'r graddau safonedig a gynigiwyd. Bydd Cymwysterau Cymru hefyd yn diweddarau'r wybodaeth ynghylch bylchau cyrhaeddiad ac yn

ehangu arni gan roi dadansoddiad o ganlyniadau dysgwyr sydd â statws anghenion addysgol arbennig ynghyd â gwybodaeth bellach ar y canlyniadau yn ôl cefndir ethnig. Mae yna gynlluniau ychwanegol i lunio a chyhoeddi'r dadansoddiadau canlynol:

- Dadansoddiad o'r canlyniadau, graddau asesu canolfannau a'r graddau safonedig a gynigiwyd, yn ôl ardal ac awdurdod lleol
- Fersiwn fwy cyflawn o'r ystadegau ar [amrywiad ymhlith canolfannau](#) a gyhoeddwyd yn haf 2019, gan gynnwys gwybodaeth yn ôl math o ganolfan
- Dogfen sy'n tynnu ynghyd y gwaith dadansoddi o'r effaith o ran cydraddoldeb, â dadansoddiad manylach.

## Canslo cyfres arholiadau haf 2020 – llinell amser

Dyddiad	Digwyddiad
4 Mawrth	Galwad gyda Michelle Donelan, y Gweinidog Gwladol dros Brifysgolion
6 Mawrth	Cyfarfod wythnosol ynghylch y trefniadau wrth gefn ar gyfer arholiadau - Cymwysterau Cymru a swyddogion o Uned Nawdd Llywodraeth Cymru
12 Mawrth	Cyfarfod pythefnosol rhwng swyddogion Addysg o Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon
16 Mawrth	Cyfarfod â Cymwysterau Cymru i drafod Cymwys ar gyfer y Dyfodol
17 Mawrth	Galwad gyda Gavin Williamson, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg
18 Mawrth	Cyfarfod gyda CBAC a Cymwysterau Cymru i drafod yr opsiynau a'r trefniadau wrth gefn ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020
	Cyngor ffurfiol ar ganslo arholiadau haf 2020 a'r opsiynau ar gyfer cyfrifo graddau.
	Datganiad yn canslo arholiadau haf 2020 ac yn cyhoeddi trefniadau amgen ar gyfer dyfarnu graddau.
	Galwad gyda Gavin Williamson, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg
19 Mawrth	Yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
20 Mawrth	Cyhoeddiad ar gyflwyno gwyliau'r Pasg yn gynharach a chau ysgolion ar gyfer y rhan fwyaf o ddysgwyr
	Cyngor ffurfiol ar beidio â defnyddio deilliannau o gyfres arholiadau'r haf i gyfrifo mesurau perfformiad, na'u cynnwys mewn pecynnau data na'u cyhoeddi ar Fy Ysgol Leol
24 Mawrth	Galwad rhwng Gweinidogion Addysg y pedair cenedl
24 Mawrth	Grŵp Gwybodaeth Gweinidogol Llywodraeth y DU
26 Mawrth	Cyfarfod gyda CBAC a Cymwysterau Cymru i drafod yr opsiynau ar gyfer dyfarnu graddau i ddysgwyr ym Mlynnyddoedd 10 a 12
	Cyngor ffurfiol ar y trefniadau ar gyfer dyfarnu graddau i ddysgwyr ym Mlynnyddoedd 10 a 12
	Llythyr i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg ynghylch cadw at y diwrnod canlyniadau arferol a pheidio â chyhoeddi canlyniadau'n gynharach
	Cyfarfod o Fwrdd Cymwysterau Cymru - swyddogion o Lywodraeth Cymru'n bresennol fel arsylwyr

27 Mawrth	Cyhoeddi'r dull gweithredu ar gyfer dysgwyr ym Mlynnyddoedd 10 a 12.
	Llythyr i sefydliadau addysg uwch ynghylch goblygiadau COVID-19
	Cyfarfod rheoli chwarterol - cyfarfod nawdd gyda Cymwysterau Cymru ac uwch-swyddogion
1 Ebrill	Grŵp Gwybodaeth Gweinidogol Llywodraeth y DU
2 Ebrill	Cyngor ffurfiol ar roi cyfarwyddyd i Gymwysterau Cymru ynghylch canslo arholiadau'r haf a chyfrifo graddau
3 Ebrill	Cymwysterau Cymru'n darparu canllawiau i ganolfannau arholi ar gyfrifo Graddau Asesu Canolfannau
	Cyfarfod pedair gwlad – rheoleiddwyr a swyddogion o Adrannau Addysg Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr
6 Ebrill	Cyfarwyddyd yn cael ei roi'n ffurfiol i Gymwysterau Cymru ynghylch polisi Gweinidogion Cymru ar ganslo arholiadau haf 2020 a'r trefniadau ar gyfer dyfarnu graddau
7 Ebrill	Grŵp Gwybodaeth Gweinidogol Llywodraeth y DU
8 Ebrill	Galwad rhwng Gweinidogion Addysg y pedair cenedl
14 Ebrill	Cyfarfod gyda Cymwysterau Cymru i drafod y trefniadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol
16 Ebrill	Cyngor ffurfiol ar barhau i gynnal y diwrnodau canlyniadau a gynlluniwyd ymlaen llaw
	Datganiad ar ddyddiadau'r diwrnodau canlyniadau
	Grŵp Gwybodaeth Gweinidogol Llywodraeth y DU
17 Ebrill	Galwad gyda Michelle Donelan, y Gweinidog Gwladol dros Brifysgolion
22 Ebrill	Galwad rhwng Gweinidogion Addysg y pedair cenedl
24 Ebrill	Cyngor ffurfiol ar roi cyfarwyddyd i Gymwysterau Cymru ynghylch y trefniadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol
28 Ebrill	Cyhoeddi ymgynghoriad Cymwysterau Cymru ar y trefniadau ar gyfer cyfrifo graddau
28 Ebrill	Yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
30 Ebrill	Grŵp Gwybodaeth Gweinidogol Llywodraeth y DU
	Cyfarfod dwyochrog Cyfarwyddwr Addysg Llywodraeth Cymru a Phrif Weithredwr Cymwysterau Cymru
1 Mai	Grŵp Gwybodaeth Gweinidogol Llywodraeth y DU

5 Mai	Galwad gyda Richard Lochhead, Gweinidog yr Alban dros Addysg Bellach, Addysg Uwch a Gwyddoniaeth
6 Mai	Galwad rhwng Gweinidogion Addysg y pedair cenedl
7 Mai	Cyfarfod ynghylch cymwysterau galwedigaethol - Cymwysterau Cymru a swyddogion polisi
11 Mai	Galwad gyda Gavin Williamson, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg
13 Mai	Cyfarfod o Fwrdd Cymwysterau Cymru - swyddogion Llywodraeth Cymru'n bresennol fel arsylwyr
14 Mai	Cyfarfod o Fwrdd Cymwysterau Cymru - swyddogion Llywodraeth Cymru'n bresennol fel arsylwyr
19 Mai	Galwad rhwng Gweinidogion Addysg y pedair cenedl
28 Mai	Galwad rhwng Gweinidogion Addysg y pedair cenedl
29 Mai	Hysbysiad ymlaen llaw Cymwysterau Cymru am benderfyniad ynghylch y broses apelio yn dilyn yr ymgynghoriad
1 Mehefin	Galwad gyda Michelle Donelan, y Gweinidog Gwladol dros Brifysgolion
3 Mehefin	Galwad rhwng Gweinidogion Addysg y pedair cenedl
	Cyfarfod dwyochrog Cyfarwyddwr Addysg Llywodraeth Cymru a Phrif Weithredwr Cymwysterau Cymru
12 Mehefin	Cyngor ffurfiol ar ymgynghori ar lacio gofynion adrodd ysgolion
	Cyfarfod rhwng Cymwysterau Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru - cynllunio ar gyfer 2020-21
16 Mehefin	Cyfarfod eithriadol o Fwrdd Cymwysterau Cymru - swyddogion Llywodraeth Cymru'n bresennol fel arsylwyr
17 Mehefin	Galwad rhwng Gweinidogion Addysg y pedair gwlad
18 Mehefin	Cyngor ffurfiol ar rannu data asesiadau athrawon a data profion cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 i gefnogi'r gwaith o ddatblygu modelau safoni
22 Mehefin	Cyfarfod gyda Cymwysterau Cymru ynghylch yr ystyriaethau cychwynnol ar gyfer arholiadau yn 2021
25 Mehefin	Cyfarfod rheoli chwarterol - cyfarfod noddi gyda Cymwysterau Cymru ac uwch-swyddogion
26 Mehefin	Cyngor ffurfiol ar barhau i atal mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 yn 2020/21, parhau i gasglu data ynghylch dyfarniadau TGAU a Safon Uwch a llunio cyhoeddiad Ystadegau Swyddogol ar lefel genedlaethol.
30 Mehefin	Galwad rhwng y tri Gweinidog Addysg datganoledig



	Cyfarfod eithriadol o Fwrdd Cymwysterau Cymru - swyddogion Llywodraeth Cymru'n bresennol fel arsylwyr
1 Gorffennaf	Galwad rhwng Gweinidogion Addysg y pedair cenedl
3 Gorffennaf	Llythyr i Gymwysterau Cymru ynghylch y dull gweithredu ar gyfer arholiadau yn 2021
	Datganiad yn cyhoeddi newidiadau i'r trefniadau ar gyfer cyhoeddi data ynghylch dyfarniadau cymwysterau oherwydd COVID-19
	Cyfarfod cynllunio ar gyfer canlyniadau a chyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru, CBAC a Cymwysterau Cymru – a gynhaliwyd yn wythnosol tan ddiwedd mis Awst
6 Gorffennaf	Cymwysterau Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru
7 Gorffennaf	Yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
	Cyfarfod eithriadol o Fwrdd Cymwysterau Cymru – rhoddwyd ymddiheuriadau ac nid oedd swyddog o Lywodraeth Cymru'n bresennol i arsylwi
9 Gorffennaf	Cymwysterau Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru - camau nesaf Cymwys ar gyfer y Dyfodol
	Cynllunio cydnerthedd Covid-19 - Grŵp Gorchwyl a Gorffen Safon Uwch - swyddogion o Lywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC yn bresennol fel rhan o'r gynrychiolaeth ehangach allweddol.
10 Gorffennaf	Cyngor ffurfiol ar wneud Rheoliadau Llacio'r Gofynion Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2020
15 Gorffennaf	Dadl y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg - Effaith argyfwng Covid-19 ar blant a phobl ifanc yng Nghymru
16 Gorffennaf	Galwad rhwng Gweinidogion Addysg y pedair cenedl
	Galwad gyda Michelle Donelan, y Gweinidog Gwladol dros Brifysgolion
	Cyfarfod Bwrdd Cymwysterau Cymru - swyddogion Llywodraeth Cymru'n bresennol fel arsylwyr
17 Gorffennaf	Cyfarfod dwyochrog Cyfarwyddwr Addysg Llywodraeth Cymru a Prif Weithredwr Cymwysterau Cymru
21 Gorffennaf	Cyfarfod eithriadol o Fwrdd Cymwysterau Cymru - swyddogion Llywodraeth Cymru'n bresennol fel arsylwyr
22 Gorffennaf	Cynllunio cydnerthedd Covid-19 - Grŵp Gorchwyl a Gorffen Safon Uwch - swyddogion Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC yn mynychu fel rhan o'r gynrychiolaeth ehangach allweddol.
28 Gorffennaf	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyfarwyddwyr Addysg Awdurdodau Lleol, y Gweinidog Addysg, Cymwysterau Cymru a CBAC

	Grŵp Rhannu Gwybodaeth - cyfarfod rhwng Cymwysterau Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod paratoi ar gyfer y canlyniadau
3 Awst 2017	Grŵp Rhannu Gwybodaeth - is-grŵp paratoi ar gyfer canlyniadau - swyddogion Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru
7 Awst 2017	Rheoliadau Llacio Gofynion Trefniadau Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2020 wedi dod i rym
10 Awst 2017	Grŵp Rhannu Gwybodaeth - is-grŵp paratoi ar gyfer canlyniadau - swyddogion Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru
	Cyfarfod gyda Cymwysterau Cymru
11 Awst 2017	Cyfarfod gyda swyddogion ynghylch cyhoeddiad Llywodraeth yr Alban
	Galwad gyda Gavin Williamson, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg
	Grŵp Rhannu Gwybodaeth - is-grŵp paratoi ar gyfer canlyniadau - swyddogion Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru
12 Awst 2017	Cyfarfod gyda Cymwysterau Cymru
	Cyfarfod dilynol gyda Cymwysterau Cymru
	Cyfarfod briffio ymlaen llaw ar ganlyniadau gyda Cymwysterau Cymru
	Trafodaeth â swyddogion o'r Adran Addysg
	Cyngor ffurfiol ar sicrhau bod apelau a wneir i CBAC am ddim
	Galwad gyda Gavin Williamson, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg
14 Awst 2017	Cyfarfod am 10am gyda Cymwysterau Cymru
	Cyfarfod am 4pm gyda Cymwysterau Cymru
	Cyfarfod am 5pm gyda Cymwysterau Cymru
	Cyngor ffurfiol ar drefniadau diwygiedig ar gyfer Safon UG a Safon Uwch gan gynnwys cyflwyno'r rheol na fydd gradd Safon Uwch yn is na gradd AS, ac ehangu hawliau apelio
	Cyhoeddi adendwm i'r Cyfarwyddyd i Gymwysterau Cymru ynghylch Safon UG a Safon Uwch a phroses apelio ehangach
15 Awst 2017	Cyfarfod gyda Cymwysterau Cymru a CBAC

16 Awst 2017	Cyfarfod gyda Cymwysterau Cymru a CBAC
	Cyngor ffurfiol ynghylch yr opsiynau ar gyfer TGAU, ynghyd â goblygiadau defnyddio Graddau Asesu Canolfannau
17 Awst 2017	Datganiad ar y cyhoeddiad ynghylch dyfarnu graddau TGAU, Safon UG, Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau ar sail Graddau Asesu Canolfannau
18 Awst 2017	Cyhoeddi Cyfarwyddyd diwygiedig i Gymwysterau Cymru ynghylch dyfarnu graddau ar sail Graddau Asesu Canolfannau
19 Awst 2017	Cyfarfod gyda Cymwysterau Cymru - briffio ymlaen llaw ar ganlyniadau TGAU

*Sylwer – mae'r cyfarfodydd a amlygwyd mewn glas yn gyfarfodydd a fynychwyd gan swyddogion yn unig. Ceir dau gyfarfod a gynhaliwyd yn wythnosol a dim ond y cyfarfod cyntaf sydd wedi'i nodi yn y tabl er mwyn bod yn gryno, sef y cyfarfod wythnosol ar y trefniadau wrth gefn ar gyfer arholiadau - cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 6 Mawrth, a'r cyfarfod wythnosol ar gynllunio ar gyfer canlyniadau a chyfathrebu - cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 3 Gorffennaf. Cafwyd hefyd dau gyfarfod a gynhelir bob pythefnos ac eto dim ond y cyfarfod cyntaf sydd wedi'i nodi yn y tabl er mwyn bod yn gryno. Y cyfarfodydd hyn yw'r cyfarfod pythefnosol rhwng swyddogion o Adrannau Addysg Cymru, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Lloegr- cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 12 Mawrth, a chyfarfodydd y pedair gwlad rhwng rheoleiddwyr a swyddogion yr Adrannau Addysg – cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 3 Ebrill.*